

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government


Ymchwil gymdeithasol

Rhif: 51/2014

[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)

# Gwerthusiad o brosiect Mynediad i Wasanaethau Ariannol drwy Undebau Credyd

## ADRODDIAD TERFYNOL 31 Mawrth 2014



# **Gwerthusiad o Brosiect Mynediad i Wasanaethau Ariannol drwy Undebau Credyd**

## **ADRODDIAD TERFYNOL**

**31 Mawrth 2014**

**Nia Bryer, Old Bell 3 Cyf**

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn farn  
Llywodraeth Cymru.

I gael gwybodaeth bellach cysylltwch â:

Dr Michael Harmer

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddol

Cynllunio Strategol, Cyllid a Pherfformiad

Llywodraeth Cymru

Swyddfa Merthyr Tudful

Rhyd-y-car

Merthyr Tudful

CF48 1UZ

Ffôn: 0300 0628500

E-bost: [michael.harmer@wales.gsi.gov.uk](mailto:michael.harmer@wales.gsi.gov.uk)

<http://www.cymru.gov.uk/ymchwil>

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 29 Mai 2014

ISBN 978-1-4734-1310-8

© Hawlfraint y Goron 2014

## TABL CYNNWYS

|                                                                                                |    |
|------------------------------------------------------------------------------------------------|----|
| TABL CYNNWYS.....                                                                              | 3  |
| RHESTR ACRONYMAU .....                                                                         | 4  |
| 1. CYFLWYNIAD .....                                                                            | 5  |
| 1.1 Cefndir .....                                                                              | 5  |
| 1.2 Nod yr Adolygiad.....                                                                      | 5  |
| 1.3 Dull.....                                                                                  | 6  |
| 1.4 Strwythur yr Adroddiad.....                                                                | 7  |
| 2. ADOLYGIAD POLISI.....                                                                       | 9  |
| 2.1 Crynodeb Adolygu Polisi Adroddiad Blwyddyn Gyntaf.....                                     | 9  |
| 2.2 Crynodeb Adolygu Polisi Adroddiad yr Ail Flwyddyn.....                                     | 10 |
| 2.3 Polisi cyfredol Llywodraeth Cymru .....                                                    | 11 |
| 2.4 Polisi a Deddfwriaeth Gyfredol y Deyrnas Unedig .....                                      | 14 |
| 3. DARPARIAETH CYLLID AMGEN .....                                                              | 18 |
| 3.1 Cyflwyniad.....                                                                            | 18 |
| 3.2 Datblygiadau mewn darpariaeth cyllid amgen.....                                            | 18 |
| 3.3 Gwersi i Undebau Credyd Cymru .....                                                        | 20 |
| 4. CEFNDIR Y PROSIECT .....                                                                    | 23 |
| 4.1 Cyflwyniad.....                                                                            | 23 |
| 4.2 Y Cyfnod Cyntaf.....                                                                       | 23 |
| 4.3 Yr Ail Gyfnod.....                                                                         | 23 |
| 4.4 Yn dilyn yr Ail Gyfnod.....                                                                | 27 |
| 5. CANFYDDIADAU.....                                                                           | 29 |
| 5.1 Cyflwyniad.....                                                                            | 29 |
| 5.2 Barn am Resymeg y Prosiect.....                                                            | 29 |
| 5.3 Targedau a Pherfformiad y Prosiect .....                                                   | 36 |
| 5.4 Trefniadau Cyflenwi Prosiect .....                                                         | 42 |
| 5.5 Cefnogaeth yn yr Ail Gyfnod .....                                                          | 44 |
| 5.6 Cyllid SGEI.....                                                                           | 50 |
| 5.7 Datblygiad a Pherfformiad Undebau Credyd.....                                              | 51 |
| 5.8 Adborth gan gwsmeriaid undebau credyd.....                                                 | 72 |
| 6 ASESU'R HYN A GYFLAWNWDYD .....                                                              | 75 |
| 6.1 Cyflwyniad.....                                                                            | 75 |
| 6.2 I ba raddau y gweithredwyd argymhellion yr Adroddiad Interim .....                         | 75 |
| 6.3 I ba raddau y mae'r prosiect yn cyflawni targedau'r Cynllun Gweithredu Undebau Credyd..... | 78 |
| 6.4 Gwerth am arian.....                                                                       | 82 |
| 7. CASGLIADAU AC ARGYMHELLION.....                                                             | 85 |
| Atodiad 1: Rhestr cyfweleion (gwaith maes 2013) .....                                          | 91 |

## RHESTR ACRONYMAU

|        |                                                                                          |
|--------|------------------------------------------------------------------------------------------|
| ABCUL  | Association of British Credit Unions Limited                                             |
| ACE    | Access to Credit Unions for Everyone                                                     |
| CUCA   | Cyfrif Cyfredol Undebau Llafur                                                           |
| DWP    | Adran Gwaith a Phensiynau                                                                |
| ERDF   | Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop                                                        |
| FCA    | Awdurdod Ymddygiad Ariannol                                                              |
| FSA    | Awdurdod Gwsanaethau Ariannol                                                            |
| LASA   | Loans and Savings Abertawe                                                               |
| PEARLS | 'Protection, Effective Financial Structure, Rates of Return, Liquidity, Signs of Growth' |
| SGEI   | Gwasanaeth o Fudd Economaidd Cyffredinol                                                 |
| TSIB   | The Social Investment Business                                                           |
| UWIC   | University of Wales Institute Cardiff                                                    |
| WEFO   | Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru                                                          |

# 1. CYFLWYNIAD

## 1.1 Cefndir

Comisiynwyd Old Bell 3 Cyf. gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwerthusiad o'r Prosiect Mynediad i Wasanaethau Ariannol drwy Undebau Credyd (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel y Prosiect Undebau Cyllid).

Wedi'i ariannu gan llyn Datblygu Economaidd Cymunedol Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF), mae'r prosiect Undebau Credyd yn agosáu at ddiwedd ei ail gyfnod o ddarpariaeth, ar ôl cynllun peilot am gyfnod o un flwyddyn rhwng Ebrill 2009 a Mehefin 2010. Cafodd cyfnod cyntaf y cynllun peilot ei gyflenwi gan Ganolfan Cydweithredol Cymru ar ran Llywodraeth Cymru a chyflenwir yr ail gyfnod gan The Social Investment Business (TSIB).

## 1.2 Nod yr Adolygiad

Nod y gwerthusiad yma yw 'asesu effaith ac effeithlonrwydd y prosiect Mynediad i Wasanaethau Ariannol drwy Undebau Credyd ac i ba raddau y cafodd ei nodau ac amcanion eu cyflawni'<sup>1</sup>.

Bu tri chyfnod neilltuol yn y gwerthusiad: gwerthusiad ffurfiannol (cyfnod cyntaf); gwerthusiad interim (ail gyfnod) a gwerthusiad crynodedol (trydydd cyfnod). Cynhaliwyd y gwerthusiad ffurfiannol yn ystod 2011 ac arweiniodd at gyhoeddi Adroddiad y Flwyddyn Gyntaf a chynhaliwyd y gwerthusiad interim rhwng Mai a Thachwedd 2012 gan arwain at gyhoeddi'r Adroddiad Interim Terfynol<sup>2</sup>.

Amcanion y trydydd cyfnod hwn o waith, fel yr amlinellwyd yn y fanyleb waith wreiddiol, oedd:

---

<sup>1</sup> Manyleb Gwahoddiad i Dendro, Tudalen 4

<sup>2</sup> Gellir cyrchu'r ddau adroddiad drwy: <http://new.wales.gov.uk/statistics-and-research/evaluation-access-financial-products-through-credit-unions/?lang=cy>

- Parhau i asesu effaith ac effeithlonrwydd y prosiect wrth gyflawni ei nodau ac amcanion ac i ba raddau y cafodd yr argymhellion gwerthuso eu cynnwys yn y prosiect;
- Asesu gwerth am arian y prosiect a chynnal dadansoddiad cost-budd o'r gweithgareddau a gynhaliwyd;
- Adolygu perfformiad y prosiect o gymharu â'r hyn a ddisgwyld (yn cynnwys targedau a ariannwyd gan WEFO) gan roi ystyriaeth i'r hyn a fyddai wedi digwydd onibai am y prosiect;
- Asesu effeithiau economaidd y gwariant, gan roi ystyriaeth i ychwanegedd, di-fuddiant a dadleoliad;
- Dynodi unrhyw risgiau a wireddwyd a'r effaith a gawsant ar berfformiad y prosiect;
- Adolygu i ba raddau y cyfrannodd y prosiect at dargedau Cynllun Gweithredu yr Undebau Credyd;
- Adolygu i ba raddau y mae'r prosiect wedi datblygu ac addasu yn unol â newidiadau mewn polisi a deddfwriaeth;
- Gwneud argymhellion ar y dyfodol a dynodi elfennau allweddol unrhyw ddarpariaeth ar gyfer y sector yn y dyfodol.

Cytunwyd ymhellach y byddai'r cam yma o'r gwaith yn cynnwys adolygiad desg o lenyddiaeth ar ffynonellau eraill o gyllid megis benthyca diwrnod cyflog ac y byddai meincnodi effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd o ran cost y prosiect o gymharu â sefydliadau eraill yn anaddas oherwydd diffyg sefydliadau addas ar gyfer cymharu.

### **1.3 Dull**

Mae'r adroddiad gwerthuso terfynol yma'n seiliedig ar raglen waith a gynhaliwyd rhwng mis Medi 2013 a mis Ionawr 2014 oedd yn cynnwys:

- Mynychu cyfarfod cynllunio gyda Grŵp Llywio'r Gwerthusiad i gytuno ar raglen waith y cyfnod gwerthuso terfynol;

- Diweddaru adolygiad llenyddiaeth o bolisi a deddfwriaeth y Deyrnas Unedig a pholisi a deddfwriaeth Cymru yng nghyswllt y sector undebau credyd;
- Cynnal adolygiad o ddarparwyr cyllid amgen;
- Adolygu dogfennau yn ymwneud â chyflenwi'r prosiect Undebau Credyd;
- Adolygu data monitro ac allbwn y prosiect gyda golwg ar asesu i ba raddau y cafodd targedau ail gyfnod y prosiect eu cyflawni;
- Adolygu data ariannol a pherfformiad yn ymwneud ag undebau credyd yng Nghymru;
- Diweddaru canllawiau pwnc lled-strwythuredig a chynnal ymgynghoriadau gyda chyfanswm o 16 rhanddeiliad yn cynnwys TSIB a swyddogion Llywodraeth Cymru;
- Diweddaru canllawiau pwnc lled-strwythuredig a chynnal ymweliadau i gyfanswm o 13 undeb credyd. Cynhaliwyd cyfweiliadau gyda chyfanswm o 21 Aelod Bwrdd (mewn naw undeb credyd), 23 o staff (yn cynnwys rheolwyr), chwech o wirfoddolwyr ac 11 aelod;
- Diweddaru canllaw pwnc lled-strwythuredig ac ail-gyfweld â rheolwyr tri undeb credyd 'rheoli' neu gyffelyb nad oeddent yn cymryd rhan yn y prosiect<sup>3</sup>.

## 1.4 Strwythur yr Adroddiad

Yng ngweddill yr adroddiad, yn gyntaf diweddarn y cyd-destun polisi ar gyfer y sector undebau credyd ar lefel y Deyrnas Unedig a lefel Cymru (**Adran 2**) cyn rhoi trosolwg o'r farchnad benthyca cyllid arall ar draws y Deyrnas Unedig (**Adran 3**). Wedyn rhoddwn drosolwg o gyfnod cyntaf ac ail gyfnod y Prosiect Undebau Credyd (**Adran 4**) a chyflwyno canfyddiadau ein gwaith maes a gynhaliwyd ar draws tri chyfnod y gwerthusiad yma (**Adran 5**), sydd hefyd yn rhoi ystyriaeth i'n dadansoddiad o ddata perfformiad y prosiect, perfformiad ariannol undebau credyd ac undebau credyd cyffelyb. Wedyn trown i drafod i ba raddau y mae'r targedau a nodwyd yng Nghynllun Gweithredu Undebau

<sup>3</sup> Dewiswyd un undeb credyd o Gymru (Undeb Credyd Bargoed, Aberbargoed and Gilfach ) a dwy undeb credyd o Loegr (Undeb Credyd Bryste ac Undeb Credyd Just (Swyddf Amwythig, Telford a Wrekin)

Credyd yn cael eu cyflawni, p'un ai a gafodd argymhellion o'n Hadroddiad Interim eu rhoi ar waith a ph'un ai yw'r prosiect wedi cynnig gwerth am arian **(Adran 6)** cyn yn olaf gyflwyno ein casgliadau a'n hargymhellion yn **Adran 7**.

## 2. ADOLYGIAD POLISI

### 2.1 Crynodeb Adolygu Polisi Adroddiad Blwyddyn Gyntaf

Adolygodd ein Hadroddiad Blwyddyn Gyntaf<sup>4</sup> nifer o ddogfennau polisi a strategaeth allweddol Cymru perthnasol i'r Prosiect Undebau Credyd, yn cynnwys Strategaeth Cynhwysiant Ariannol Cymru<sup>5</sup>, Cynllun Gweithredu Undebau Credyd Cymru<sup>6</sup> a'r Rhaglen Lywodraethu gyfredol<sup>7</sup>. Ystyriodd yr adroddiad hefyd gyd-destun y Deyrnas Unedig yng nghyswllt diwygiadau deddfwriaethol yn effeithio ar undebau credyd ar draws y Deyrnas Unedig a gwerthusiad o Gronfa Twf yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Daeth ein Hadroddiad Blwyddyn Gyntaf i'r casgliad nad oedd y mudiad undebau credyd yng Nghymru wedi datblygu i'r un graddau ag mewn rhai gwledydd eraill ond bod cyd-destun polisi Cymru yn gefnogol iawn i undebau credyd fel dull allweddol i fynd i'r afael ag allgáu ariannol. Cawsom fod y gefnogaeth ar gyfer datblygu undebau credyd yng Nghymru yn amlwg iawn a bod y prosiect wedi'i wreiddio'n dda ac yn gydnaws â pholisïau allweddol Llywodraeth Cymru yn ystod ei sefydlu, yn cynnwys y Strategaeth Cynhwysiant Ariannol a Chynllun Gweithredu yr Undebau Credyd oedd rhyngddynt yn gosod cyfeiriad manwl iawn ar gyfer y mudiad yng Nghymru.

Daethom hefyd i'r farn fod y disgwyliadau ar undebau credyd yn uchel iawn a medrid dadlau nad oeddent yn realistig. Ein casgliad oedd yr ymddangosai fod datgysylltiad rhwng gallu'r mudiad undebau credyd yng Nghymru a'r uchelgais iddo gyflawni'r amcanion polisi lefel uchel disgwyliedig yn cwmpasu cyfiawnder cymdeithasol, datblygu economaidd a hyd yn oed addysg. Awgrymasom bod angen datblygu gallu, hyfywedd a threfniadau llywodraethiant undebau credyd yng Nghymru er mwyn eu galluogi a'u grymuso i fedru cyflawni eu potensial fel sefydliadau ariannol cymunedol.

---

<sup>4</sup>Llywodraeth Cymru (2012) 'Gwerthusiad o Brosiect Mynediad i Wasanaethau Ariannol drwy Undebau Credyd - Adroddiad y Flwyddyn Gyntaf' ar gael yn: <http://wales.gov.uk/statistics-and-research/evaluation-access-financial-products-through-credit-unions/?status=open&lang=cy>

<sup>5</sup>Llywodraeth Cynulliad Cymru (Gorffennaf 2009) *Mae Pawb yn Cyfrif: Strategaeth Cynhwysiant Ariannol Cymru*

<sup>6</sup>Llywodraeth Cynulliad Cymru (Tachwedd 2010) *Codi'r Proffil: Ymateb i'r Her - Cynllun Gweithredu ar gyfer Mudiad yr Undebau Credyd yng Nghymru 2010-2013*

<sup>7</sup>Llywodraeth Cymru (Medi 2011) *Y Rhaglen Lywodraethu (2011-2016)*

Dywedsom y dylai'r newidiadau deddfwriaethol a sefydlwyd gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig helpu i symleiddio'r amgylchedd yr oedd undebau credyd yn gweithredu ynddo a galluogi safbwynt mwy hyblyg a masnachol oedd yn debygol o arwain at fwy o gystadleuaeth rhwng undebau credyd a benthycwyr masnachol. Fodd bynnag, roedd hefyd gydnabyddiaeth y byddai angen ategu dadreoleiddio gan gefnogaeth barhaus, er enghraifft i wella sgiliau a gallu cyfarwyddwyr, staff a gwirfoddolwyr sy'n ymwneud â rhedeg undebau credyd.

Daethom i'r casgliad fod mynd i'r afael ag allgáuedd ariannol yn her fawr ac na fedrid disgwyl i undebau credyd gyflawni hyn drwy weithio ar wahân. Pwysleisiodd y Strategaeth Cynhwysiant Ariannol a hefyd Gynllun Gweithredu yr Undebau Credyd bwysigrwydd cydweithredu rhwng awdurdodau lleol, cymdeithasau tai, partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf a rhanddeiliaid lleol eraill a chefnogi undebau credyd i gyflawni'r nod.

## **2.2 Crynodeb Adolygu Polisi Adroddiad yr Ail Flwyddyn**

Canfu ein hadolygiad ail flwyddyn<sup>8</sup> fod cyd-destun polisi Cymru wedi parhau'n gefnogol i undebau credyd, er yn uchelgeisiol. Nododd yr adroddiad blynyddol ar y Rhaglen Lywodraethu<sup>9</sup> bod Llywodraeth Cymru yn dal i ddarparu cefnogaeth ariannol i'r sector ond bod y ffocws deul ar fynd i'r afael â thlodi a datblygu cynaliadwyedd hirdymor undebau credyd a amlinellwyd yn y ddogfen yn crisialu'r nodau polisi, y gellid dadlau eu bod yn gwrthdaro, a osodwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y sector.

Ar lefel y Deyrnas Unedig, canfu ein hadolygiad ail flwyddyn y bu datblygiadau polisi a deddfwriaethol sylweddol ers lansio'r Prosiect Undebau Credyd am y tro cyntaf. Roedd y rhain yn cynnwys:

- cyflwyno'r Gorchymyn Diwygio Deddfwriaethol a ddaeth i rym ym mis Tachwedd 2011 oedd yn galluogi undebau credyd i ymestyn eu hardal cwlwm cyffredin a chynnig gwasanaethau i sylfaen ehangach o

<sup>8</sup> Llywodraeth Cymru (2012) 'Gwerthusiad o Brosiect Mynediad i Wasanaethau Ariannol drwy Undebau Credyd - Adroddiad y Flwyddyn Gyntaf' ar gael yn: <http://wales.gov.uk/statistics-and-research/evaluation-access-financial-products-through-credit-unions/?status=open&lang=cy>

<sup>9</sup> Llywodraeth Cymru (Mai 2012) *Adroddiad Blynyddol y Rhaglen Lywodraethu*

gleientiaid. Fodd bynnag daethom i'r casgliad, er bod llawer o undebau credyd Cymru wedi ymestyn eu hardal cwlwm cyffredin, y bu'r defnydd o'r grym i gynnig gwasanaethau i fusnesau a mentrau cymdeithasol yn weddol gyfyngedig;

- cyflwyno rhaglen Diwygio Lles Llywodraeth y Deyrnas Unedig oedd yn cynnig symleiddio'r system fudd-daliadau a chredydau treth ac yn cynnwys cyflwyno Credyd Cynhwysol fel un taliad budd-dal misol symlach. Roedd y datblygiad hwn yn cynnig cyfleoedd posibl i undebau credyd megis rheoli cyfrifon pot jam ar gyfer unigolion oedd yn derbyn budd-daliadau a sicrhau y gwnaed taliadau rhent i landlordiaid megis cymdeithasau tai. Dangosodd ein gwaith maes yn ystod 2012 yn gyffredinol mai dim ond dechrau ymchwilio'r cyfleoedd hyn yr oedd undebau credyd ar y pryd a'i bod yn dal yn ddyddiau cynnar iawn i ddynodi pa effaith a gâi'r datblygiadau ar y sector;
- diddymu elfen ddewisol y Gronfa Gymdeithasol gan yr Adran Gwaith a Phensiynau a olygodd fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru benderfynu beth i'w roi ar waith yng Nghymru gyda'r cyllid a drosglwyddwyd. Crëwyd y Gronfa Cymorth Dewisol a chaiff ei rheoli gan gontractwr annibynnol<sup>10</sup> ar ran Llywodraeth Cymru. Roedd rôl undebau credyd wrth gefnogi gwaith y contractwr yn aneglur i ddechrau ond wrth i'r cynllun ymsefydlu, daeth yn gliriach sut y gall undebau credyd gyfrannu fel partner rhwydwaith, pe dymument wneud hynny;
- y posibilrwydd y byddai'r Adran Gwaith a Phensiynau yn darparu cyllid pellach i'r sector undebau credyd i ehangu, moderneiddio a datblygu gweithrediadau cynaliadwy yn dilyn dileu ei Chronfa Twf, fel yr amlinellwyd yn yr astudiaeth dichonolrwydd a gyhoeddwyd ym Mai 2012.

## **2.3 Polisi cyfredol Llywodraeth Cymru**

Ers cyhoeddi ein hadroddiad ail flwyddyn newidwyd Gweinidog portffolio Cymunedau a Threchu Tlodi Llywodraeth Cymru ddwywaith. Bu Huw Lewis

---

<sup>10</sup> Northgate Public Services, mewn partneriaeth gyda Family Fund Trading a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam

AC, a olynodd Carl Sargeant AC<sup>11</sup>, yn Weinidog yn gyfrifol am y maes am gyfnod byr rhwng Mawrth a Mehefin 2013 a chafodd wedyn ei olynu gan Jeff Cuthbert AC (ym Mehefin 2013).

Mae trechu tlodi yn parhau'n ymrwymiad allweddol yn Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru ac yn ei hail adroddiad blynyddol mae Llywodraeth Cymru yn nodi bod 12,629 o oedolion wedi eu hallgáu yn ariannol wedi derbyn gwasanaethau ariannol drwy undebau credyd<sup>12</sup> erbyn mis Rhagfyr 2012 a bod 59,795 o bobl yn aelodau undebau credyd ddiwedd 2012 - wedi cynyddu o 47,634 yn 2010 i 54,253 erbyn 2011<sup>13</sup>.

Un o'r datblygiadau allweddol dros y flwyddyn oedd y cyhoeddiad gan y Gweinidog ar y pryd<sup>14</sup> ar 13 Mehefin 2013 am gyllid ychwanegol i gefnogi datblygiad y sector yng Nghymru. Eglurodd y cyhoeddiad, oedd yn cyd-daro gyda digwyddiad yn dod ynghyd â chynrychiolwyr o undebau credyd ledled Cymru, bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu ariannu gwaith undebau credyd Cymru er mwyn 'annog mwy o bobl i ddefnyddio undebau credyd' a 'codi proffil undebau credyd a chynnig ffynhonnell sy'n darparu gwasanaethau ariannol fforddiadwy sy'n agored i bawb'<sup>15</sup>. O'r £2 miliwn o gyllid a ddarparwyd, y bwriad oedd y byddai £612,000 yn cefnogi gwaith undebau credyd Cymru am gyfnod o chwe mis rhwng Hydref 2013 a Mawrth 2014, yn ymarferol yn ymestyn y trefniadau ariannu presennol oedd i ddod i ben ym Medi 2013. Bwriedid y byddai gweddill y cyllid ar gael i'r sector ar sail undebau credyd yn cyflwyno achos busnes derbyniol ar y cyd i Lywodraeth Cymru yn dangos y byddent yn 'ymestyn eu gwasanaethau yn sylweddol'. Bwriedid i'r cyllid hwn gael ei ddefnyddio erbyn diwedd Mawrth 2014.

Ar 15 Ionawr 2014 cyhoeddodd Jeff Cuthbert, Gweinidog Cymunedau a Trechu Tlodi, fod y cyllid ychwanegol yma'n cael ei ddyfarnu i gyfanswm o 19 prosiect, gyda saith ohonynt yn gynlluniau cenedlaethol<sup>16</sup>. Roedd y

---

<sup>11</sup> Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau

<sup>12</sup> <http://wales.gov.uk/docs/strategies/130604progress9en.pdf>

<sup>13</sup> <http://wales.gov.uk/about/programmeforgov/data?code=TR131&lang=cy>

<sup>14</sup> Huw Lewis AC

<sup>15</sup> <http://wales.gov.uk/newsroom/communities/2013/130613-credit-union/?lang=cy>

<sup>16</sup> <http://wales.gov.uk/newsroom/communities/2014/funding-boost-to-increase-credit-union-membership/?lang=cy>

prosiectau'n cynnwys ymgyrch cyhoeddusrwydd a fyddai'n cael ei rheoli gan Undeb Credyd Gogledd Cymru gyda'r amcan o gynyddu aelodaeth undebau credyd i 2,000 yn uwch na'r lefelau twf disgwyledig, prosiect yn gysylltiedig â thechnoleg gwybodaeth dan arweiniad Undeb Credyd Caerdydd i ddatblygu eu gwefan a gwella mynediad ar-lein a phrosiect dan arweiniad Undeb Credyd Merthyr Tudful i hyfforddi dau o bobl i ddarparu cyrsiau addysg ariannol i 500 o blant ysgol uwchradd a recriwtio 300 o aelodau ifanc i undebau credyd.

Adeg ein gwaith maes, roedd cyllid Lywodraeth Cymru ar gyfer y sector undebau credyd yn ei le hyd ddiwedd Mawrth 2014. Fodd bynnag, ar 18 Mawrth 2014 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai £1.7 miliwn arall ar gael i'r sector am y tair blynedd ariannol nesaf hyd Fawrth 2017<sup>17</sup>.

Mae'n werth nodi na chafwyd unrhyw ddatganiad polisi penodol a manwl gan Lywodraeth Cymru ar gyfer undebau credyd er bod y rhaglen waith a amlinellwyd yng Nghynllun Gweithredu yr Undebau Llafur wedi dod i ben yn ystod 2013. Fodd bynnag mae Llywodraeth Cymru wedi cyfleu ei hamcanion polisi ar gyfer y sector yn gyson yn ystod 2013 - i ddechrau yn ystod araith y Gweinidog ar y pryd i'r Uwch-gynhadledd Undebau Credyd ym Mehefin 2013, yna mewn llythyr gan Gyfarwyddwyr yr Is-Adran Cymunedau yn Nhachwedd 2013 ac yn fwy diweddar yn ystod cyhoeddiad y Gweinidog ar gyllid ar gyfer y dyfodol ym Mawrth 2014. Mae'r neges allweddol yn y cyfathrebiadau hyn yn dangos uchelgais Llywodraeth Cymru i'r undebau credyd fod yn 'rhan allweddol o'r rhwydwaith cymorth lleol a ddylai fod ar gael ym mhob cymuned'<sup>18</sup>. Roedd araith y Gweinidog ar y pryd hefyd yn amlygu pwysigrwydd datblygu rhwydwaith cynaliadwy o undebau credyd sydd hefyd yn ymestyn gwasanaethau i'r rhai sydd wedi eu hallgáu'n ariannol: 'Rwyf eisiau rhoi blaenoriaeth i gynaliadwyedd Undebau Credyd fel bod gennym sector sy'n cefnogi ein cymunedau ar draws Cymru' a fyddai 'yn ddigon cryf i ddarparu gwasanaeth i bawb - yn cynnwys y rhai ar yr incwm isaf'<sup>19</sup>.

<sup>17</sup> Cafwyd o <http://wales.gov.uk/newsroom/communities/2014/140318-credit-union-funding-package/?lang=cy> cyrchwyd 24 Mawrth 2014.

<sup>18</sup> Cafwyd o araith y Gweinidog yn Uwch-gynhadledd Undebau Credyd 13 Mehefin 2013 Tudalen 1

<sup>19</sup> Tudalennau 3 a 4

Yn y llythyr i undebau credyd (Tachwedd 2013) cyn ymrwymo cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i'r sector, galwodd Cyfarwyddwr Is-Adran Gymunedau Llywodraeth Cymru ar undebau credyd i gydweithio a chyflawni gweledigaeth Lywodraeth Cymru ar gyfer y sector.

'Ein gweledigaeth yw mudiad Undebau Credyd ariannol wydn yng Nghymru sy'n gweithio gyda'i gilydd mewn ffordd gydweithredol ac effeithlon ac mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru i gynnig ystod o wasanaethau sydd hefyd yn cynorthwyo'r rhai sy'n ei chael yn anodd gweithio gyda sefydliadau ariannol eraill. Rydym yn barod i fuddsoddi adnoddau i wireddu'r weledigaeth yma ond dim ond os oes dymuniad clir ar ran yr Undebau Credyd i gymryd rhan wrth gyflawni hyn y gallwn wneud hynny.'

Dywedodd y llythyr hefyd fod Llywodraeth Cymru angen ymrwymiad gan undebau credyd i:

'weithio gyda'i gilydd mewn ffordd gydweithredol ac effeithlon i gefnogi Llywodraeth Cymru i drin ei agendâu Trechu Tlodi a Chynhwysiant Ariannol. Mae angen yr ymrwymiad yma i roi cefnogaeth effeithlon i aelodau sydd wedi eu hallgáu'n ariannol o gymdeithas cyn y gall Llywodraeth Cymru wneud unrhyw fuddsoddiad sylweddol pellach o adnoddau'.

Yn olaf, mae'r cyhoeddiad polisi mwyaf diweddar (Mawrth 2014) yn cadarnhau amcan polisi Llywodraeth Cymru o ddatblygu undebau credyd cynaliadwy:

'... nod ein cefnogaeth ddiweddaraf yw creu rhwydwaith undebau credyd ariannol gynaliadwy gyda sylfaen aelodaeth gref sy'n cefnogi'r gwaith a wnânt ac yn parhau i helpu'r cymunedau hynny sydd fwyaf ei angen.'

## **2.4 Polisi a Deddfwriaeth Gyfredol y Deyrnas Unedig**

Ers ein hadroddiad blaenorol, oedd yn cynnwys datblygiadau hyd ddiwedd 2012, gwelwyd datblygiadau pellach yn nhermau polisi'r Deyrnas Unedig - yn

arbennig yn nhermau Cronfa Ehangu a Diwygio Lles yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP).

#### *2.4.1 Prosiect Ehangu Undebau Credyd DWP*

Ym Mehefin 2012 cyhoeddodd yr Adran Gwaith a Phensiynau ei bod yn symud ymlaen â chanfyddiadau Astudiaeth Dichonolrwydd Undebau Credyd ac yn buddsoddi £38 miliwn pellach yn undebau credyd y Deyrnas Unedig dros gyfnod tair blynedd drwy ei Brosiect Ehangu Undebau Credyd (yn ychwanegol i'r £13 miliwn yr oedd yn eu buddsoddi beth bynnag yn 2011/12) yn dilyn dileu'r Gronfa Twf cynhwysiant ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2011. Yn dilyn gwahoddiad gan yr Adran Gwaith a Phensiynau i gonsortia o undebau credyd gyflwyno tendr ar gyfer cyflenwi'r prosiect, dyfarnodd yr Adran gontract i ABCUL (Cymdeithas Undebau Credyd Prydeinig Cyfyngedig) i gyflenwi'r prosiect a phenodwyd Cornerstone Mutual Services, cwmni gwasanaeth ABCUL ar gyfer undebau credyd, i reoli'r prosiect. Daeth chwech o undebau credyd yng Nghymru yn rhan o'r Prosiect Ehangu, sef Undebau Credyd Caerdydd a'r Fro, Castell-nedd Port Talbot, Gogledd Cymru Lifesavers Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful, a Smart Money. Mae Moneyline (Cymru) hefyd yn cymryd rhan. Dechreuodd y prosiect ym Mai 2013 a bydd yn rhedeg am gyfnod o ddwy flynedd. Mae cyllid cymhelliant ar gael i undebau credyd ar y sail y byddant gyda'i gilydd yn cytuno ar gerrig milltir a gytunwyd ar gyfer cydweithredu, moderneiddio ac ehangu. Mae undebau credyd sy'n ymwneud â'r prosiect yn gweithio tuag at dargedau cysylltiedig â thwf megis aelodau newydd ychwanegol, twf mewn cynilion a benthyciadau a chyflwyno cynnyrch a gwasanaethau newydd.

#### *2.4.2 Diwygio Lles*

Bu Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn symud ymlaen gyda'i hagenda diwygio lles dros y flwyddyn ddiwethaf ac un o'r datblygiadau allweddol fel rhan o'r diwygio hyn fu cyflwyno Credyd Cynhwysol, sy'n dod â chwe budd-dal a chredyd treth ynghyd mewn un. Cynhaliodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig gynllun peilot ar gyfer grwpiau hawl wyr sengl yn ardal Manceinion o fis Ebrill 2013, gan ymestyn i saith ardal ar draws y wlad erbyn diwedd 2013. Bu'r ymestyn yn arafach na'r disgwyl a gan na ddigwyddodd hynny yng Nghymru

hyd yma, nid yw cyflwyniad y Credyd Cynhwysol wedi effeithio eto ar waith undebau credyd Cymru.

Mae un datblygiad allweddol yn gysylltiedig â chyflwyno Credyd Cynhwysol sy'n debygol o effeithio ar waith undebau credyd yn y dyfodol yn gysylltiedig â chyflwyno taliadau uniongyrchol ar gyfer budd-daliadau tai i hawl wyr. Mae hyn wedi codi pryderon ymysg darparwyr tai y byddai tenantiaid yn ei chael yn anodd talu rhent. Mewn ffordd mae'r newidiadau hyn yn rhoi cyfle i undebau credyd gefnogi tenantiaid i reoli eu cyllid.

Yn olaf agwedd allweddol arall o'r agenda diwygio lles a gyflwynwyd yn Ebrill 2013 oedd dileu'r Cymhorthdal Ystafell Sbâr (a alwyd y 'dreth ystafelloedd gwely') a olygai ostwng y budd-dal tai a roddwyd i bobl mewn achosion lle'r oedd nifer y bobl yn byw ar aelwyd yn llai na maint y llety oedd ar gael. Yng nghyd-destun y sector undebau credyd, gall y datblygiad hwn arwain at alw ychwanegol ar wasanaethau undebau credyd gan aelodau y mae'r toriadau wedi effeithio arnynt.

#### *2.4.3 Datblygiadau eraill*

Ar lefel fwy cyffredinol byddai'n ymddangos fod cefnogaeth a chydabyddiaeth o waith undebau credyd wedi cael llawer o sylw yn y cyfryngau dros y flwyddyn ddiwethaf - nid yn lleiaf oherwydd y diddordeb cynyddol yng ngwaith darparwyr cyllid amgen ar draws y Deyrnas Unedig, ond hefyd oherwydd bod arweinwyr cymunedol allweddol megis Justin Welby, Archesgob Caergaint, wedi galw ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i sicrhau fod amgen hyfyw i fenthycu diwrnod cyflog ar gael drwy'r mudiad undebau credyd. Mewn araith yn Nhŷ'r Arglwyddi ym mis Mehefin 2013<sup>20</sup> dywedodd Archesgob Caergaint.

*'A mixed economy of geographically based credit unions and professional ones, and other forms of finance such as CDFIs .... will give the best chance of developing good, alternative sources of finance'.*

---

<sup>20</sup> <http://www.archbishopofcanterbury.org/articles.php/5083/payday-loans-archbishops-speech-in-the-house-of-lords>

Aeth ymlaen i amlinellu ei weledigaeth ar gyfer mudiad credyd amgen lle dywedodd na fyddai angen darpariaeth diwrnod cyflog ac i gyflawni hyn, dywedodd:

*‘For the credit union movement to be successful and sustainable, and other forms of local finance to develop, we need a bottom-up movement of local organisations working to change the sources of supply. It will take many years—10 to 15 years—but it must start now. The new institutions must develop flexibility in order to demonstrate their ability to meet the new needs’.*

Wrth gwrs, medrid dadlau fod y disgwyliadau cynyddol uchel a roddir ar y sector ar lefel y Deyrnas Unedig yn awr wedi creu sefyllfa lle gall undebau credyd o bosibl eu gweld, a hynny yn afrealistig, fel moddion ar gyfer pob clwy yn gysylltiedig â thlodi ac allgáu cymdeithasol.

### **3. DARPARIAETH CYLLID AMGEN**

#### **3.1 Cyflwyniad**

Mae'r adran yma'n ymchwilio'r datblygiadau diweddar a ddigwyddodd mewn darpariaeth cyllid amgen a goblygiadau'r datblygiadau hyn ar gyfer y sector undebau credyd.

#### **3.2 Datblygiadau mewn darpariaeth cyllid amgen**

Mae darpariaeth cyllid amgen yn gyllid a ddaw drwy sianeli heblaw banciau yn cynnwys gwasanaethau a ddarperir gan fanciau cydweithredol, cyrff cymunedol cydfuddiannol ac undebau credyd. Mae benthyciadau diwrnod cyflog, siopau gwystlo, cyfnewid sieciau am arian tu allan i fanciau a throsglwyddiadau arian hefyd yn enghreifftiau. I raddau helaeth achoswyd y cynnydd mewn darpariaeth cyllid amgen ers yr argyfyngau ariannol ar draws y Deyrnas Unedig gan y cynnydd mewn rheoleiddio ar y system fancio a arweiniodd at arferion tynnach mewn benthycia banciau. Mae tueddiadau eraill ymhlith defnyddwyr hefyd wedi porthi twf darpariaeth cyllid amgen yn cynnwys defnydd cynyddol o drafodion ar-lein mewn cynnyrch ariannol sydd wedi galluogi darpariaeth cyllid amgen i gyrraedd sylfaen ehangach o gwsmeriaid posibl yn ogystal â'r dymuniad ar ran y defnyddwyr am fwy o ddewis a phenderfyniadau cyflymach. Fel canlyniad cynyddodd y farchnad darpariaeth cyllid amgen o £900 miliwn yn 2008/09 i fwy na £2 biliwn yn 2011/12<sup>21</sup>.

Mae benthyciadau diwrnod cyflog yn ffynhonnell gynyddol boblogaidd o gyllid tymor byr. Ar gael ar y stryd fawr ac ar-lein, maent yn cynnig cyfle i unigolion fenthycia swm o ychydig gannoedd o bunnoedd am gyfnod byr gan ddarparu siec wedi'i hôl-ddyddio i'r benthycydd i dalu am yr ad-dalu maes o law, ynghyd â llog. Nid oes ffigurau swyddogol ond mae'r Swyddfa Masnachu Teg yn amcangyfrif y caiff tua £1.8bn eu benthycia'n flynyddol yn y dull yma ac mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn amcangyfrif fod tua 2 filiwn o bobl ar draws y

---

<sup>21</sup>Swyddfa Masnachu Teg, Payday Lending: Compliance Review, Final Report, March 2013 (cyrchwyd 13 Medi 2013) ([http://www.ofc.gov.uk/shared\\_ofc/Credit/ofc1481.pdf](http://www.ofc.gov.uk/shared_ofc/Credit/ofc1481.pdf))

Deyrnas Unedig yn defnyddio benthyciadau diwrnod cyflog<sup>22</sup>. Darganfu'r Swyddfa Masnachu Teg fod benthycwyr nodweddiadol diwrnod cyflog yn fwy tebygol o fod yn ddynion ifanc, yn ennill mwy na £1000 y mis ac yn byw mewn cartref ar rent, gyda llawer yn ddibriod a heb blant.

Ym mis Tachwedd 2012, yn ôl y Swyddfa Masnachu Teg roedd 240 o gwmnïau benthyciadau diwrnod cyflog yn gweithredu yn y Deyrnas Unedig gyda'r tri mwyaf yn cyfrif am 55% o'r farchnad yn ôl eu trosiant. Mae dwy fil o siopau benthyciadau diwrnod cyflog ar y stryd fawr yn y Deyrnas Unedig, rhai ohonynt yn siopau cadwyn cenedlaethol e.e. The Money Shop ac mae eraill hefyd yn gweithredu fel siopau gwystlo gan gynnig trosglwyddo arian ac ariannu sieciau.

Bu cynnydd syfrdanol yn y defnydd o fenthyciadau diwrnod cyflog yng Nghymru yn unol â thueddiadau ar draws y Deyrnas Unedig ac mae Cyngor Ar Bopeth Cymru'n awgrymu y bu cynnydd chwe gwaith trosodd yn nifer yr unigolion gyda dyledion benthyciadau diwrnod cyflog a ofynnodd am eu cefnogaeth (o 93 i 609) rhwng chwarter cyntaf 2011-12 a chwarter cyntaf 2012-13<sup>23</sup>. Roedd gan lawer o'r rhai a ofynnodd am gymorth nifer o fenthyciadau er bod ganddynt hanes credyd gwael.

Bu llawer o drafodaeth am rôl a lle benthyciadau diwrnod cyflog yn y tair blynedd ddiwethaf a chynhaliodd y Swyddfa Masnachu Teg adolygiad ffurfiol yn ddiweddar o gydymffurfiaeth gan fenthycwyr diwrnod cyflog gyda'r ddeddfwriaeth a chanllawiau perthnasol. Bu diffyg asesiadau fforddioldeb gan y darparwyr yn gonsyrn neilltuol gan na chaiff cynifer ag un mewn tri benthyciad a gymerir y ffordd yma eu had-dalu ar amser. Hefyd yn berthnasol yw penderfyniad Llywodraeth y Deyrnas Unedig i osod uchafswm ar gyfradd llog ar gyfer cwmnïau benthycia diwrnod cyflog. Ni chyhoeddwyd hyd yma beth fydd yr uchafswm a osodir gan y rheoleiddiwr newydd, yr Awdurdod

---

<sup>22</sup>BBC News, Q&A: Payday loans, 31 May 2013 (cyrchwyd 13 Medi 2013) (<http://www.bbc.co.uk/news/business-16067283>)

<sup>23</sup> <http://www.walesonline.co.uk/news/wales-news/number-people-wales-large-debts-4031865#.UayM3VE65tQ.twitter> (cyrchwyd 5 Chwefror 2014)

Ymddygiad Ariannol (FCA) pan fydd yn disodli'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol (FSA) yn Ebrill 2014.

Gwasanaethau eraill sy'n dod o fewn gwasanaethau ariannol amgen yw siopau gwystlo a chredyd cartref (neu 'benthycia carreg drws' fel y cyfeirir ato fel arfer). Mae gwystlwyr yn gweithredu mewn dwy ffordd: gall unigolyn adael eitem werthfawr fel gwarant am fenthyciad neu werthu'r eitem i'r gwystlwr er mwyn derbyn arian yn gyflym heb fod angen gwiriad credyd. Mae benthycia carreg drws yn aml yn gysylltiedig gyda benthycia symiau bach o arian (fel arfer rhwng £50 a £500) gyda chyfraddau llog a all fod mor uchel â 1,500% APR<sup>24</sup>. Os yw unigolyn yn gwneud cais am fenthyciad, caiff yr arian ei ddosbarthu i gartref y benthycydd gan 'asiant' sydd fel arfer yn cymryd taliad bob wythnos. Cwmni Provident Financial sydd piau bron 66% o farchnad credyd cartref y Deyrnas Unedig gyda thua 2.7 miliwn o gwsmeriaid ac ystyrir bod ganddo fonopoli bron ar fenthycia drws-i-ddrws gan fod ei asiantau wedi ymsefydlu mewn cymunedau amddifadus.

Ymddengys fod rhai benthycwyr diwrnod cyflog yn addasu i bryder eang eu bod yn elwa o drueni'r tlawd.<sup>25</sup> Yn ôl eu gwefan mae Reddies Direct yn fenthycwyr cyfrifol gyda gwahanol rwystrau a gwrthbwysau sy'n rhoi syniad da iddynt os gall pobl fforddio'n rhwydd i ad-dalu eu benthyciad diwrnod cyflog.<sup>26</sup> Mae Zebit yn dweud ar eu gwefan fod benthycia o'r fath yn ddull drud o gredyd a all fod yn addas ar gyfer anghenion ariannol tymor byr ond nad yw'n addas ar gyfer benthycia hirdymor neu i rai sydd mewn anawsterau ariannol<sup>27</sup>.

### 3.3 Gwersi i Undebau Credyd Cymru

Mae'n gyffredin i wasanaethau ariannol amgen ddefnyddio llwyfannau ar-lein ac mae hyn yn golygu eu bod ar gael yn rhwydd i unrhyw un sydd â mynediad

---

<sup>24</sup> Y Gwasanaeth Cyngori Ariannol, Home credit or doorstep lending (cyrchwyd 13 Medi 2013)

(<https://www.moneyadviceservice.org.uk/en/articles/home-credit-or-doorstep-lending>)

<sup>25</sup> Mail Online "Wonga profits hit £1.2million a week: Number of payday loans soars 70% in a year" (cyrchwyd 13 Medi) (<http://www.dailymail.co.uk/news/article-2410676/Wonga-profits-hit-1-2million-week-number-payday-loans-soars-70-year.html>)

<sup>26</sup> Reddies Direct "Reddies Direct are Responsible Lenders" (cyrchwyd 13 Medi 2013)

(<https://www.reddiesdirect.co.uk/responsible-lending>)

<sup>27</sup> Zebit (cyrchwyd 13 Medi 2013) (<http://www.zebit.com/>)

i'r rhyngwrwyd. Er bod y sector bancio traddodiadol a gwasanaethau ariannol amgen yn galluogi benthyccwyr i wneud ceisiadau am fenthyciadau ar-lein, ychydig o undebau credyd yng Nghymru sy'n cynnig y gwasanaeth yma ar hyn o bryd.

Mae twf gwasanaethau ariannol amgen hefyd yn rhannol yn ganlyniad y dulliau cyflym a rhwydd a gynigiant i ddefnyddwyr gael mynediad i arian, er y canfu'r Swyddfa Masnachu Teg mai ychydig o fenthycwyr sy'n cynnal asesiadau boddhaol ar fforddiadwyedd cyn benthyca arian. Fodd bynnag, ni fedrir disgwyl i undebau credyd gystadlu gyda'r gwasanaeth cyflym a gynigir gan ddarparwyr o'r fath gan eu bod angen i'r sawl sy'n gofyn am fenthyciad roi gwybodaeth er mwyn asesu os ydynt yn addas a pha fath o ad-daliad y gallant ei fforddio.

Mae maint y marchnata a'r dulliau hysbysebu a ddefnyddir gan fenthycwyr diwrnod cyflog wedi cyfrannu at dwf y sector mewn blynyddoedd diweddar ac er y gwerthfawrogwn na allai undebau credyd (un ai ar sail unigol neu gyda'i gilydd) byth gyfateb â lefel y buddsoddiad mewn marchnata crynswth gan ddarparwyr o'r fath, mae eu dull gweithredu yn cynnig rhai gwersi i'w hystyried. Yn neilltuol, mae llawer o ddarparwyr benthyciadau diwrnod cyflog wedi cynnal ymgyrchoedd hysbysebu cenedlaethol parhaus ac yn defnyddio delweddau, cymeriadau a cherddoriaeth cofiadwy. Hefyd mae'n ddiddorol nodi fod rhai benthyccwyr diwrnod cyflog (yn ogystal â banciau prif ffrwd megis NatWest, Barclays, HSBC, Santander a Banc Lloyds) yn defnyddio offeryn llithren y gall darpar gwsmeriaid ei addasu i ddangos cost ad-dalu benthyciad. Er bod darparwyr diwrnod cyflog yn tueddu i danlinellu pa mor gyflym y gellir trosglwyddo arian, mae banciau prif ffrwd yn tueddu i bwysleisio bod asesiad credyd ac ystyriaethau cymhwyster ar fenthyciadau.

Ar y pwynt yma mae'n werth tanlinellu, gan na all undebau credyd godi llog uwch na 26.8%, fod eu 'cynnig' sylfaenol yn gystadleuol iawn o gymharu gyda benthyccwyr gwasanaethau ariannol amgen llog uchel. I fanteisio i'r eithaf ar hyn, gallai undebau credyd yng Nghymru ystyried defnyddio dulliau benthyccwyr diwrnod cyflog wrth hyrwyddo/hysbysebu eu cynnyrch a hefyd

ystyried ffyrdd i gyfateb y cyfleuster sydd fel arfer yn gysylltiedig gyda darparwyr gwasanaethau ariannol amgen llog uchel. Er, gyda'u presenoldeb lleol o fewn cymunedau, mae undebau credyd mewn sefyllfa dda i herio gwasanaethau ariannol amgen cyfradd uchel yn y cyswllt yma,<sup>28</sup> dengys adolygiad o'u trefniadau gweithredu nodweddiadol y gallai'r rhan fwyaf fanteisio o fod yn fwy hygyrch yn nhermau eu horiau agor (dim ond am ychydig oriau'r dydd y mae'r rhan fwyaf o undebau credyd ar agor ac ychydig sy'n aros ar agor hyd ddiwedd y diwrnod gwaith) a pharhau i ehangu eu gwasanaethau allgymorth.

---

<sup>28</sup> Carl Packman "Payday lenders have lessons to learn from credit unions", New Statesman, 14 Mai 2012 (cyrchwyd 13 Medi 2013)  
(<http://www.newstatesman.com/blogs/interest-rates/2012/05/payday-lenders-have-lessons-learn-credit-unions>)

## **4. CEFNDIR Y PROSIECT**

### **4.1 Cyflwyniad**

Yn yr adran yma trafodwn gynllun peilot y cyfnod cyntaf (Adran 4.2) cyn symud ymlaen i drafod yr ail gyfnod (Adran 4.3).

### **4.2 Y Cyfnod Cyntaf**

Cyflwynwyd y Prosiect Undebau Credyd am y tro cyntaf yn Ebrill 2009 ac yn ystod y cynllun peilot dechreuol darparwyd £1.9 miliwn drwy gyllid Llywodraeth Cymru a rhaglen ranbarthol Cydgyfeirio'r Undeb Ewropeaidd (cyfalaf a refeniw) i gefnogi ehangiad a chynaliadwyedd 22 undeb credyd. Bu Canolfan Cydweithredol Cymru yn gweinyddu cronfeydd undebau credyd ac yn rhoi cefnogaeth i'r sector ar ran Llywodraeth Cymru. Canfu ein Hadroddiad Blwyddyn Gyntaf <sup>29</sup> fod prosiect cyllid yr Undeb Ewropeaidd un ai'n cyflawni neu'n rhagori ar bedwar o dargedau WEFO ond yn methu cyrraedd y pumed targed olaf o gefnogi 2,847 o unigolion i gyrchu gwasanaethau ariannol. Roedd y prif heriau a ddynodwyd yn ystod ein gwerthusiad Blwyddyn Gyntaf yn ymwneud â'r datgysylltiad rhwng targedau Cynllun Gweithredu yr Undebau Credyd, Cynllun Busnes WEFO<sup>30</sup> a thargedau contract undebau credyd, yn ogystal â diffyg cysondeb yn nhermau diffinio targedau cyllid WEFO.

### **4.3 Yr Ail Gyfnod**

Dechreuodd ail gyfnod y prosiect a ariannwyd gan yr Undeb Ewropeaidd ym mis Hydref 2010 a daeth i ben yn Rhagfyr 2013, er i gyllid prosiect yr UE ar gyfer undebau credyd ddod i ben ym Medi 2013. Cyfanswm y cyllid oedd ar gael ar gyfer yr ail gyfnod oedd ychydig dan £3.5 miliwn gyda £1.62 miliwn o hynny ar gael gan Lywodraeth Cymru a £1.88 miliwn drwy gyllid rhaglen

---

<sup>29</sup> Llywodraeth Cymru (2012) 'Gwerthusiad o Brosiect Mynediad i Wasanaethau Ariannol drwy Undebau Credyd - Adroddiad y Flwyddyn Gyntaf'

<sup>30</sup> Ni chafodd y targedau allweddol a nodwyd yng Nghynllun Gweithredu yr Undebau Credyd (megis cynyddu ymdreiddiad marchnad undebau credyd, cynyddu sylfaen asedau undebau credyd, cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd a chynyddu nifer gwirfoddolwyr undebau credyd) eu dangos yng Nghynllun Busnes WEFO na thargedau contract undebau credyd unigol.

Cydgysfeirio Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF). Roedd cyllid gan Lywodraeth Cymru yn parhau i fod ar gael i undebau credyd o fis Hydref 2013 ymlaen ac er y disgwyld i hyn ddod i ben ym Mawrth 2014, mae cyhoeddiad diweddar gan Lywodraeth Cymru (Mawrth 2014) yn golygu y bydd cyllid ar gael i'r sector hyd 2017.

Nod ail gyfnod y prosiect, fel y'i nodir yn y cynllun busnes ar gyfer cyllid ERDF, oedd:

'cefnogi datblygu mudiad undebau credyd cryf, cadarn ac effeithlon yng Nghymru sy'n darparu gwasanaeth ariannol ansawdd uchel hygyrch, fforddiadwy a chyfartal a all gyflawni anghenion holl ddinasyddion Cymru, ac yn arbennig y rhai yn yr angen mwyaf'<sup>31</sup>.

Er y paratowyd y cynllun busnes cyn cyhoeddi'r Cynllun Gweithredu Undebau Credyd, roedd y nod serch hynny yn gyson gyda nodau terfynol y Cynllun Gweithredu. Fodd bynnag, roedd yr amcanion rywfaint yn llai penodol na rhai'r Cynllun Gweithredu<sup>32</sup>:

- 'Cryfhau safonau llywodraethiant a chydymffurfiaeth undebau credyd yng Nghymru;
- Codi cynaliadwyedd hirdymor y mudiad undebau credyd;
- Cynyddu proffil y mudiad undebau credyd;
- Annog twf aelodaeth - cyflawni twf sylweddol mewn aelodaeth undebau credyd yng Nghymru, yn gysylltiedig â chynnydd cyson mewn cynilion, benthygiadau a wnaed (asedau cyfredol) ac a ad-dalwyd ac adeiladu asedau cyfalaf digonol; a
- Cefnogi undebau credyd i gyflwyno cynlluniau cynhwysiant ariannol'<sup>33</sup>.

Amlinellir y targedau a gymeradwywyd gan WEFO ar gyfer cyfnod tair blynedd ail gyfnod y prosiect yn Ffigur 1:

---

<sup>31</sup> Cynllun Busnes Mynediad i Wasanaethau Ariannol drwy Undebau Credyd (Cyfnod Dau) a baratowyd gan Lywodraeth Cymru ac a gyflwynwyd i WEFO (Rhif Adnabod Achos 806617) Tudalen 3

<sup>32</sup> Gweler Adran 2.2 Adroddiad y flwyddyn Gyntaf ar gyfer amcanion Cynllun Gweithredu yr Undebau Credyd

<sup>33</sup> Ibid., t.3

*Ffigur 1: Targedau WEFO Ail Gyfnod y Prosiect Undebau Credyd*

|                                                                                | Targed |
|--------------------------------------------------------------------------------|--------|
| Mentrau cymdeithasol a gafodd gymorth ariannol                                 | 17     |
| Mentrau cymdeithasol a gynorthwywyd                                            | 17     |
| Nifer y swyddi a grëwyd                                                        | 7      |
| Mentrau cymdeithasol a grëwyd                                                  | 1      |
| Nifer y bobl yn cyrchu gwasanaethau (gwasanaethau ariannol)                    | 7,500  |
| Mentrau'n defnyddio neu'n gwella Systemau Rheolaeth Amgylcheddol               | 17     |
| Mentrau'n defnyddio neu'n gwella strategaethau a systemau monitro cydraddoldeb | 17     |
| Nifer net mentrau cymdeithasol a grëwyd                                        | 1      |
| Nifer net swyddi a grëwyd                                                      | 1      |

Roedd y targed ar gyfer creu un fenter gymdeithasol newydd (ac un fenter gymdeithasol net a grëwyd) yn ymwneud ag uno nifer o undebau credyd yng ngogledd Cymru i greu un undeb credyd newydd. Mae hyn yn arwyddocaol yn yr ystyr ei fod yn dangos polisi o gyfuno a chryfhau'r sylfaen presennol o undebau credyd yn hytrach na chanolbwyntio ar greu rhai newydd ychwanegol.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fanyleb ar gyfer darparu'r Prosiect Undebau Credyd (ail gyfnod). Nododd y fanyleb y byddai £3 miliwn o gyllid ar gael i ddarparu'r gwasanaeth i ddarparu'r prosiect ond y disgwyliid na fyddai dim llai na 70% o'r gyllideb ar gael yn uniongyrchol i undebau credyd ac na chât mwy na 30% ei gadw gan y darpariadd i dalu am gostau gweinyddu'r prosiect a rhoi'r cymorth perthnasol. Fel y bu, dyfarnwyd y contract i TSIB i ddarparu ail gyfnod y prosiect.

I baratoi am ail gyfnod y prosiect, gwahoddodd Llywodraeth Cymru undebau credyd i wneud cais am fwy o gyllid a chyhoeddi ail gyfres o Gytundebau Gwasanaeth Budd Economaidd Cyffredinol (SGEI) i 19 undeb credyd ar gyfer y cyfnod Medi 2010 - Awst 2011. Roedd cyllid refeniw o ychydig dros £750,000 ar gael gyda'r symiau cyllido unigol yn amrywio o £21,260 (Undeb Credyd Aberhonddu) i £50,000 (Arfordir Clwyd, Gateway, Credcer, Romcul a Smart Money), fel y'u cyflwynir yn Ffigur 2 islaw. Nid oedd unrhyw gyllid gan Lywodraeth Cymru ar gael i gynnig cronfeydd cyfalaf i undebau credyd yn ystod y cyfnod hwn. Yn ychwanegol, roedd cyllid ar gyfer dau brosiect penodol ar gael ar draws pedwar undeb credyd Smart Money, Gateway,

Casnewydd a Merthyr Tudful - sef i ariannu Swyddog Adennill Dyled yn undeb credyd Smart Money (£27,464) a phrosiect Cydgordio Ariannol a phrosiect Sganio Dogfennau (yn seiliedig yn undeb credyd Gateway) ac yn gyfanswm o £22,937).

Gwnaed cynigion ar sail un flwyddyn, gydag opsiwn i ymestyn am fwy o flynyddoedd yn amodol ar asesiad o'r perfformiad a gyflawnwyd yn y flwyddyn gyntaf. Yn yr un modd â'r cyfnod cyntaf, roedd gan yr undebau credyd a ariannwyd dargedau penodol i'w cyflawni, a thrafodir y rhain yn fanwl yn Adran 5.3.3 yr adroddiad.

Yn ystod mis Awst 2011 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru drydedd set o gytundebau cyllid SGEI ar gyfer cyfnod o ddwy flynedd o fis Hydref 2011 i Fedi 2013. Cyflwynir y symiau refeniw yn unig yn Ffigur 2 islaw. Mae'n werth nodi y cafodd cyllid ei ymestyn i gyfanswm o 17 undeb credyd yn ystod y cyfnod hwn yn dilyn cynnwys undebau credyd Cwm Llynfi ac Islwyn am y tro cyntaf yn ystod 2012 ac uno'r pum undeb credyd sy'n seiliedig yng ngogledd Cymru (Arfordir Clwyd, Caledfryn, Llandudno a'r Cylch Wrecsam a'r Llechen) ddechrau 2011. Yn ôl y disgwyl, roedd y cyllid oedd ar gael i'r undeb credyd oedd newydd uno yn llawer mwy nag ar gyfer y rhai eraill, llai ond yn gyffredinol roedd gwerth y cyllid wedi'i seilio i raddau helaeth ar batrymau hanesyddol a lefel angen yn hytrach na fformiwla glir yn gysylltiedig ag allbynnau prosiect.

*Ffigur 2: Cytundebau Cyllid SEGI Cyfnod Dau ar gyfer Undebau Credyd<sup>34</sup>*

| Undeb Credyd                                  | Cyfnod Dau<br>Cyllid<br>Blwyddyn<br>Gyntaf (1 Hyd<br>10 – 30 Medi<br>11) (£) | Cyfnod Dau<br>Cyllid Ail a<br>Thrydedd<br>Blwyddyn (1<br>Hyd 11 - 30<br>Medi 13) | Cyfanswm Cyllid<br>Cyfnod Dau |
|-----------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------|
| Aberhonddu a'r Cylch                          | 21,260                                                                       | 42,520                                                                           | 63,780                        |
| Arfordir Clwyd                                | 50,000                                                                       | -                                                                                | 50,000                        |
| Bwrdeistref Merthyr Tudful                    | 39,431                                                                       | 81,377 <sup>35</sup>                                                             | 120,808                       |
| Caerdydd a'r Fro                              | 22,374                                                                       | 44,748                                                                           | 67,122                        |
| Caledfryn                                     | 35,537                                                                       | -                                                                                | 35,537                        |
| Casnewydd                                     | 35,000                                                                       | 72,500                                                                           | 107,500                       |
| Castell-nedd Port Talbot                      | 45,558                                                                       | 91,116                                                                           | 136,674                       |
| Credcer                                       | 50,000                                                                       | 90,000 <sup>36</sup>                                                             | 140,000                       |
| Cwm Llyfni                                    | -                                                                            | 20,000                                                                           | 20,000                        |
| Cymuned Islwyn                                | -                                                                            | 47,000                                                                           | 47,000                        |
| Dragonsavers                                  | 46,000                                                                       | 92,000                                                                           | 138,000                       |
| Gateway                                       | 50,000                                                                       | 132,276                                                                          | 182,276                       |
| Gogledd Cymru                                 | d/g                                                                          | 396,178                                                                          | 396,178                       |
| Hafren (gynt Robert Owen<br>Maldwyn (Romcul)) | 50,000                                                                       | d/g                                                                              | d/g <sup>37</sup>             |
| Haven                                         | 30,000                                                                       | 70,000 <sup>38</sup>                                                             | 100,000                       |
| LASA                                          | 24,406                                                                       | 48,812                                                                           | 73,218                        |
| Lifesavers Pen-y-bont ar Ogwr                 | 34,453                                                                       | 89,906                                                                           | 124,359                       |
| Llandudno a'r Cylch                           | 34,676                                                                       | -                                                                                | 34,676                        |
| Save Easy                                     | 30,453                                                                       | 60,906                                                                           | 91,359                        |
| Smart Money                                   | 50,000                                                                       | 102,500                                                                          | 152,500                       |
| Wrexham                                       | 46,876                                                                       | -                                                                                | 46,876                        |
| Y Llechen                                     | 31,000                                                                       | -                                                                                | 31,000                        |
| Cyfanswm                                      | £727,024                                                                     | £1,481,839                                                                       | £2,158,863                    |

#### 4.4 Yn dilyn yr Ail Gyfnod

Fel yr amlinellwyd yn Adran 2 yr adroddiad yma, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru y byddai cyllid pellach ar gyfer y 17 undeb credyd hyny a gymerodd ran yn y prosiect ar gael am gyfnod o chwe mis rhwng mis Hydref 2013 a Mawrth 2014 a chyflwynir y dyraniadau ar gyfer pob undeb credyd yn Ffigur 3. Dyrannwyd targedau ychwanegol i undebau credyd am y cyfnod chwe mis yma a gosodwyd y targedau hyn ar 25% o dargedau'r dwy flynedd blaenorol a gytunwyd ar gyfer Cyfnod 2.

<sup>34</sup> Cyllid referniw yn unig

<sup>35</sup> Yn cynnwys atodiad adennill dyled o £10,000.

<sup>36</sup> Yn cynnwys atodiad adennill dyled o £10,000

<sup>37</sup> Dyfarnwyd £62,100 o gyllid i Undeb Credyd Hafren tu allan i brosiect SGEI ym mis Hydref 2012 am y cyfnod mis Hydref 2012 a Medi 2014. Dadansoddiad y cyllid oedd £47,100 yn 2012/13, £10,000 yn 2013/14 a £5,000 yn 14/15.

<sup>38</sup> Yn cynnwys atodiad adennill dyled o £10,000

*Ffigur 3: Cyllid Ychwanegol ar gyfer Undebau Credyd (mis Hydref 2013 - Mawrth 2014)*

| Undeb Credyd                  | Cyllid Refeniw |
|-------------------------------|----------------|
| Aberhonddu a'r Cylch          | 10,630         |
| Bwrdeistref Merthyr Tudful    | 19,715.50      |
| Caerdydd a'r Fro              | 11,187         |
| Casnewydd                     | 17,500         |
| Castell-nedd Port Talbot      | 22,779         |
| Cwm Llynfi                    | 5,000          |
| Cymuned Islwyn                | 11,750         |
| Dragonsavers                  | 23,000         |
| Gateway                       | 25,000         |
| Gogledd Cymru                 | 99,044.50      |
| Gorllewin Cymru <sup>39</sup> | 20,000         |
| Haven                         | 15,000         |
| LASA                          | 12,203         |
| Lifesavers Pen-y-bont ar Ogwr | 17,226         |
| Save Easy                     | 15,226.50      |
| Smart Money                   | 25,000         |
| Cyfanswm                      | £350,262       |

---

<sup>39</sup> Ailenwyd o Credcer

## **5. CANFYDDIADAU**

### **5.1 Cyflwyniad**

Yn yr adran yma rhoddwn adroddwn ar ganfyddiadau ein hadolygiad desg a gwaith maes. Yn gyntaf ystyriwn y farn ar y rhesymeg ddechreuol a pharhaus dros y prosiect (Adran 5.2) cyn troi i adolygu'r prosiect a thargedau a'r hyn a gyflawnodd undebau credyd unigol (Adran 5.3). Rydym wedyn yn archwilio trefniadau cyflenwi prosiect (Adran 5.4) a natur y cymorth a roddwyd i undebau credyd (yn bennaf drwy TSIB ond hefyd yn uniongyrchol drwy Lywodraeth Cymru a Phrifysgol Fetropolitan Caerdydd) (Adran 5.5 a 5.6). Mae Adran 5.7 yn edrych ar y datblygiadau allweddol a ddigwyddodd ar draws y sector a chyfraniad y prosiect atynt. Yn olaf cyflwynwn farn aelodau unigol a gyfwelwyd yn ystod y gwaith maes am y gwahaniaeth a wnaeth undebau credyd (Adran 5.8).

### **5.2 Barn am Resymeg y Prosiect**

#### *5.2.1 Polisi Cymru*

Cadarnhaodd ein gwaith maes yn ystod 2014 lawer o'r pwyntiau a wnaed yn ystod cyfnodau blaenorol y gwerthusiad hwn gan y credid fod Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn gefnogol i'r sector undebau credyd ond bod gwrthdaro sylweddol yn dal i fod yn nisgwyliadau polisi Cymru ar gyfer undebau credyd. Yn neilltuol, pwysleisiodd undebau credyd fod polisi Llywodraeth Cymru o ddefnyddio undebau credyd fel dyfais i atal tlodi yn ogystal â bod eisiau gweld undebau credyd yn datblygu fel sefydliadau cynaliadwy yn cyflwyno tensiynau anghyson. Awgrymodd llawer o gyfweleion na fyddai cytundebau ariannu gyda'r nod o gefnogi grwpiau oedd wedi eu hallgáu'n ariannol o reidrwydd yn arwain at ffurfio sefydliadau ariannol gynaliadwy (gyda rhai'n dweud i'r ffocws ar ddarparu gwasanaethau i bobl oedd wedi eu hallgáu'n ariannol wneud rhai Undebau Credyd yn llai cynaliadwy). Fodd bynnag, roedd lleiafrif o gyfweleion yn awyddus i bwysleisio ei bod yn bosibl i undebau credyd ddilyn y ddau amcan, gan dderbyn cyllid cyhoeddus fel iawn am ddarparu gwasanaethau anhyfyw i bobl

oedd wedi eu hallgáu'n ariannol tra hefyd yn datblygu eu sylfaen aelodaeth er mwyn ei wneud yn fwy cydnerth.

Ar ôl dweud hyn, dadleuodd undebau credyd hefyd y bu rhai newidiadau pwysig dros y flwyddyn. Ar y naill law cytunwyd fod pwysigrwydd undebau credyd, yn arbennig wrth gynnig amgen i fenthyciadau diwrnod cyflog oedd wedi tyfu dros y ddwy flynedd ddiwethaf, wedi cynyddu ym meddyliau swyddogion a Gweinidogion Llywodraeth Cymru yn ddiweddar a bod cefnogaeth i'r sector wedi tyfu mewn gwirionedd. Fodd bynnag, ar y llaw arall dadleuodd rhai undebau credyd y bu diffyg cyfeiriad strategol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y sector oedd wedi arwain at 'wagle' strategol a 'diffyg arweiniad' ar gyfer y dyfodol. Dywedwyd na fu newid swyddogion a Gweinidogion yn gyfrifol am y sector undebau credyd dros y flwyddyn yn help yn hyn o beth.

Ystyriai ychydig o gyfweleion fod yr hyn a dybient oedd yn ddiffyg cyfeiriad gan Lywodraeth Cymru yn y ffordd y darparodd gyllid ychwanegol i undebau credyd: dadleuodd nifer nad oedd unrhyw amcanion neu ganlyniadau clir yn gysylltiedig gyda'r cyhoeddiad diweddar am gyllid ychwanegol gan y gadawyd i'r sector ddynodi ei flaenoriaethau hyn ar gyfer defnyddio'r arian hwn. Galwodd nifer o undebau credyd am arweinyddiaeth gliriach a llwybr gweithredu mwy pendant gan Lywodraeth Cymru. Yn wir dadleuwyd y daeth hyn yn gynyddol bwysicach i'r sector yn ddiweddar o gofio am y canfyddiad cynyddol fod undebau credyd yn 'fwled arian' ar gyfer datrys ystod eang o broblemau yn cynnwys lliniaru tlodi a thrin darpariaeth benthyciadau diwrnod cyflog. O'i phlaid, fodd bynnag, dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru mai un o amcanion allweddol darparu'r dyllid ychwanegol yn y ffordd honno oedd gweld os byddai'n annog undebau credyd i gydweithredu a datblygu llais unedig ar gyfer y sector.

Ymhellach, roedd cynrychiolwyr eraill o undebau credyd yn feirniadol o'r ffaith fod Llywodraeth Cymru yn cymryd golwg dymor byr iawn ar gefnogi'r sector

ariannol, heb unrhyw ymrwymiad ariannol pellach ar ôl Mawrth 2014 adeg ein gwaith maes<sup>40</sup>.

Yn fwy cadarnhaol awgrymodd nifer o gyfranwyr fod Llywodraeth Cymru wedi dod yn llawer mwy hyblyg drwy alluogi undebau credyd i ganolbwyntio ar gynyddu eu sylfaen aelodaeth gyffredinol, yn hytrach na chanolbwyntio'n unig ar aelodau wedi eu hallgáu'n ariannol y cafodd undebau credyd gontract i gyflawni ar eu cyfer dan eu cytundebau cyllid SGEI - er bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud yn glir nad oeddent eisiau i'r gyfran o aelodau wedi eu hallgáu'n ariannol ostwng mewn unrhyw ffordd. Credid bod y cynnydd yma mewn hyblygrwydd wedi dod oherwydd bod undebau credyd eisoes wedi cyflawni'r targed yn eu contract am aelodau newydd wedi eu hallgáu'n ariannol. Er bod undebau credyd yn croesawu'r symudiad yma gan ei fod yn eu galluogi i ganolbwyntio ar ddatblygu gweithrediadau cynaliadwy, roedd rhanddeiliaid eraill ychydig yn fwy beirniadol gan nodi eu pryderon fod undebau credyd yn symud ymaith o'r hyn a ystyrient yn gylch gorchwyl creiddiol undebau credyd o gefnogi'r mwyaf bregus o fewn cymdeithas.

Craidd y pwynt hwn oedd cydnabyddiaeth fod pob undeb credyd yn unigryw a bod y mudiad yn cynnwys undebau credyd traddodiadol gyda ffocws ar y gymuned yn ogystal â rhai mwy o faint a mwy uchelgeisiol, gyda ffocws cryfach ar drechu tlodi. Teimlai undebau credyd fod Llywodraeth Cymru wedi dod i gydnabod y gwahaniaethau hyn dros gyfnod y prosiect.

Parhaodd cyfweleion o'r sector i ddadlau am gymorth pellach gan Lywodraeth Cymru ar ôl 2014. Er y bu diffyg eglurdeb yn ystod ein gwaith maes yn 2012 am sut gymorth y dylid ei roi, roedd gan gyfranwyr yn ystod cyfnod olaf ein gwaith maes syniadau clir. Er bod nifer o undebau credyd wedi gwneud cynnydd rhesymol (ac mewn rhai achosion, gynydd da) yn ystod y prosiect, dadleuwyd yn gryf y byddai llawer o undebau credyd yn dychwelyd i'r trefniadau blaenorol pe byddai cefnogaeth i'r sector yn dod i ben ym Mawrth 2014, ac y collid llawer o fanteision y cynnydd a wnaed yn ystod cyfnod

---

<sup>40</sup> Gwnaed cyhoeddiad ar gyllid y dyfodol gan Lywodraeth Cymru ym Mawrth 2014. .

ariannu SGEI. Er enghraifft esboniodd un undeb credyd y byddai'n rhaid i'w mannau casglu allanol, a gyflwynwyd gyda chyllid SGEI, ddod i ben pe byddai cyllid yn cael ei ddileu.

Yn nhermau disgwyliadau polisi (fel y'i datganwyd yng Nghynllun Gweithredu yr Undebau Credyd), cydnabuwyd yn eang nad oedd llawer o'r targedau a osodwyd ar gyfer y sector yn berthnasol bellach, gan eu bod wedi eu gosod i gael eu cyflawni erbyn 2013. Er ein bod yn delio gyda llwyddiant, neu fel arall, y prosiect wrth gyflawni'r targedau hyn yn Adran 6.1, roedd llawer o gyfranwyr yn dal o'r farn fod y targed gweddilliol am ymdreiddiad marchnad undebau credyd (ar 6% erbyn 2010) yn parhau'n her. Credai rhai, ond nid y cyfan, y byddai undebau credyd yn gallu cyflawni'r targed cyn belled â'u bod yn dal i dderbyn cefnogaeth Llywodraeth Cymru i wneud hynny. Eto, fel y gwelwyd yn ystod 2012, er yr ymddangosai y cyflawnwyd yr amcan polisi o ddarparu gwasanaeth ym mhob rhan o Gymru, nid oedd hyn yn wir mewn gwirionedd gan nad oedd nifer o undebau credyd yn rhoi gwasanaeth llawn i'w hardaloedd 'cwlwm cyffredin', yn neilltuol mewn ardaloedd gwledig. Adroddwyd peth cynnydd fodd bynnag wrth gynyddu mynediad i wasanaethau drwy ddulliau ar-lein ond mewn gwirionedd roedd achosion o'r fath yn brin adeg ein gwaith maes.

Yn olaf, mewn ymateb i gyhoeddiad Llywodraeth Cymru am gyllid ychwanegol i'r sector, roedd barn gyffredinol y gallai'r cyllid roi chwistrelliad tymor byr i weithredu rhai datblygiadau megis gwella systemau technoleg gwybodaeth ac ymgrych farchnata gyflym. Mynegodd llawer eu hamheuron am werth posibl y cyllid ychwanegol, gan fod y broses o gynnig amdano wedi bod yn anodd (trafodir yn ddiweddarach) ac y byddai'n rhaid gwario'r holl gyllid o fewn amserlen dyn iawn. Roedd ychydig o gyfweleion yn bryderus, er enghraifft, a fyddai'r gweithgareddau marchnata yn effeithlon gan nad oedd gan y sector undebau credyd yng Nghymru gwlwm cyffredin neu gynnyrch cyffredin i'w hyrwyddo.

### *5.2.2 Polisi'r Deyrnas Unedig*

Roedd cyflwyno Gorchymyn Diwygio Deddfwriaethol 2010 wedi dechrau cael mwy o effaith ar y sector undebau credyd erbyn adeg ein gwaith maes yn ystod 2013 drwy fod nifer fwy o undebau credyd wedi ymestyn eu hardaloedd cwlwm cyffredin, ac efallai'n bwysicach, wedi dechrau gweithredu ar draws yr ardaloedd ehangach hyn. Roedd hyn wedi arwain at agor canghennau newydd a/neu newid enw'r undeb credyd mewn rhai achosion (e.e. newidiodd Credcer ei enw i Undeb Credyd Gorllewin Cymru ac agor cangen yng Nghaerfyrddin i wasanaethu ei ardal cwlwm cyffredin ehangach).

Er bod cyflwyno'r ddeddfwriaeth hefyd wedi galluogi undebau credyd i dderbyn aelodau corfforaethol, roedd yn dal i fod yn wir nad oedd llawer o undebau credyd yng Nghymru wedi manteisio'n llawn ar y cyfle hwn. Ymhellach, roedd codi'r cap llogau wedi bod yn ddefnyddiol ond ni ymddengys iddo gael effaith sylweddol ar ddarpariaeth undebau credyd Cymru hyd yma.

Fel yr amlinellwyd yn Adran 2, roedd chwe undeb credyd yng Nghymru yn cymryd rhan ym Mhrosiect Ehangu yr Adran Gwaith a Phensiynau ac er ei bod yn dal yn ddyddiau cynnar iawn, roedd y prif fater a godwyd gan undebau credyd yn ymwneud â thaliadau gan na fyddai undebau credyd yn derbyn taliad nes y cwblhawyd targedau cyfunol y prosiect er eu bod hwy eu hunain wedi cyrraedd eu targed. Roedd y neges allweddol arall sy'n berthnasol a ddaeth i'r amlwg o'n gwaith maes yn cyfeirio at yr angen i sicrhau fod cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector yn ychwanegu gwerth i ddatblygiadau a ariannwyd drwy'r Prosiect Ehangu. Er y cydnabuwyd fod Llywodraeth Cymru wedi egluro yn ei llythyrau cyllido i undebau credyd na ddylid defnyddio cyllid SGEI i ddyblygu unrhyw ddarpariaeth a ariannwyd drwy Brosiect Ehangu'r Adran Gwaith a Phensiynau ac y bu cysylltiad agos rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a swyddogion yr Adran Gwaith a Phensiynau, roedd cyfweleion yn awyddus i sicrhau y dylid manteisio i'r eithaf ar effaith y ddwy ffrwd cyllid.

Roedd yn dal i fod yn wir y credai undebau credyd Cymru y byddai diwygiadau lles y Deyrnas Unedig yn cael effaith niweidiol ar eu cwsmeriaid ac yn wir, soniwyd am nifer o enghreifftiau o gwsmeriaid oedd wedi cysylltu ag undebau credyd am fenthyciad oherwydd toriadau lles fel y 'dreth ystafelloedd gwely'. Roedd undebau credyd hefyd yn bryderus am yr effaith ar eu gweithgareddau ar gyfer y cwsmeriaid hynny a ddewisodd dderbyn eu budd-dlaiadau lles misol drwy ddarparu gwasanaethau ariannol arall. Yn yr un modd, credid y byddai aelodau oedd yn dewis i'w Credyd Cynhwysol gael ei dalu i'w cyfrif undeb credyd, yn rhoi pwysau ar yr undeb credyd yn nhermau cyflenwi arian.

Fodd bynnag, er bod undebau credyd wedi rhagweld y byddai cyflwyno Credyd Cynhwysol wedi creu cyfleoedd iddynt weithio gyda darparwyr tai i reoli cyfrifon rhent ar eu rhan, mewn gwirionedd dim ond nifer fechan o undebau credyd (y rhai mwy) a fu'n llwyddiannus gyda'r datblygiadau hyn. Yn y rhan fwyaf o achosion roedd undebau credyd wedi treulio amser sylweddol yn gweithio ar y cyfleoedd hyn dim ond i ganfod un ai na fyddai darparwyr tai yn barod i dalu am wasanaethau o'r fath mai dim ond ymwneud gydag undebau credyd gyda gallu digonol i drin eu holl bortffolio fyddent. Mae hefyd yn werth nodi fod undebau credyd yn gwybod am y pwysau y mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn ei roi ar ddarparwyr tai ar hyn o bryd i newid y diwygiadau lles (h.y. fel y caiff rhent y tenantiaid hynny y bernir sydd fwyaf mewn risg ei dalu'n uniongyrchol i gymdeithasau tai). Os byddai cymdeithasau tai yn llwyddo gyda'r ymgyrch honno, credid y gallai'r cyfleoedd i undebau credyd gamu i mewn gyda gwasanaethau didynnu rhent ddiflannu.

Roedd un undeb credyd o'r fath yn dangos y materion hyn yn neilltuol o dda - roedd wedi cynnal prosiect arddangos gyda'r nod o helpu landlordiaid cymdeithasol i ddelio gyda'r newidiadau i'r ffordd y telid budd-dal tai yn y dyfodol. Fel rhan o'r prosiect byddai'r undeb credyd yn casglu rhenti ar ran landlordiaid am gost o £5 fesul tenant. Bu cymdeithasau tai lleol yn amharod iawn i gymryd rhan yn y prosiect er eu bod yn pryderu am oblygiadau cyflwyno taliadau uniongyrchol. Hyd yn oed pan ostyngodd yr undeb credyd y ffi fesul tenant i £2, canfuwyd fod cymdeithasau tai yn dal i fod yn amharod i

gymryd rhan ac y byddai'n well ganddynt aros i weld os byddai Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cyflwyno newidiadau i'r diwygiadau.

### *5.2.3 Effeithiau Allanol Eraill*

Mae adborth gan gyfranwyr yn ystod y gwerthusiad hwn yn awgrymu codi proffil undebau credyd yn gyffredinol ar draws y Deyrnas Unedig - yn neilltuo fel canlyniad i gefnogaeth arweinwyr eglwysig allweddol i'r sector yn ystod 2013 a nod Llywodraeth y Deyrnas Unedig o ddyblu aelodaeth undebau credyd drwy Brosiect Ehangu'r Adran Gwaith a Phensiynau. Credid fod y sylw cynyddol yn y cyfryngau wedi helpu i gynyddu'r ymwybyddiaeth a'r diddordeb mewn undebau credyd (e.e. soniodd un undeb credyd am gynnydd mawr yn nifer yr ymweliadau i'w wefan yn dilyn sylwadau gan Archesgob Caergaint ac Archesgob Cymru) ac i hyn ddenu cynilwyr newydd. Fodd bynnag ni chredid fod y sylw cynyddol yn y cyfryngau o reidrwydd wedi trosi yn fenthycu uwch gan undebau credyd - i raddau helaeth gan nad oedd y cwsmeriaid Haen 1 a Haen 2 a ymatebodd un ai angen benthyciad neu ni ystyrient fod undebau credyd yn ddarparwydd benthycu credadwy.

Dywedodd llawer o fewn y sector hefyd fod y cynnydd sylweddol mewn argaeledd a defnydd benthyciadau diwrnod cyflog wedi effeithio ar y sector undebau credyd - fodd bynnag, credid fod unrhyw dybiaethau gan wneuthurwyr polisi y byddai undebau credyd yn gallu mynd i'r afael â thwf benthycu diwrnod cyflog yn 'naïf'. Awgrymodd rhai nad oedd yn realistig disgwyl i undebau credyd gystadlu'n uniongyrchol gyda darparwyr benthyciadau diwrnod cyflog gan nad oeddent yn darparu cynnyrch cyffelyb. Ni chredai llawer o undebau credyd ychwaith y gallent gymryd yr un lefel o risg â chwmnïau benthyciadau diwrnod cyflog - byddai angen iddynt gynnig cyfraddau uwch o log ar eu benthyciadau er mwyn gwneud hynny.

Credai llawer o gyfranwyr, yn undebau credyd a hefyd yn rhanddeiliaid, y gellid dysgu gwersi o'r dull a ddefnyddiai darparwyr benthycu diwrnod cyflog. Roedd hyn yn cynnwys eu dulliau a chynnwys hysbysebion a hefyd yn y ffordd y gellid cael mynediad yn gyflym ac yn rhwydd ar-lein i wasanaethau.

Soniodd ychydig o gynrychiolwyr undebau credyd am yr angen i sicrhau fod hysbysebion yn rhwydd eu deall ac ar y cywair cywir.

Yn achos un undeb credyd oedd â safle prysur ar y stryd fawr, dywedodd y rheolwr eu bod wedi gweld tri darparydd benthyciadau diwrnod cyflog yn agor canghennau yn y dref dros y tair blynedd ddiwethaf ac i hyn olygu y bu angen i'r undeb credyd 'godi ei gêm ei hun' mewn ymateb i'r gystadleuaeth. Fel canlyniad roedd yr undeb credyd wedi gwneud ymdrechion sylweddol i brosesu ceisiadau am fenthyciadau yn gyflymach mewn ymdrech i ddenu mwy o aelodau.

### **5.3 Targedau a Pherfformiad y Prosiect**

Yn yr adran yma trafodwn berfformiad y prosiect hyd yma. Mae hyn yn cynnwys crynodeb byr o'r cyfnod cyntaf yn ogystal â chyfrif manwl o berfformiad yr ail gyfnod.

#### *5.3.1 Targedau y Cyfnod Cyntaf*

Canfu ein Hadroddiad Blwyddyn Gyntaf fod y prosiect cyfnod cyntaf un ai wedi gallu cyflawni neu ragori ar fwyaf y targedau Cydgyfeirio a ariannwyd gan WEFO er fod diffyg tystiolaeth i gadarnhau rhai allbynnau a diffyg cysondeb yn y diffiniadau a ddefnyddiwyd. Hefyd dangosodd ein Hadroddiad Blwyddyn Gyntaf all-dro cymharol wan yn nhermau perfformiad undebau credyd o gymharu â'u targedau unigol ar gyfer y cyfnod cyntaf. Roedd y prif fater yn ymwneud â'r ffaith fod undebau credyd wedi defnyddio ystod eang o dargedau oedd wedi'u diffinio'n wael (a bod llawer iawn o amrywiaeth yn nifer cyffredinol targedau mewn cytundebau cyllido undebau credyd) a olygai ei bod yn amhosibl asesu gwerth am arian. Ymhellach canfu ein Hadroddiad Blwyddyn Gyntaf fod diffyg aliniad rhwng y targedau a gytunwyd gyda'r undebau credyd unigol a'r targedau lefel prosiect a gytunwyd gyda WEFO.

Canfu ein gwerthusiad Blwyddyn Gyntaf fod gan Ganolfan Cydweithredol Cymru gontract i ddarparu ar chwe maes allweddol o weithgaredd yn nhermau cefnogi undebau credyd yn ogystal â gweinyddu cytundebau cyllid SGEI. Daethom i'r casgliad fod Canolfan Cydweithredol Cymru gan fwyaf yn

gallu cyflawni ei hymrwymiaidau contract yn ystod y cyfnod cyntaf a darparu'r ddarpariaeth cefnogaeth angenrheidiol, er bod pwysau ffocws y gwaith tuag at weinyddu cytundebau cyllido SGEI. Fodd bynnag oherwydd diffyg dangosyddion perfformiad allweddol penodol ar gyfer Canolfan Cydweithredol Cymru yn y cyfnod cyntaf, daethom i'r casgliad ei bod yn anodd iawn asesu ei llwyddiant, neu ddiffyg hynny, wrth gyflawni amcanion Llywodraeth Cymru.

### *5.3.2 Targedau Prosiect yr Ail Gyfnod*

Roedd gan ail gyfnod y prosiect naw targed lefel uchel i'w cyflawni erbyn diwedd Rhagfyr 2013 yn yr ardal Cydgyfeirio a dengys adolygiad o'r data a gafwyd gan Lywodraeth Cymru, a grynhoir yn Ffigur 4, y cyflawnwyd neu y rhagorwyd ar dri o'r targedau hyn. Cafwyd allbynnau ardderchog ar y prif darged o gynyddu nifer y bobl yn cyrchu gwasanaethau ariannol. Roedd y cynnydd dechreuol ar y targed hwn yn araf (fel y nodwyd yn ein Gwerthusiad Blwyddyn Gyntaf) ond profodd penderfyniad Llywodraeth Cymru i ail-alinio cytundebau cyllido SGEI undebau credyd gyda'r targed hwn yn 2011 yn effeithlon a rhagorwyd ar y targed gan dair gwaith y targed gwreiddiol a osodwyd. Yn ychwanegol, cafodd 4,338 o aelodau ifanc eu cefnogi o fewn yr ardal Cydgyfeirio yn unig.

*Ffigur 4: Perfformiad Terfynol Ardal Cydgyfeirio yn erbyn Targedau Cyfnod Dau (Rhagfyr 2013)*

|                                                                                    | Targed | Cyflawnwyd<br>(adroddiad<br>interim) | Cyflawnwyd<br>diwedd y<br>prosiect |
|------------------------------------------------------------------------------------|--------|--------------------------------------|------------------------------------|
| Mentrau cymdeithasol a gafodd gymorth ariannol                                     | 17     | 13 <sup>41</sup>                     | 13                                 |
| Mentrau cymdeithasol a gynorthwywyd                                                | 17     | 13 <sup>42</sup>                     | 13                                 |
| Nifer y swyddi a grëwyd                                                            | 7      | 13                                   | 13                                 |
| Mentrau cymdeithasol a grëwyd                                                      | 1      | D/G <sup>43</sup>                    | D/G                                |
| Nifer y bobl yn cyrchu gwasanaethau<br>(gwasanaethau ariannol)                     | 7,500  | 9,016 <sup>44</sup>                  | 23,052                             |
| Mentrau'n mabwysiadu neu'n gwella<br>strategaethau a systemau monitro cydraddoldeb | 17     | 4                                    | 12                                 |
| Mentrau'n defnyddio neu'n gwella strategaethau a<br>systemau monitro cydraddoldeb  | 17     | 7                                    | 11                                 |
| Nifer net mentrau cymdeithasol a grëwyd                                            | 1      | D/G                                  | D/G                                |
| Nifer y swyddi a grëwyd                                                            | 1      | 13                                   | 19                                 |

Ffynhonnell: Adroddiad Cynnydd WEFO a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru am y cyfnod yn diwedd Rhagfyr 2013

Yn nhermau nifer y mentrau cymdeithasol y rhoddwyd cefnogaeth ariannol iddynt, dywedodd y prosiect y cefnogwyd 13 undeb credyd ar draws ardal y rhaglen Cydgyfeirio<sup>45</sup>. Fodd bynnag, i gyd, cafodd y targed yma ei gyflawni yn ystod yr ail gyfnod (felly'n cyrraedd targed WEFO) gan i bedwar undeb credyd yng ngogledd orllewin Cymru (yn ogystal ag undeb credyd Wrecsam) ddod at ei gilydd i ffurfio un undeb credyd yn Ionawr 2011. Cafodd un undeb credyd newydd (Cwm Llynfi) hefyd ei recriwtio i'r prosiect ddiwedd 2011/dechrau 2012. Felly cefnogwyd cyfanswm o 17 undeb credyd o fewn ardal y rhaglen Cydgyfeirio dros oes y prosiect.

Dywed yr adroddiad chwarterol a gyflwynwyd i WEFO yn Rhagfyr 2013 y bu cynnydd net o 19 mewn cyflogaeth mewn undebau credyd. Casglwyd data ar swyddi a grëwyd (a swyddi net) gan undebau credyd a rhoddwyd adroddiad ar hynny i Lywodraeth Cymru drwy TSIB. Deallwn y cedwir tystiolaeth cyflogaeth gan yr undeb credyd sy'n adrodd i sicrhau diogelu gwybodaeth bersonol.

<sup>41</sup> Er bod yr allbwn yma'n is na'r targed gwreiddiol, cyflawnwyd y targed gan fod y prosiect wedi gweithio gyda phedwar undeb credyd yn yr ardal Cydgyfeirio yng Ngogledd Cymru, a unodd i ffurfio Undeb Credyd Gogledd Cymru yn Ionawr 2011.

<sup>42</sup> Ditto.

<sup>43</sup> Cytunwyd gyda WEFO y byddai'r dangosydd ar gyfer mentrau cymdeithasol a grëwyd (a nifer net mentrau cymdeithasol a grëwyd) yn cael ei ddilyn ar y sail fod Undeb Credyd Gogledd Cymru, oedd newydd ei ffurfio, yn uno pum cyn undeb credyd yng ngogledd Cymru, gyda phedwar ohonynt yn yr ardal Cydgyfeirio.

<sup>44</sup> Yn ychwanegol at hyn, recriwtiwyd 3449 o gynilwyr ifanc ers dechrau'r prosiect.

<sup>45</sup> Mae'r prosiect hefyd yn cefnogi pedwar undeb credyd arall sy'n gweithredu'n llwyr y tu allan i ardal y rhaglen Cydgyfeirio sef Aberhonddu, Caerdydd, Casnewydd a Romcul gan ddod â chyfanswm nifer yr undebau credyd sy'n cymryd rhan yn y prosiect ar draws Cymru i 17. .

Yn ôl yr adroddiad cynnydd terfynol i WEFO <sup>46</sup> roedd 11 undeb credyd wedi cyflawni safon amgylchedd lefel dau y Ddraig Werdd ac roedd pob undeb credyd heblaw un wedi dweud eu bod yn defnyddio neu wedi gwella eu systemau rheolaeth amgylcheddol. Ymhellach roedd pob undeb credyd heblaw dau wedi dweud eu bod yn defnyddio neu'n gweithredu strategaethau newydd ar gydraddoldeb. Mae'r allbynnau hyn yn welliant sylweddol ar yr allbynnau trawsbynciol y rhoddwyd adroddiad arnynt yn ein Hadroddiad Interim ac mae'n glir y rhoddwyd blaenoriaeth i'r maes gwaith yma dros flwyddyn olaf darparu'r prosiect.

### *5.3.3 Targedau Cyfnod Dau Undebau Credyd*

Dywedodd ein Hadroddiad Blwyddyn Gyntaf fod y targedau undebau credyd a ffurfiai ran o'u cytundebau cyllid SGEI yn eang ac yn amrywio'n sylweddol o ran nifer a math ar gyfer pob sefydliad. Cawsom ddata ar gyfer y cyfnod Hydref 2010 - Mehefin 2011 yn dangos fod cynnydd gan undebau credyd unigol yn gymysg.

Canfu ein Hadroddiad Interim fod yr undebau credyd a ariannwyd gan SGEI gyda'i gilydd wedi rhagori ar eu targed Cymru-gyfan ar gyfer cynyddu nifer yr aelodau sydd wedi eu hallgáu'n ariannol a osodwyd ar ddechrau ail gyfnod y prosiect ac y bu penderfyniad Llywodraeth Cymru i symleiddio Cytundebau Cyllido SGEI undebau credyd a'u clymu'n nes gyda thargedau lefel prosiect yn ffactor allweddol. Erbyn mis Medi 2012 roedd undebau credyd a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru wedi recriwtio 10,922 (o gymharu â tharged o 9,198) o oedolion newydd wedi eu hallgáu'n ariannol a 3,827 arall (o gymharu â tharged o 1,205) o gynilwyr ifanc newydd.

Fodd bynnag gwelsom fod perfformiad undebau credyd unigol o gymharu â'u targedau contract bryd hynny wedi amrywio - gyda rhai megis Castell-nedd Port Talbot, Merthyr Tudful, Casnewydd a Smart Money yn llawer uwch na'u targedau contract tra'r ymddangosai bod undebau credyd eraill megis Save

---

<sup>46</sup> Hyd at fis Rhagfyr 2013

Easy, Credcer, Aberhonddu a Chaerdydd yn perfformio'n gymharol wael o gymharu â'u targedau.

Cafodd y targedau a osodwyd ar gyfer undebau credyd gyda chontract eu diwygio gan Lywodraeth Cymru yn ddiweddarach a dengys Ffigur 5 islaw i ba raddau y cyflawnwyd hyn dros ddwy flynedd olaf y prosiect rhwng Hydref 2011 a Medi 2013<sup>47</sup>. Dengys y tabl y recriwtiwyd cyfanswm o 15,131 o aelodau newydd wedi eu hallgáu'n ariannol dros y cyfnod dwy flynedd yma a bod hyn bron deirgwaith y targed a osodwyd ar 5,989. Fodd bynnag, fel gyda pherfformiad undebau credyd unigol mewn blynyddoedd blaenorol, roedd rhai wedi perfformio'n eithriadol o dda o gymharu â'u targed (Castell-nedd Port Talbot, Smart Money a Dragon Savers) tra bod tri undeb credyd wedi methu cyflawni eu targed contract (sef Save Easy, Aberhonddu a Hafren).

---

<sup>47</sup> Wrth gwrs cafodd yr allbynnau a gyflawnwyd undebau credyd dros y cyfnod o flwyddyn rhwng mis Hydref 2011 - mis Medi 2012 eu hystyried o gymharu â thargedau gwreiddiol a osodwyd ar gyfer pob undeb credyd o fewn yr Adroddiad Interim ond cânt eu hystyried yma eto fel set newydd o dargedau dwy flynedd a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru hanner ffordd drwy Gyfnod Dau.

*Ffigur 5: Cyflawni Targedau Cam II (fel ym Medi 2013)*

| Undeb Credyd                | Oedolion newydd wedi eu hallgáu'n ariannol |               |              |
|-----------------------------|--------------------------------------------|---------------|--------------|
|                             | Target                                     | Cyflawnwyd    | Amrywiad     |
| Pen-y-bont ar Ogwr          | 371                                        | 629           | 258          |
| Gorllewin Cymru             | 156                                        | 205           | 49           |
| Dragon Savers               | 472                                        | 1,555         | 1083         |
| Haven                       | 118                                        | 277           | 159          |
| Islwyn                      | 120                                        | 326           | 206          |
| LASA                        | 194                                        | 1,202         | 1,008        |
| Cwm Llynfi                  | 100                                        | 220           | 120          |
| Merthyr Tudful              | 286                                        | 1,223         | 937          |
| Castell-nedd Port Talbot    | 400                                        | 3,287         | 2887         |
| Save Easy <sup>48</sup>     | 366                                        | 103           | -263         |
| Gateway                     | 576                                        | 951           | 375          |
| Gogledd Cymru               | 1,445                                      | 1,705         | 260          |
| Smartmoney                  | 569                                        | 1,869         | 1300         |
| Aberhonddu                  | 156                                        | 76            | -80          |
| Caerdydd                    | 260                                        | 278           | 18           |
| Casnewydd                   | 200                                        | 1,159         | 959          |
| Hafren (Romcul)             | 200                                        | 66            | -134         |
| <b>Cyfanswm Cymru-gyfan</b> | <b>5,989</b>                               | <b>15,131</b> | <b>9,142</b> |

Ffynhonnell: TSIB

#### 5.3.4 Targedau TSIB yr Ail Gyfnod

Dyfarnwyd contract i TSIB gan Lywodraeth Cymru i reoli a dosbarthu taliadau grant SGEI i undebau credyd yn ogystal â chyflwyno cefnogaeth a chynghor i undebau credyd dros ail gyfnod y prosiect. Canfu ein Hadroddiad Interim y cyflawnwyd mwyafrif y dangosyddion perfformiad allweddol a osodwyd ar gyfer TSIB yn ystod eu blwyddyn gyntaf o ddarpariaeth a bod angen eu hadolygu (ar i fyny) ac i fod yn fwy CAMPUS i adlewyrchu'r ddarpariaeth sydd ar gael. Yn ddilynol penderfynodd Llywodraeth Cymru ddiwygio'r dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer TSIB ac roedd hyn yn golygu gostwng y 20 dangosydd perfformiad allweddol gwreiddiol i nifer mwy hylaw (saith), a amlinellir islaw (Ffigur 6). Er na ddangosir hynny yn Ffigur 5, roedd gan bob un o'r gweithgareddau a amlinellwyd allbynnau penodol ac amcangyfrif o ddyddiadau cwblhau neu amllder, oedd yn ein barn ni yn ddatblygiad cadarnhaol.

<sup>48</sup> Dim ond at eu darpariaeth yn Sir Benfro y mae allbynnau Save Easy yn cyfeirio.

*Ffigur 6: Dangosyddion Perfformiad Blynyddol yr Ail Gyfnod (Ail a Thrydedd Blwyddyn) ar gyfer TSIB<sup>49</sup>*

- Darparu cymorth busnes i undebau credyd i wella cynllunio busnes a threfniadau llywodraethiant i gydymffurfio gyda gofynion yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol.
- Darparu adroddiadau cynnydd chwarterol ar yr undebau credyd sy'n cymryd rhan yn y prosiect yn cynnwys iechyd ariannol a solfedd, gweithgaredd SGEI a datblygiadau busnes.
- Darparu cymorth trylwyr sefydlogi busnes lle dynodwyd fod risg o fethiant busnes yn seiliedig ar yr wybodaeth yn adroddiad chwarterol undebau credyd. Datblygu a gweithredu rhaglen o hyfforddiant i wella a chynnal capasiti, gallu a phroffesiynoldeb cyfarwyddwyr, gwirfoddolwyr a staff cyflogedig undebau credyd Cymru.
- Hwyluso cydweithredu agosach rhwng undebau credyd Cymru drwy gefnogi cyfarfodydd rhanbarthol rheolaidd ar gyfer ymchwilio cyfleoedd ar gyfer cydweithio a rhannu arfer nodedig. Lle'n addas, i gefnogi uno undebau credyd lle mae hynny er budd gorau'r aelodau a'r cymunedau a wasanaethir gan yr undebau credyd hynny.
- Datblygu a gweithredu strategaeth farchnata a chyfathrebu.
- Prosesu hawliadau gan undebau credyd yn unol gyda'r darpariaethau o fewn y cytundebau i ddarparu Gwasanaethau o Fudd Economaidd Cyffredinol.

Dengys ein hadolygiad o ddogfennau a chanfyddiadau gwaith maes y gallodd TSIB gyflawni ei ymrwymadau contract a chyflwynir trafodaeth ar i ba raddau y bu'r rhai yn effeithlon yn Adran 5.

## **5.4 Trefniadau Cyflenwi Prosiect**

Yn yr adran yma adolygwn effeithlonrwydd rheolaeth prosiect a gweithrediadau. Er mwyn bod yn gynhwysfawr, rhoddwn grynodedd ar ein barn am y trefniadau darparu a fabwysiadwyd ar gyfer y cyfnod cyntaf (Adran 5.4.1) cyn troi i drafod prosesau yr ail gyfnod (Adran 5.4.2).

### *5.4.1 Trefniadau Cyflenwi y Cyfnod Cyntaf*

Gwelodd ein Hadroddiad Blynyddol Gyntaf gryfderau a hefyd wendidau yn null gweithredu cyfnod cyntaf y prosiect - er enghraifft ystyriwyd bod Grŵp Cydlyn Cenedlaethol Undebau Credyd yn ddull effeithlon ar gyfer dialog rhwng undebau credyd a dysgwyd nifer o wersi a fabwysiadwyd yn ddiweddarach yn yr ail gyfnod. O ran yr elfennau negyddol dywedsom nad

<sup>49</sup> O lythyr dyddiedig 4 Tachwedd 2011 i TSIB gan Lywodraeth Cymru

oedd yr adnoddau ar gael o fewn Llywodraeth Cymru i reoli'r prosiect wedi bod yn gyson ddigonol. Ymhellach roedd y darparwydd contract (Canolfan Cydweithredol Cymru) wedi canolbwyntio'n bennaf ar weinyddu cytundebau ariannu SGEI a chodwyd cwestiynau am effeithlonrwydd y gwaith datblygu undebau credyd a wnaed.

#### *5.4.2 Trefniadau Cyflenwi yr Ail Gyfnod*

Cafodd ail gyfnod y prosiect ei oruchwyllo gan dîm prosiect Llywodraeth Cymru o fewn yr Is-Adran Cymunedau. Mae newidiadau staff o fewn y tîm yma wedi golygu na chafodd y tîm bob amser ei staffio'n llawn ar hyd y prosiect a bu'n rhaid i staff newydd a benodwyd ddatblygu eu gwybodaeth o'r sector undebau credyd yn gyflym iawn. Ers diwedd prosiect yr Undeb Ewropeaidd cafodd gwaith y sector undebau credyd ei oruchwyllo gan ddau aelod o staff.

Cafodd yr ail gyfnod ei gyflenwi gan dîm craidd bychan yn TSIB (yn cynnwys Rheolwr Prosiect, Gweinyddwr Prosiect a thîm o gynghorwyr) yn gweithio fel is-gontractwyr yn uniongyrchol gydag undebau credyd. Yn ychwanegol cafodd aelod o staff Llywodraeth Cymru secondiad i TSIB dros yr ail gyfnod i weithio gydag undebau credyd penodol.

Sefydlwyd Bwrdd Prosiect Gweithredol gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2010, gydag aelodau o blith staff mewnol, i oruchwyllo cyflenwi'r prosiect Undebau Credyd. Mae adborth yn awgrymu i'r grŵp weithio'n effeithlon ar hyd y prosiect.

Awgrymodd ein gwaith maes yn ystod 2012 fod y berthynas rhwng undebau credyd a Llywodraeth Cymru wedi gwella'n sylweddol dros gyfnod cyflenwi dechreuol yr ail gyfnod, gyda nifer o undebau credyd ar y pryd yn cyfeirio at y berthynas weithio agos a chynnydd mewn ymddiriedaeth rhyngddynt a Llywodraeth Cymru - er enghraifft dywedodd un fod staff Llywodraeth Cymru yn 'galw heibio' ei safleoedd yn hamddenol, tra dywedodd eraill fod gan y tîm ddealltwriaeth dda o'r materion gweithredol allweddol sy'n wynebu undebau credyd. Roedd hefyd gydnabyddiaeth gyffredinol fod swyddogion Llywodraeth

Cymru yn llawer mwy parod i wrando ar y sector ar y pryd a barn eu bod yn ystyried eu hunain fel 'hyrwyddwyr' ar gyfer y sector. Fel canlyniad, ychwanegodd un 'does dim rhaid i ni chwarae gemau ddim mwy.'

Fodd bynnag yng ngoleuni newidiadau i staff Llywodraeth Cymru a ddigwyddodd yn ystod 2013, byddai'n ymddangos fod y berthynas waith rhwng undebau credyd a Llywodraeth Cymru wedi ymbellhau unwaith eto. Teimlai nifer o gynrychiolwyr undebau credyd y collwyd yr wybodaeth o'r sector oedd gan staff blaenorol Llywodraeth Cymru ac fel canlyniad nad oedd gan Lywodraeth Cymru bellach ddealltwriaeth drylwyr o weithgareddau undebau credyd.

Honnodd rhai hefyd, ers i gyllid cyfalaf SGEI ddod i ben yn 2010, fod swyddogion Llywodraeth Cymru weithiau wedi trafod ac yna wedi cilio o ddarpariaeth bosibl cyllid cyfalaf a bod hyn wedi gwanhau ymddiriedaeth a pherthynas.

Teimlid yn gyffredinol y bu Grŵp Cenedlaethol Cydlynu Undebau Credyd yn grŵp effeithlon ar gyfer rhannu arfer da rhwng undebau credyd a chydlynu ar sail ar y cyd gyda Llywodraeth Cymru er mai dim ond ddwywaith y flwyddyn yr oedd yn cwrdd. Fodd bynnag ym Mai 2013 y cynhaliwyd y cyfarfod diwethaf o'r grŵp yma, i raddau helaeth oherwydd pwysau ar undebau credyd i gydweithio ar gais ar y cyd i Lywodraeth Cymru ac ers hynny byddai'n ymddangos y bu diffyg fforwm agored ar gyfer cysylltu gyda Llywodraeth Cymru ar sail ar y cyd.

## **5.5 Cefnogaeth yn yr Ail Gyfnod**

Yn yr adran yma trafodwn yr elfennau allweddol o gefnogaeth a fu ar gael i undebau credyd yn ystod yr ail gyfnod, yn cynnwys cyfraniad TSIB (Adran 5.5.1 ac Adran 5.5.2), yr hyfforddiant drwy Brifysgol Fetropolitan Caerdydd (Adran 5.5.3) ac ymgyrch farchnata a hyrwyddo'r prosiect (Adran 5.5.4).

### 5.5.1 Cefnogaeth TSIB

Canfu ein hadroddiad interim fod mwyafrif yr undebau credyd wedi derbyn cyngor a chefnogaeth gan TSIB ond fod y farn yn gymysg am werth yr ymyriadau a'r hyfforddiant a gafwyd. Efallai nad yw'n syndod fod yr undebau credyd hynny a dderbyniodd gefnogaeth ddwys yn gyffredinol yn fwy tebygol o ddweud fod ymyriad TSIB wedi gwneud gwahaniaeth iddynt. Tueddai'r rhai na chafodd ond ychydig o gefnogaeth i awgrymu nad oedd wedi gwneud cymaint â hynny o wahaniaeth i'w sefydliad. Roedd hyn yn parhau felly yn ystod 2013.

Mae TSIB wedi parhau i roi cefnogaeth i undebau credyd sy'n cymryd rhan yn y prosiect ac mae natur y gefnogaeth yma wedi cynnwys cymorth unigol dwys yn ogystal â gwasanaethau cyngor a gwybodaeth mwy cyffredinol.

Yn nhermau'r cyfleoedd hyfforddi a gynigiwyd dros y flwyddyn, hwylusodd TSIB ychydig o sesiynau hyfforddi ar themâu megis marchnata ac adnoddau dynol. Fodd bynnag, roedd yr ymateb o fewn y sector yn isel (gyda dim ond tua chwech yn cymryd rhan ym mhob sesiwn) ac felly penderfynodd TSIB gynnig hyfforddiant pwrpasol yn unig mewn ymateb i'r hyn y gofynnodd amdano e.e. cyrsiau ar feddalwedd CURTAINS a ddefnyddir gan undebau credyd.

Yn ogystal â'r sesiynau hyfforddiant hyn parhaodd TSIB i hwyluso ysgol haf undebau credyd gyda nifer dda'n bresennol yn 2013. Roedd adborth gan ychydig o'r rhai a fu'n bresennol yn awgrymu i'r sector cael derbyniad gweddol dda a'i bod yn 'ddiddorol' gyda'r cyflwyniad cyweirnod gan y Meddyg Busnes Dr Paul Tomas y prif uchafbwynt. Dywedodd y mynychwyr hefyd eu bod wedi manteisio o gyfleoedd rhwydweithio ond eu bod yn llai galluog i sôn am enghreifftiau neilltuol o sut yr oeddent wedi rhoi unrhyw ddysgu ar waith. Roedd cwpwl o gyfranwyr yn fwy beirniadol gan ychwanegu 'roedden ni eisoes yn gwneud y pethau roedden nhw'n siarad amdany'n nhw' ac 'o gymharu â digwyddiad ABCUL, roeddwn yn disgwyl iddo fod o safon uwch'.

Ymhellach trefnodd TSIB ymweliad i undebau credyd yn Glasgow a chymerodd cynrychiolwyr o saith undeb credyd yng Nghymru ran. Mae'r adborth gan gynrychiolwyr undebau credyd yn awgrymu i'r ymweliad i Glasgow (yn ogystal â'r ymweliad blaenorol i Ogledd Iwerddon) gael derbyniad da iawn gydag un yn dweud y bu'r ddau yn 'ymweliadau gwych ... profiadau dysgu aruthrol'.

Mae TSIB wedi gweithio'n agos gyda nifer fechan o undebau credyd a bu'r adborth o'r achosion hyn yn gadarnhaol. Er enghraifft yn achos un undeb credyd bu aelod o dîm TSIB yn eu cefnogi fel 'math o reolwr' a chredwyd fod trawsnewid sylweddol o fewn y sefydliad fel canlyniad. Roedd yr undeb credyd wedi sicrhau presenoldeb ar y stryd fawr dros y flwyddyn ddiwethaf. Roedd aelodaeth bwrdd wedi ehangu, trefniadau llywodraethu wedi gwella ac ym marn cynrychiolwyr TSIB roedd y sefydliad wedi dod yn fwy 'ariannol ymwybodol'. Awgrymwyd fod mewnbwn y cynghorydd TSIB wedi helpu i lywio'r sefydliad i weithredu busnes mwy cynaliadwy a bod gan y Bwrdd a'r staff fwy o ddealltwriaeth o'r hyn oedd ei angen yn awr i sicrhau cynaliadwyedd ariannol. Mewn achos arall roedd undeb credyd wedi gwneud defnydd sylweddol o'r cymorth oedd ar gael gan dîm ymgynghorwyr TSIB ac roedd hyn wedi cynnwys hwylusiad diweddar ar sesiwn Datblygiad Bwrdd oedd wedi gosod cyfeiriad newydd ar gyfer y sefydliad. Yn yr achos hwn dywedodd cynrychiolydd yr undeb credyd fod y cynghorwyr wedi gallu dod â llawer o brofiad ac arfer da o fannau eraill na fyddent wedi cael mynediad iddo yn yr ardal wledig lle'r oeddent wedi'u lleoli.

Mewn trydydd cydnabu'r undeb credyd iddynt gael llawer o gefnogaeth gan TSIB gan eu bod wedi cyflwyno syniadau newydd iddynt eu gweithredu e.e. y Cynllun Benthyciadau Teulu. Nododd cynrychiolydd yn yr undeb credyd yma eu bod wedi gwerthfawrogi cael cymorth gan gynghorydd a oedd ei hunan yn 'gyfarwyddwr undeb credyd ... sy'n golygu ei fod yn deall y problemau sy'n ein hwynebu'. Ymhellach mewn pedwerydd undeb credyd nododd cynrychiolydd fod cynghorydd TSIB wedi cynnal adolygiad trylwyr o'u hundeb credyd oedd wedi golygu cyfweld â 'llawer o'r gwirfoddolwyr, eu holi am eu rôl, y sgiliau sydd ganddyn nhw, y sgiliau nad oes ganddyn nhw, beth sy'n gweithio'n dda a

beth nad yw'n gweithio'n dda. Roedd yn agoriad llygad go iawn .. eithaf brawychus.' Roedd y cynghorydd wedyn wedi gweithio gyda'r Bwrdd i ymchwilio materion cynaliadwyedd ac ystyried ffyrdd newydd o gynhyrchu incwm. Yn yr achos yma ystyriwyd y bu'r cymorth a gafwyd yn gatalydd newid a bod y dulliau a ddefnyddiwyd yn addas ar gyfer yr undeb credyd dan sylw: 'Rwy'n credu mai'r hyn oedd yn bwysig oedd na chafodd ei orfodi arnom. Fe wnaethon nhw weithio gyda ni. Fe wnaethon nhw roi syniadau i ni eu datblygu. Rwy'n credu mai dyna pam fod y Bwrdd yn agored i wrando arnynt.'

Roedd undebau credyd eraill a gafodd lai o gefnogaeth gan TSIB yn fwy beirniadol o'u rôl a'u dull gweithredu. Er enghraifft, credai un undeb credyd o'r fath a gafodd hyfforddiant ar gyfer aelodau ei bwyllgor goruchwyllo fod cynnwys yr hyfforddiant yn ymddangos yn hen ac nad oedd yn ddigon penodol i'w hamgylchiadau gan ychwanegu 'fe fyddech chi wedi cael yr un hyfforddiant ddeng mlynedd yn ôl ... dydi'r hyfforddiant ddim wedi symud ymlaen wrth i undebau credyd symud ymlaen ... heblaw diweddarau pethau yn ymwneud â deddfwriaeth'. Yn yr achos yma awgrymodd cynrychiolydd yr undeb credyd fod angen i TSIB ystyried profiad cynyddol y sector yng Nghymru o fewn ei gyrsiau hyfforddiant. Yn yr undeb credyd arbennig yma, ni chredai cynrychiolwyr fod cefnogaeth TSIB wedi 'gwneud unrhyw wahaniaeth' i'w sefydliad. Holodd undeb credyd arall os y medrid bod wedi defnyddio'r cyllid oedd ar gael i TSIB yn fwy effeithlon pe byddai wedi ei roi'n uniongyrchol i undebau credyd.

Yn gyffredinol fodd bynnag credai'r sector y bu'r TSIB yn ddefnyddiol, yn neilltuol yn nhermau cael rhywun i droi atynt ar gyfer arweiniad:

"Mae achos dros gael adnodd TSIB. Mae'n sicr fod angen cael person proffesiynol sy'n mynd o un undeb credyd i'r llall yn eu helpu i gryfhau eu cyllun busnes cyfredol. Byddai'n helpu rhywun fel fi oherwydd mod i'n aml yn teimlo y gallwn wneud gyda chefnogaeth, rhywun wrth gefn'.

Dros ail hanner 2013 cafodd ymdrechion TSIB eu cyfeirio tuag at hwyluso cynnig ar y cyd i Lywodraeth Cymru ar ran y sector i ddefnyddio'r cyllid

ychwanegol a ddyfarnwyd. Awgrymodd rhai fod hyn wedi gostwng gallu TSIB i gefnogi'r sector yn effeithlon dros y cyfnod gan fod 'yr holl adnoddau wedi symud at yr amcan yma'. Dywedodd un sylwedydd arall fod TSIB 'wedi mynd yn ddistaw yn y cyfnod diweddar'. Soniodd eraill fod TSIB wedi gwneud gwaith da yn y cyswllt hwn ond iddynt fod mewn sefyllfa anodd wrth geisio datblygu cynnig ar y cyd o sylfaen undebau credyd amrywiol iawn. Roedd eraill yn fwy beirniadol gan ychwanegu ei bod yn anghywir gosod sefydliad arall rhwng Llywodraeth Cymru a'r mudiad undebau credyd wrth geisio cynnig am y cyllid ychwanegol yma. Awgrymwyd y dylai TSIB fod wedi gweithio rhwng sefydliadau cyfunol eraill megis ABCUL ac ACE yn hytrach nag yn uniongyrchol gyda phob undeb credyd - gyda rhai yn ystyried fod hynny wedi achosi rhaniadau.

#### *5.5.2 Rhaglen Hyfforddiant Prifysgolion Fetropolitan Caerdydd*

Dywedwyd yn ein hadroddiad interim fod Prifysgol Fetropolitan Caerdydd (Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd yn flaenorol) wedi cynllunio dau gwrs byr i'w cyflwyno i wirfoddolwyr undebau credyd, staff, rheolwyr a chyfarwyddwyr. Fel y bu cyflwynodd Prifysgol Fetropolitan Caerdydd un o'r cyrsiau (y cwrs Rheolaeth a Llywodraethiant) yn fisol o fis Medi 2011 ymlaen gyda chyfuniad o ddarlithwyr mewnol y brifysgol ac arbenigwyr allanol. Roedd 13 o gynrychiolwyr undebau credyd o'r saith undeb credyd wedi mynychu'r sesiynau a chododd adborth gan dri unigolyn y gwnaethom eu cyfweld faterion yn ymwneud â'r llwyth gwaith mawr yn gysylltiedig gyda'r cwrs a rheolaeth wael o'r cwrs gan Brifysgol Fetropolitan Caerdydd.

Ni fu unrhyw alw gan y sector undebau credyd am hyfforddiant pellach gan Brifysgol Fetropolitan Caerdydd yn ystod 2013 ac felly ni chyflwynwyd yr ail gwrs ar gyfer gwirfoddolwyr a gweinyddwyr.

#### *5.5.3 Rheoli Prosiect a Hyrwyddo*

Yn ein Hadroddiad Interim fe wnaethom nodi mai prif elfennau marchnata a hyrwyddo a wnaed yn ystod 2012 fu ymgyrch hysbysebion teledu yn ystod y dydd, rhaglen o sioeau teithio undebau credyd, cynhyrchu a dosbarthu adnoddau megis DVD hyrwyddo a thaflen hyrwyddo gyffredinol a phenodi

cwmni cysylltiadau cyhoeddus (MGB PR o Abertawe) i gynorthwyo gyda sylw yn y wasg a pharatoi astudiaethau achos i'w defnyddio gan y cyfryngau.

Dengys data a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru y gwnaed cyfanswm o 122 galwad i'r llinell gymorth ffôn fel canlyniad i'r hysbyseb teledu gyda 20% ohonynt gan bobl o fewn yr ardal a wasanaethir gan Undeb Credyd Caerdydd a 16% gan bobl o fewn yr ardal a wasanaethir gan Undeb Credyd Gogledd Cymru. Undebau credyd gwledig dderbyniodd y nifer leiaf o ymholiadau gyda chwech heb dderbyn unrhyw alwadau o gwbl. Drwyddi draw, dywedodd undebau credyd iddynt recriwtio 90 aelod newydd fel canlyniad uniongyrchol i'r hysbyseb teledu (ar £123 fesul aelod newydd). Soniodd ACBUL hefyd am gynnydd yn nifer yr ymwelwyr i wefannau undebau credyd Cymru yn ystod y cyfnod lonawr i Fawrth 2012. Er y gallai fod yn wir y byddai peth o'r cynnydd yma wedi digwydd beth bynnag oherwydd y sylw cyffredinol yn y cyfryngau i undebau credyd ddechrau 2012 fel canlyniad i newidiadau deddfwriaethol a sefydlu gwefan newydd ACBUL 'find your credit union'<sup>50</sup>, dywedodd rhai o'r cyfweleion fod y recriwtio yng Nghymru wedi parhau am gyfnod hirach na thueddiadau recriwtio Lloegr.

Yn wahanol i'r data cadarnhaol a gafwyd gan Lywodraeth Cymru, dywedodd undebau credyd a gyfwelwyd ar y pryd mai mai 'llond dwrn' ar y mwyaf o gyfeiriadau a gawsant fel canlyniad i'r ymgyrch hysbysebion teledu. Cydnabuwyd yn gyffredinol mai'r ymgyrch teledu oedd cam mawr cyntaf y prosiect i farchnata darpariaeth undebau credyd yng Nghymru ac er y croesewid hynny, awgrymai rhai nad oedd mewn gwirionedd ond wedi crafu'r wyneb yn nhermau'r hyn oedd ei angen i sicrhau newid sylweddol mewn ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o undebau credyd.

Mynegodd nifer eu pryderon i'r ymgyrch gael ei darlledu ychydig yn hwyr yn y prosiect a beirniadodd eraill ansawdd yr hysbyseb ei hunan. Byddai llawer wedi croesawu ymgyrch hirach.

---

<sup>50</sup> [www.findyourcreditunion.co.uk](http://www.findyourcreditunion.co.uk)

Ers ein Hadroddiad Interim y prif weithgareddau hyrwyddo a gynhaliwyd ar lefel prosiect fu:

- Darlledu hysbyseb radio dros gyfnod Nadolig 2012;
- Cynhyrchu a dosbarthu astudiaethau achos ar undebau credyd;
- Cynhyrchu ail DVD hyrwyddo;
- Cynhyrchu a chylchredeg taflen gyffredinol ar Gynilion a Benthyciadau.

Dywedodd undebau credyd y bu effaith y gweithgareddau hyrwyddo hyn ar recriwtio aelodaeth yn weddol gyfyngedig, heblaw am ychydig o undebau credyd a ganfu'r hysbysebion radio'n ddefnyddiol wrth greu diddordeb yn y cyfnod cyn y Nadolig.

## **5.6 Cyllid SGEI**

### *5.6.1 Gweinyddu cyllid SGEI*

Parhaodd rhanddeiliaid ac undebau credyd i ddweud fod TSIB wedi gweinyddu cyllid SGEI yn effeithlon, ac yn ôl rhai undebau credyd roedd TSIB wedi defnyddio prosesau llawer mwy trylwyr na'r rhai a ddefnyddiwyd gan Ganolfan Cydweithredol Cymru yn ystod y cyfnod cyntaf.

Roedd yn dal i fod yn wir i nifer fechan o undebau credyd, er yn derbyn fod yn rhaid iddynt gyflawni gofynion WEFO am adroddiadau, ddweud fod y gofynion hynny'n rhy feichus ac yn mynd â gormod o amser gan alw am iddynt gael eu symleiddio.

### *5.6.2 Defnyddio Cyllid SGEI*

Dangosodd ein gwaith maes y defnyddiwyd cyllid refeniw SGEI yn bennaf i dalu am gyflogau staff gyda symiau llai wedi'u defnyddio ar gyfer costau gweithredol mewn rhai achosion. Gall cyllid SGEI ffurfio hyd at 50% o incwm rhai undebau credyd, ac roedd barn gonsensws na allai undebau credyd weithredu fel y gwnânt ar hyn o bryd heb y cyllid refeniw yma. Er mai dim ond dau fath o incwm (cyllid SGEI a llog benthyciadau) oedd gan y rhan fwyaf o undebau credyd a gyfwelwyd, roedd ychydig wedi gallu sicrhau ffrydiau incwm

eraill yn cynnwys cyllid Datblygu Gwledig, Cymunedau yn Gyntaf ac awdurdodau lleol.

Roedd y rhan fwyaf o undebau credyd a gafodd gyllid cyfalaf yn ystod y cyfnod cyntaf wedi defnyddio'r cyllid yma i brynu ac adnewyddu safleoedd newydd neu bresennol. Mewn rhai achosion roedd hyn wedi rhoi presenoldeb ar y stryd fawr am y tro cyntaf i rai undebau credyd.

Roedd yr adborth gan undebau credyd yn awgrymu'n gryf na fyddai'r newidiadau hyn yn nhermau staff newydd neu ychwanegol yn ogystal â buddsoddi mewn safleoedd wedi digwydd oni bai am gyllid SGEI.

## **5.7 Datblygiad a Pherfformiad Undebau Credyd**

Mae'r adran yma'n trafod perfformiad ariannol undebau credyd sy'n derbyn cefnogaeth a hefyd undebau credyd nad ydynt yn derbyn cefnogaeth yng Nghymru (Adran 5.7.1) a hefyd yn cyflwyno'r datblygiadau allweddol a weithredwyd ac a brofwyd gan undebau credyd a derbyniodd gymorth dros y flwyddyn ddiwethaf (Adran 5.7.2). Mae wedyn yn ymchwilio ffyrdd y mae undebau credyd yn cydweithio (5.7.3) cyn troi yn olaf i drafod perfformiad a datblygu undebau credyd cyffelyb (5.7.4).

### *5.7.1 Dansoddi Perfformiad Ariannol*

Mae'r adran yma'n adeiladu ar ein dadansoddiad o berfformiad undebau credyd a gynhaliwyd yn ein Hadroddiad Blwyddyn Gyntaf a hefyd ein Hadroddiad Interim. Eto aseswn berfformiad undebau credyd o gymharu â mesur safonol PEARLS<sup>51</sup> a thrafodir pob un o chwe mesur PEARLS ar gyfer y 17 undeb credyd sy'n cymryd rhan yn y prosiect ar lefel Cymru gyfan. Mae'n werth nodi fod nifer o ffactorau yn effeithio ar berfformiad ariannol undebau credyd nid yn lleiaf yr amgylchedd economaidd ehangach y buont yn gweithredu ynddo, ac mai dim ond un ffactor yw'r cyfraniad a wneir gan y

---

<sup>51</sup> Saif PEARLS am Ddiogelu, Strwythur Ariannol Effeithlon, Ansawdd Asedau, Cyfraddau Adennill, Hylifedd ac Arwyddion Twf ('Protection, Effective Financial Structure, Asset Quality, Rates of Return, Liquidity, Signs of Growth').

Prosiect Undebau Credyd. Lle roedd data ar gael, fe wnaethom gymharu perfformiad undebau credyd a gafodd gefnogaeth gydag undebau credyd na chafodd gefnogaeth <sup>52</sup>.

Caiff y mesur cyntaf, Diogelu, ei fesur gan gymhareb solfedd yr undeb credyd h.y. y graddau diogeliad sydd gan undeb credyd ar gyfer cynilion ei aelodau pe byddai'n gorfod mynd i hylifedd. Safon PEARLS yw y dylai asedau net fod yn gyfartal â neu'n fwy na 111% o gynilion (cyfranddaliadau ac adneuon).

Dengys dadansoddiad o'r data:

- Cyflawnodd wyth <sup>53</sup> o'r 17 undeb credyd darged cymhareb solfedd PEARLS <sup>54</sup> ym Medi 2013 (o gymharu gyda naw ym Medi 2012, pump ym Mehefin 2011, dau ym Medi 2010 a dim ym Medi 2009. Roedd dau arall o fewn trwch blewyn (llai na 1%) o gyrraedd y targed yma ym Medi 2013.
- Roedd 12 o'r 17 undeb credyd wedi llwyddo i gynyddu eu cymhareb solfedd rhwng Medi 2010 a Medi 2013 (un yn fwy na'r 11 oedd wedi cyflawni hyn ym Medi 2012);
- O gymharu, cyrhaeddodd pob un o'r pump undeb credyd yng Nghymru na chafodd gefnogaeth gan SGEI gymhareb solfedd PEARLS ym Medi 2013 (cymhareb o 119% ar gyfartaledd) ac mae'r cymarebau hyn wedi parhau'n weddol sefydlog dros y flwyddyn ddiwethaf (gyda'r chwe undeb credyd yng Nghymru na chafodd gefnogaeth SGEI yn sicrhau'r gymhareb solfedd ofynnol ym Medi 2012).

Yn ail, defnyddir dau gyfrifiad i asesu Strwythurau Ariannol Effeithlon undebau credyd - cymhareb benthyciadau net i gyfanswm asedau a chymhareb cyfalaf sefydliadol i gyfanswm asedau. Mae'r gymhareb benthyciadau net i gyfanswm asedau yn mesur y canran o gyfanswm asedau a fuddsoddir i wneud benthyciadau. Mae benthyciadau i aelodau yn cynhyrchu incwm ar gyfer yr

---

<sup>52</sup> Er cysondeb rydym wedi cymharu'r data sydd ar gael ar gyfer y pum undeb credyd rheoli sef Sir y Fflint, BAG (Bargoed ac Aberbargoed), Red Kite, St Therese a Plaid Cymru. Defnyddiwyd Undeb Credyd y Gororau yn ein Hadroddiad Interim ond mae wedi rhoi'r gorau i fasnachu ers hynny.

<sup>53</sup> Undebau credyd Gorllewin Cymru, Dragon Savers, Gateway, Islwyn, LASA, Romcul, Smart Money Cymru a Gogledd Cymru

<sup>54</sup> Pen-y-bont ar Ogwr a Merthyr Tudful

undeb credyd drwy log<sup>55</sup>. Mae targed PEARLS am gymhareb benthyciadau i asedau o 70% i 80%. Mae dadansoddiad o'r data yn dangos perfformiad cyffredinol wan ar y mesur hwn heb unrhyw welliant ers 2010. Yn neilltuol:

- Dim ond dau undeb credyd<sup>56</sup> gyflawnodd y targed 70-80% ym Medi 2013 ac roedd un undeb credyd arall<sup>57</sup> yn agos iawn at gyflawni'r mesur hwn ar 69.6%. Mae hyn yn cymharu gyda thri yn cyflawni'r targed ym Medi 2012<sup>58</sup>. Ni welwyd unrhyw welliant wrth gymharu gyda'r data gwaelodlin ar gyfer Medi 2010<sup>59</sup>.
- Mae perfformiad undebau credyd yn parhau i ostwng ar y mesur yma wrth gymharu data rhwng Medi 2010 a Medi 2013 (h.y. symudodd 11 undeb credyd yr oedd eu cymarebau y tu allan i'r targed a argymhellir ymhellach o'r ystod targed dros gyfnod y prosiect rhwng Medi 2010 a Medi 2013). Mae'n parhau i fod yn achos pryder mawr fod gan bedwar undeb credyd gymhareb<sup>60</sup> dan 30%;
- O gymharu, ni wnaeth dim o'r undebau credyd na dderbyniodd gyllid SGEI y targed 70-80% ym Medi 2013<sup>61</sup> - roedd gan un gymhareb uchel o 84% tra bod gan y gweddill gymarebau rhwng 38% a 55%. Ni fu llawer o newid yn eu perfformiad ers Medi 2012.

Mae Cyfalaf Sefydliadol i Gyfanswm Asedau yn mesur y cyfalaf sefydliadol - neu gronfeydd cadw statudol - a gedwir gan yr undeb credyd fel modd (yn niffyg dim arall) o gyflawni rhwymedigaethau. Mae undebau credyd sy'n cymryd rhan yn y prosiect wedi gwneud gwelliannau derbyniol i'r mesur hwn gyda saith<sup>62</sup> o'r 17 undeb credyd wedi cyflawni targed 10% PEARLS ym mis Medi 2013 o gymharu gyda phump (o 14) ym mis Mehefin 2011, dau ym mis Medi 2010 a dim ym mis Medi 2009. Fodd bynnag mae'n ostyngiad bach o gymharu gyda'r deg<sup>63</sup> a gyflawnodd y targed ym mis Medi 2012. Mae tri

---

<sup>55</sup> Os yw benthyciadau i asedau yn rhy uchel yna gall yr undeb credyd fod yn or-agored i risg ar ad-dalu.

<sup>56</sup> Caerdydd a Save Easy

<sup>57</sup> Casnewydd

<sup>58</sup> Gateway, Casnewydd a Save Easy

<sup>59</sup> Cyflawnodd y tri undeb credyd (Caerdydd, Casnewydd a Save Easy) y mesur hwn ym Medi 2010

<sup>60</sup> Merthyr Tudful, Llyfni, Romcul a Gogledd Cymru

<sup>61</sup> Seiliedig ar y data ar gael ar gyfer pedwar undeb credyd

<sup>62</sup> Gorllewin Cymru, Dragon Savers, Islwyn, LASA, Romcul, Smart Money a Gogledd Cymru

<sup>63</sup> Pen-y-bont ar Ogwr, Credcer, Dragon Savers, Gateway, Islwyn, LASA, Merthyr, Romcul, Smart Money a Gogledd Cymru

undeb credyd yn parhau i adrodd cymarebau isel iawn o dan 3%<sup>64</sup>.

Adroddodd deuddeg undeb credyd i gyd y bu cynnydd yn eu cymhareb cyfalaf-asedau ers Medi 2010.

Yn drydydd, caiff y mesur Ansawdd Asedau ei gyfrif fel darpariaeth dyledion drwg (cyfanswm cymhareb tramgwydd i fenthyciadau). Mae hyn yn mesur y canran o falansau benthygiad ar y llyfrau sy'n agored i ddiffyg a dileu. Targed PEARLS yw na ddylai'r gymhareb tramgwydd fod yn fwy na 5% o fenthyciadau un mis neu fwy mewn ôl-ddyled. Ym Medi 2013, roedd 12 o'r 17 undeb credyd wedi cyflawni'r targed yma (o gymharu gyda 11 ym Medi 2012 a phump (o 14) ym Mehefin 2011). Roedd dau arall o fewn llai na 1% o'r targed yma. Yn gyffredinol roedd lefel dyledion drwg wedi gostwng mewn 10 undeb credyd rhwng Medi 2010 a Medi 2013. Roedd tri a welodd gynnydd yn dal i fod o fewn y trothwy o 5% eto mae'n achos pryder fod pedwar a welodd gynnydd dros y gymhareb dderbyniol.

Yn bedwerydd, caiff y mesur Cyfraddau Adennill ei gyfrif fel cymhareb costau gweithredu i asedau cyfartalog yr undeb credyd. Caiff effeithiolrwydd gweithredol ei fesur drwy gymharu treuliau gydag asedau cyfartalog h.y. y gost yn gysylltiedig gyda rheoli asedau undeb credyd. Targed PEARLS yw 5% neu lai - er fod y sector, sy'n ystyried nad yw hyn yn darged realistig, yn tueddu i weld undebau credyd gyda chymhareb o 15% neu lai fel bod yn sefydliadau effeithiol. Dengys y data diweddaraf sydd ar gael ar gyfer yr undebau credyd mai dim ond un o'r 17 undeb<sup>65</sup> a gyflawnodd darged 5% PEARLS (o gymharu â dim o'r 14 undeb credyd yr oedd data ar gael ar eu cyfer ym Medi 2010). Roedd gan 11 arall gymhareb o lai na 15% (o gymharu gyda deg ym Medi 2011). Roedd perfformiad undebau credyd ar y mesur hwn wedi gwella ym mwyafrif yr achosion ond mewn tri achos mae costau gweithredu'n parhau dros 20% o asedau cyfartalog ac mae'r gymhareb rhwng 15% a 20% mewn tri arall.

---

<sup>64</sup> Casnewydd, Save Easy a Haven.

<sup>65</sup> Islwyn

Yn bumed, mesur Hylifedd undeb credyd yw'r gymhareb daladwy tymor-byr i gyfanswm adneuon. Mae hyn yn mesur os yw undebau credyd yn cadw cronfeydd arian digonol (h.y. i fodloni ceisiadau am godi cynilion a phob rhwymedigaeth talu am y 30 diwrnod nesaf). Bydd targed cymhareb PEARLS ar gyfer cronfeydd arian rhwng 15-20% o gyfanswm adneuon cynilion. Dengys y canfyddiadau na chyflawnodd yr un o'r undebau credyd yr ystod targed yma ym Medi 2013 (er i un wneud hynny ym Medi 2012<sup>66</sup>) ac mae pob un o'r 17 undeb credyd yn dal i fod â llawer iawn mwy o gronfeydd arian nag a ddymunir dan PEARLS, fel oedd yn wir ym Mehefin 2011. Dengys y data fod deg undeb credyd yn dal mwy na 50% o gyfanswm adneuon a bod gan saith fwy na 70% - ni welwyd unrhyw newid gwirioneddol dros gyfnod y prosiect yng nghyswllt y mesur yma. Er fod y sefyllfa hon yn golygu fod gan bob undeb credyd sefyllfa gref o ran hylifedd tymor byr, mae'n dangos ymagwedd orofalus at fenthycia neu anawsterau wrth ddarparu benthyciadau yn ogystal â pherfformiad heb fod cystal ag y gallai fod yn nhermau gwneud i asedau weithio'n effeithiol i'r sefydliad.

Caiff mesur olaf (y chweched) PEARLS, sef Arwyddion Twf, ei gyfrif fel twf yng nghyfanswm asedau'r undebau credyd ac mae'r data'n awgrymu:

- Gwelodd 14 o'r 17 undeb credyd<sup>67</sup> dwf yn eu sylfaen asedau yn ystod y flwyddyn a ddiweddodd ym Medi 2013 mewn termau nominol, o gymharu gyda'r cyfan heblaw un a adroddodd dwf yn ystod y flwyddyn flaenorol i Medi 2012 a lefelau cyffredinol dda o dwf blynyddol ers Medi 2009. Fodd bynnag pan roddir ystyriaeth i chwyddiant a thwf 10% yn safon y diwydiant, dim ond saith undeb credyd a adroddodd gynnydd gwirioneddol mewn sylfaen asedau blynyddol rhwng Medi 2012 a 2013 o gymharu ag wyth a wnaeth hynny rhwng Medi 2011 a 2012. Dros gyfnod y Prosiect Undebau Credyd, mae undebau credyd a ariannwyd gan SGEI wedi cynyddu ychydig yn gyflymach na rhai na chafodd gymorth SGEI - ar mai dim ond twf ychydig yn fwy a fu rhwng 2012 a 2013 (ar 13.9% o gymharu gyda 9.1% er bod cynnydd twf yn ystod 2011-2012 yn fwy amlwg - 18.2% o gymharu gyda 11.7%). O gymharu

---

<sup>66</sup> Gateway

<sup>67</sup> Dim Gorllewin Cymru (neu Credcer fel y'i gelwid yn flaenorol), Haven neu Romcul.

roedd y twf ar draws sylfaen asedau undebau credyd y Deyrnas Unedig dros y cyfnod o chwe mis rhwng Medi 2012 a Mawrth 2013 ar 6.7%<sup>68</sup> yn debyg i un undebau credyd a gefnogwyd.

- Roedd nifer yr oedolion sy'n aelodau wedi tyfu mewn 16 o'r 17 undeb credyd<sup>69</sup> rhwng Medi 2012 a Medi 2013 (o gymharu gyda thwf mewn 15 undeb credyd yn ystod 2011-12<sup>70</sup>, wyth o'r 14 undeb credyd rhwng Medi 2010 a Mehefin 2011 a 11 o 15 rhwng Medi 2009 a Mehefin 2011). Ar gyfartaledd roedd undebau credyd a gefnogwyd wedi profi cyfradd dwf blynyddol o 19%, sy'n cymharu'n ffafriol gyda'r twf o 16% a adroddwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol a gyda'r twf aelodaeth a adroddwyd gan undebau credyd na dderbyniodd gefnogaeth am y flwyddyn yn diweddu ym Medi 2013. Mae hefyd yn cymharu'n ffafriol gyda'r twf aelodaeth o 3.2% a adroddwyd gan ABCUL<sup>71</sup> ar gyfer sector undebau credyd y Deyrnas Unedig am y cyfnod chwe mis rhwng Medi 2012 a 2013.
- Roedd nifer aelodau ifanc wedi cynyddu mewn 13 o'r 17 undeb credyd<sup>72</sup> rhwng Medi 2012 a Medi 2013. Mae hyn yn is na'r 14 undeb credyd a adroddodd dwf yn nifer yr aelodau ifanc yn y flwyddyn flaenorol a ddiweddodd ym Medi 2012 ond uwch nag a adroddwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Ar gyfartaledd profodd undebau credyd a gefnogwyd gyfradd dwf flynyddol o 17% mewn nifer aelodau ifanc - cyfran is na'r 25% a adroddwyd yn y flwyddyn flaenorol ond cyfran uwch o gymharu ag undebau credyd na dderbyniodd gefnogaeth.
- Llwyddodd pob un heblaw un o'r 17 undeb credyd i gynyddu eu portffolio benthyciadau yn y flwyddyn yn arwain at fis Medi 2013 sy'n cymharu'n ffafriol gyda'r 11 a wnaeth hynny yn y flwyddyn yn arwain at fis Medi 2012 a 10 a wnaeth hynny ym mlynnyddoedd blaenorol y prosiect. Gwelwyd cynnydd cyfartalog o 15.6% mewn portffolio benthyciadau blynyddol ymysg undebau credyd a gafodd gefnogaeth yn y flwyddyn yn diweddu Medi 2013 - cyfradd dwf uwch o gymharu

<sup>68</sup> ABCUL Facts and Statistics <http://www.abc.ul.org/media-and-research/facts-statistics> (cyrchwyd 5 Chwefror 2014)

<sup>69</sup> Dim Romcul

<sup>70</sup> Dim Credcer nac Islwyn

<sup>71</sup> ABCUL Facts and Statistics <http://www.abc.ul.org/media-and-research/facts-statistics> (cyrchwyd 5 Chwefror 2014)

<sup>72</sup> Dim undebau credyd Gorllewin Cymru, Dragonsavers, Gogledd Cymru a Chwm Llynfi.

gyda'r 10.8% a adroddwyd yn y flwyddyn yn diwedd Medi 2012.  
Roedd y cynnydd yn cymharu'n ffafriol gyda'r 11% cyfartalog ar draws undebau credyd na dderbyniodd gefnogaeth<sup>73</sup>.

I grynhoi, dengys ein dadansoddiad o berfformiad ariannol undebau credyd fod undebau credyd a gefnogir gan SGEI yn dal yn weddol wan yn nhermau eu strwythurau ariannol (benthyciadau net i gyfanswm asedau), eto'n dal i fod â chostau gweithredu uchel iawn ac yn parhau i gadw mwy o gronfeydd arian parod nag a ddymunid. Er y bu gwelliannau i gymarebau cyfalaf-asedau undebau credyd a gostyngiad mewn darpariaeth ar gyfer dyledion drwg, y darlun cyffredinol a gyflwynwyd gan ddata PEARLS yw un o gynnydd braidd yn gymysg. Fodd bynnag mae'n rhaid ystyried y cynnydd cymysg hwn o fewn yr hinsawdd economaidd ariannol y bu undebau credyd yn gweithredu ynddo ac a effeithiodd ar eu gallu i gynnig benthyciadau i aelodau.

#### *5.7.2 Datblygiadau Allweddol*

Mae'n parhau'n wir fod pob un o'r undebau credyd a gymerodd ran yn y Prosiect Undebau Credyd yn unigryw a bod undebau credyd yn wahanol iawn i'w gilydd o ran eu cynnyrch a'u gwasanaethau yn ogystal â'u sefyllfaoedd ariannol. Er hyn, mae amcanion sylfaenol undebau credyd yn parhau'n debyg a rhoddodd un cyfrannydd grynodeb effeithlon o hyn

'Maen nhw [undebau credyd] am fwy na rhoi arian i rywun ar gyfradd llog resymol. Mae'n ymwneud â'u haddysgu, am eu cael i newid y ffordd y maen nhw'n meddwl am arian. Mae ynglŷn â'u hannog i gynilo. Mae hefyd yn ymwneud â'u cael nhw i ddeall fod angen bod yn gyfrifol wrth gymryd benthyciad. Mae ynglŷn â'u cael nhw i ddeall mai mewn amgylchiadau eithriadol y dylid cymryd benthyciad ac nid fel rheol. Dim ar gyfer talu am wyliau maen nhw ... maen nhw ar gyfer pethau hanfodol. Mae ynglŷn â newid diwylliant y cymunedau yma ... newid y ffordd mae pobl yn meddwl am arian.'

---

<sup>73</sup> Seiliedig ar ddata oedd ar gael ar gyfer pedwar undeb credyd

Dangosodd ein gwaith maes y bu datblygiadau sylweddol ar draws y sector dros y flwyddyn i'r deunaw mis diwethaf a gwelsom y bu newid gwirioneddol mewn agweddau a ffyrdd o feddwl yn nhermau pwysigrwydd cynaliadwyedd ariannol. Yn wir, dywedodd un undeb credyd er na fyddai eu 'ffigurau pennawd' yn awgrymu eu bod wedi gwneud llawer o gynnydd at ddod yn hunangynhaliol, fod agweddau'r bwrdd wedi trawsnewid dros flynyddoedd diweddar a olygai fod ymgyrch gyda llawer mwy o ffocws at ddod yn hunangynhaliol.

Cyflwynir enghreifftiau eraill o'r datblygiadau allweddol a ddigwyddodd ar draws y sector islaw:

Dros gyfnod y prosiect gwnaed gwelliannau sylweddol i safleoedd undebau credyd. Gallodd nifer o undebau credyd brynu safleoedd newydd ar y stryd fawr ac yn awr yn cyflwyno delwedd broffesiynol o'u gweithgareddau i'r cyhoedd. Er hyn mae enghreifftiau'n dal i fod o undebau credyd mewn safleoedd anaddas sy'n tueddu i gadarnhau'r canfyddiad mai banc y tlodion yw undebau credyd. Er enghraifft, roedd un undeb credyd yn dal i fod yn seiliedig mewn caban symudol ac un arall yn dal i weithredu o res o siopau lled-ddiffaith mewn canol dinas. Yn yr achos olaf hwn dywedwyd y byddai'n amhosibl i'r undeb credyd gynyddu ei aelodaeth ymhellach heb gael safle gwell a bod hynny yn amhosibl, heb gael cyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru, oherwydd adnoddau ariannol cyfyngedig yr undeb credyd.

Nododd nifer o undebau credyd eu bod wedi agor mannau casglu newydd dros gyfnod y prosiect a nododd ychydig hefyd eu bod wedi cyflwyno system mwy 'awtomatig' ar gyfer prosesu benthyciadau a gwaith papur. Cafodd hyn ei helpu mewn nifer o achosion lle penodwyd staff am y tro cyntaf fel y dangosir gan yr enghraifft ddilynol:

'Cyn fy swydd byddai'r dalenni casglu o'r holl fannau casglu yn cael eu hanfon atom a byddent yn cael eu gorffen fel a phryd oedd yn bosibl. Nawr cânt eu gwneud yn systematig pan gyrhaeddant y swyddfa: rydym yn eu prosesu cyn gynted ag y cawn ni nhw. Mae'n system llawer gwell. Mae'n fwy llyfn, yn fwy

cydlynol. Rwyf hefyd yn trin y benthyciad o'r dechrau i'r diwedd. Felly am y tro cyntaf, mae'r cyfrifoldebau yn glir ac mae, os hoffech chi, berchnogaeth am bob cais am fenthyciad. Rwy'n gwneud y gwiriadau ar incwm a gwariant ac yn cyflwyno'r wybodaeth i'r Pwyllgor Credyd a nhw sy'n penderfynu. Mae'r hyn rwy'n ei wneud hefyd yn galluogi'r Pwyllgor Credyd i wneud eu gwaith yn fwy effeithiol gan y caiff yr holl waith papur ei orffen ac mae'n barod iddynt erbyn amser eu cyfarfod'.

Dangosodd ein gwaith maes fod pob undeb credyd wedi gallu gweithredu rhai newidiadau i'r gwasanaethau neu gynnyrch a gynigiant, er oherwydd yr amrywiaeth enfawr yn yr hyn oedd eisoes ar gael, mae natur y datblygiadau hyn wedi amrywio'n sylweddol o un gweithrediad i'r nesaf.

Ymysg y datblygiadau diweddaraf i gynnyrch a gwasanaethau undebau credyd unigol y soniwyd amdanynt yn ystod ein gwaith maes yn 2013 roedd:

- Cyflwyno cynlluniau Benthyciadau Teulu a Chyfrifon Cynilo  
Benthyciadau Teulu lle caiff benthyciadau eu darparu a'u had-dalu drwy daliadau budd-dal plentyn a wneir yn uniongyrchol i undebau credyd;
- Cyflwyno cyfrifon cyllideb (er y bu'r galw yn isel hyd yma lle cyflwynwyd y cyfrifon hyn);
- Cyflwyno cardiau debyd rhagdaledig a fu'n hanfodol wrth alluogi i godi arian heb orfod mynd i gangen yr undeb credyd;
- Y gallu i dderbyn taliadau ar fenthyciadau dros y ffôn (mae hyn wedi helpu i ostwng nifer yr achosion o daliadau hwyr gan yr aelodau hynny oedd yn ei chael yn anodd mynd i'r gangen);
- Gwasanaethau ar-lein megis gweld balansau cyfrifon ar-lein a derbyn hysbysiadau ar ffôn symudol (e.e. ar falansau cyfrif);
- Cynlluniau didynnu cyflogres - dywedodd ychydig o undebau credyd eu bod wedi sefydlu cynlluniau didynnu cyflogres newydd gydag awdurdodau lleol a chyflogwyr preifat dros y flwyddyn;

- Sefydlu gwefan (lle nad oedd hyn yn bodoli'n flaenorol) gydag aelodau'n awr yn gallu gwneud cais i ymuno ar-lein a chael balans eu cyfrif.

Mae gwaith undebau credyd gydag ysgolion wedi amrywio. Mae rhai wedi mynd i'r afael yn llawn â hyn (e.e. gallodd un undeb credyd sefydlu 26 man casglu mewn ysgolion, yn cynnwys pob ysgol uwchradd o fewn ardal yr awdurdod lleol), tra bod eraill wedi edrych ar gysylltu gydag ysgolion ar raddfa lawer llai. Dangosodd ein gwaith maes fod gwaith allgymorth mewn ysgolion yn mynd â llawer o amser ac adnoddau undebau credyd ac o'r herwydd cyfaddefodd nifer fach o undebau credyd na fu hyn ar frig eu rhestr blaenoriaethau. Mewn un achos cyfaddefodd undeb credyd na fu gweithio gydag ysgolion yn flaenoriaeth iddynt - 'byddai'n mynd â gormod o'n hamser'. Cadarnhaodd nifer o undebau credyd y pwynt fod gwaith gydag ysgolion yn annhebygol o'u helpu i gyflawni eu nod o fod yn hunangynaliadwy yn y tymor byr i'r tymor canol a galw ar Lywodraeth Cymru i gydnabod fod angen ariannu'r gweithgareddau hyn ar sail barhaol.

Roedd mwyafrif yr undebau credyd yr ymwelwyd â hwy wedi ceisio hyrwyddo cynlluniau didynnu cyflogres yn arbennig i gyflogwyr yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector, er i'w llwyddiant wrth wneud hynny amrywio. Nododd nifer o undebau credyd fod gwaith o'r fath wedi bod yn her e.e. mewn un achos dywedodd undeb credyd y bu'n 'waith caled i fynd i rai awdurdodau lleol a'r Gwasanaeth Iechyd'.

Dangosodd ein gwaith maes rai datblygiadau prosiect unigryw ar draws rhai o'r undebau credyd, yn cynnwys:

- Mewn un undeb credyd gwledig, mae'r sefydliad wedi cyflwyno cyfrifon Cynilion Tanwydd a Chyllideb Tanwydd ar gyfer ei aelodau gyda'r nod o liniaru tlodi tanwydd. Mae'r undeb credyd yn rhedeg syndicâd i brynu cyflenwad olew crynswth yn uniongyrchol gan ddarparu'r olew sy'n rhoi arbedion cost i aelodau a hefyd gyfle i ad-dalu am y tanwydd drwy eu cyfrifon cyllideb.

- Undeb credyd arall yw'r cyntaf yn Ewrop i gynnig cynnyrch cynilo a benthycia i'w aelodau sy'n cydymffurfio â chyfraith Sharia. Yn yr achos yma roedd y gymuned Fwslimaidd wedi cysylltu â'r undeb credyd i ymchwilio os gallai wneud i'w gynnyrch cynilion a benthyciadau gydymffurfio â gofynion cyfraith Sharia. Ers hynny cafodd yr undeb credyd dystysgrif Ysgolorion Sharia i'w alluogi i ddarparu gwasanaethau i'r gymuned Fwslimaidd.
- Mae o leiaf ddau undeb credyd (Pen-y-bont ar Ogwr a LASA) wedi cydweithio gyda charchardai Parc ac Abertawe i sefydlu cynlluniau cynilo ar gyfer carcharorion fel y gall carcharorion arbed y cyflog bach y gallant ei ennill tra'u bod yn y carchar. Mae'r cyllid hwn ar gael iddynt pan gânt eu rhyddhau o'r carchar a chredid y byddai hynny'n ei helpu i ailintegreiddio i'r gymuned. Gobeithid hefyd y byddai'r dull yma'n helpu i ostwng aildroseddu yn syth ar ôl iddynt gael eu rhyddhau o garchar yn neilltuol mewn achosion lle nad oedd budd-daliadau cyn-droseddwrwyr wedi eu cyrraedd eto.

Credai llawer o gyfweleion undeb credyd fod argaeledd cyllid SGEI wedi helpu llawer o undebau credyd i ymestyn eu cynnyrch a gweithredu gwelliannau allweddol i'w gwasanaethau gan gwsmeriaid. Ar ôl dweud hynny mae'n bwysig nodi fod undebau credyd yn cychwyn o sefyllfaoedd gwahanol iawn ac mae'n parhau'n wir fod gwahaniaeth amlwg yn yr amrediad o gynnyrch a gwasanaethau y gellir eu cyrchu ar draws undebau credyd a'r gwasanaethau a ddarperir i gwsmeriaid.

Cydnabu pob un heblaw un o'r undebau credyd yr ymwelwyd â nhw yn ystod y ddau gylch o waith maes y cafodd cyllid SGEI effaith sylweddol ar eu sefydliadau - pwysleisiwyd y bu'r cyllid yn neilltuol o fanteisiol wrth helpu undebau credyd i sefydlu sylfeini busnes cadarn ar gyfer twf. Dywedodd cynrychiolydd undeb credyd o'r fath 'ni fyddem le'r ydym nawr heb y cyllid hwnnw'. Fodd bynnag mae maint y gwelliant a'r llwyddiant a gafwyd ar draws y sector undebau credyd yn amrywio, a wnaeth i rai undebau credyd a rhanddeiliaid holi os oedd 'arian da wedi dilyn arian gwael' ar ôl penderfyniad

Llywodraeth Cymru i ariannu pob undeb credyd, beth bynnag eu perfformiad contract neu sefyllfa ariannol.

Mae adborth o'r tu mewn i'r sector yn awgrymu bod cyllid SGEI wedi galluogi undebau credyd i dyfu o ran cynyddu nifer eu haelodau a'u sylfaen asedau yn ogystal â gostwng lefelau dyledion gwael. Fodd bynnag mae'r darlun yn parhau'n amrywiol o ran hunangynaliadwyedd ymysg undebau credyd er bod nifer o undebau credyd wedi dangos cynnydd dros gyfnod y prosiect. Fodd bynnag, roedd newid allweddol a welwyd yn ystod gwaith maes 2013 yn ymwneud â ffocws uwch ymysg aelodau byrddau a rheolwyr undeb credyd am yr angen i ddod yn ariannol gynaliadwy.

Awgrymodd adolygiad gan TSIB o sefyllfa ariannol undebau credyd a gefnogwyd gan y prosiect a gynhaliwyd dros haf 2013 heb fwy o gefnogaeth ariannol o fis Hydref 2012 yna:

- Byddai un undeb credyd yn hunangynhaliol erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2013;
- Effaith fach iawn fyddai diddymu cyllid Llywodraeth Cymru yn ei gael ar dri undeb credyd arall gan y gallent ostwng eu gwariant ar feysydd penodol o weithgareddau na fyddai'n niweidio eu sefyllfa fasnachu gyffredinol;
- Byddai dau undeb credyd arall oedd yn dangos diffygion ariannol blynyddol fach o £5,000 neu lai yn ei chael yn rhwydd trafod yr effaith;
- Byddai pum undeb credyd yn gallu parhau ar eu lefelau gweithredu cyfredol am gyfnod cyfyngedig oherwydd nerth eu cronfeydd cyfalaf ond byddai eu goroesiad hirdymor yn dibynnu ar os medrent sicrhau twf aelodaeth parhaus a mwy o incwm o weithgaredd benthyciadau er y toriad mewn cyllid refeniw;
- Byddai tri undeb credyd yn ei chael yn anodd masnachu pe byddai cyllid yn cael ei ddileu gan y credid eu bod mewn sefyllfa ariannol fregus iawn oherwydd amrywiaeth o faterion megis dyledion gwael

uchel, colledion ariannol a diffyg cronfeydd cyfalaf wrth gefn. Mae'n debygol y byddai'r tri undeb credyd yma'n peidio masnachu pe byddai'r cyllid yn cael ei ddileu.

Mae'n werth nodi fod dau o'r undebau credyd y bernir eu bod mewn sefyllfa ansicr yn ariannol mewn ardaloedd gwledig ac yn wynebu costau ychwanegol wrth wasanaethu ardal ddaearyddol fawr. Er enghraifft, mewn un achos roedd man casglu na wneid llawer o ddefnydd ohono mewn pentref dan bwysau i gau oherwydd baich talu costau teithio gwirfoddolwr i'w weithredu.

Mae adborth gan yr undebau credyd hynny yr ymwelwyd â hwy yn ystod 2013 yn adleisio'r canfyddiadau hyn ond roedd rhai undebau credyd yn fwy pesimistaidd am eu rhagolygon ariannol gan ddweud y byddai dileu cyllid ar unwaith yn cael effaith sylweddol ar eu gweithgareddau.

Ar ei fwyaf, roedd cyllid SGEI yn cyfrif am tua 65% o incwm un undeb credyd yr ymwelwyd ag ef yn ystod 2013 a gan fod yr undeb credyd yn ei chael yn anodd cynyddu ei fenthycia nid oedd yn ymddangos yn debygol y byddai incwm benthyciadau yn cynyddu yn y dyfodol. Mewn achos arall, roedd cyllid SGEI yn 50% o gostau gweithredu'r undeb credyd. Yn yr achos yma bwriad y bwrdd - pe byddai'r holl gyllid refeniw yn dod i ben - oedd defnyddio cronfeydd cyfalaf i ariannu'r diffyg gweithredu am y cyfnod o ddwy flynedd rhwng Mawrth 2014 a chanol 2016, ac erbyn hynny disgwyliad y byddai'n ariannol gynaliadwy. Mewn achos arall, roedd cyllid SGEI yn cyfrif am tua chwarter costau gweithredu'r undeb credyd ac yn yr achos yma ystyrid fod yr undeb credyd 'fwy neu lai yn hunangynhaliol' er y cydnabyddid y byddai angen benthycia canran uwch o asedau er mwyn bod yn hollol hunangynaliadwy. Mewn achos arall, cyfaddefodd yr undeb credyd y byddent yn 'ymdopi' ond dim ond drwy ddileu rhai swyddi 'ond fe fyddem yn dod drwyddi ... mae gennym gronfeydd wrth gefn eitha da'.

Roedd nifer fach o undebau credyd yn parhau i wneud colled ariannol - mewn un achos adroddwyd colled ariannol o £25,000 yn ystod blwyddyn ariannol 2012/13 fodd bynnag roedd yr undeb credyd yn gobeithio y byddai'n torri'n

wastad yn 2013/14. Adroddodd undeb credyd arall golled o £10,000 ac fel canlyniad nododd y byddai'n debygol o fethu prawf asedau cyfalaf PEARL ar gyfer undebau credyd. Yn yr achos yma cydnabu'r undeb credyd mai camgymeriad fu ehangu ei lyfr benthyciadau yn ddiweddar i gynnig benthyciadau o hyd at £300 i unigolion heb hanes blaenorol o gynilo yn yr undeb credyd gan fod y cynnydd mawr mewn diffygion wedi arwain at gynydd mewn darpariaeth ar gyfer dyledion drwg.

Drwyddi draw mae'r sefyllfa ar ddyledion drwg yn parhau'n amrywiol yn ôl yr undebau credyd yr ymwelwyd â nhw yn ystod 2013 er bod arwyddion clir fod lefelau dyledion drwg yn gostwng. Yn nhermau symud ymlaen, siaradodd nifer o undebau credyd eu bod yn dod yn fwy llym yn y ffordd y rhoddir benthyciadau er mwyn ceisio gostwng dyledion drwg. Gwelodd un undeb credyd ei ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg yn gostwng o 4% i 2.5% o benthyciadau a chredid mai'r prif resymau am y gostyngiad oedd gwella hyfforddiant swyddogion benthyciadau, dileu dyledion drwg ar ôl tri mis yn hytrach na deuddeg mis, gwella rheolau gwarantu a gostwng nifer y benthyciadau i aelodau trydedd haen. Nododd un arall fod lefelau dyledion drwg wedi gwella fel canlyniad i ddefnyddio cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru (ar gyfer £5,000) i ddelio'n benodol gyda'r mater. Mewn trydydd undeb credyd gostyngwyd dyledion drwg o bwynt argyfwng tua dwy neu dair blynedd yn ôl oherwydd newid mewn polisi benthycia ymaith o ddull haelionus oedd i raddau helaeth yn ymateb i angen i ddull yn seiliedig ar allu pobl i ad-dalu'r benthyciad. Fodd bynnag ar ben arall y sbectwm rhoddodd undeb credyd arall lefelau ei ddyledion drwg ar lefel uchel (9%) ac roedd undeb credyd arall wedi gweld cynnydd yn ei ddyledion drwg dros y 12 mis olaf.

Gwyddai undebau credyd am yr angen i gynyddu nifer y benthyciadau mawr a ddyfarnwyd ganddynt, er mwyn rhoi cymhorthdal tuag at gostau gweinyddu benthyciadau llai, os ydynt i ddod yn gadarnach yn ariannol yn y dyfodol. Nododd un undeb credyd o'r fath fod tua 90% o'i benthyciadau ar hyn o bryd ar gyfer llai na £1,000 gan ychwanegu fod gan y benthyciadau bach yr un costau trafodion â benthyciadau mwy. Nododd yr undeb credyd 'os nad yw

undebau credyd yn gynaliadwy, allan nhw ddim cynnig cynnyrch ariannol i bobl sydd wedi eu hallgáu'n ariannol ... mae mor syml â hynny'.

Dywedodd undebau credyd eu bod wedi medru sicrhau twf da yn eu haelodaeth dros gyfnod y prosiect. Gwnaed ymdrechion sylweddol dros tua'r flwyddyn ddiwethaf i ddenu sylfaen aelodaeth ehangach gyda phwyslais neilltuol ar ddenu mwy o aelodau Haen 1 a Haen 2. Yn wir, mae rhai o'r newidiadau a weithredir gan ychydig o undebau credyd (e.e. gwasanaethau ar-lein, cynnig benthyciadau mwy i aelodau gyda llai o risg a hyrwyddo cynlluniau didynnu cyflogres) yn dangos yr ymdrech i apelio at y cynulleidfaoedd hyn. Dywedodd y rhan fwyaf o'r undebau credyd yr ymwelwyd â hwy yn ystod 2013 y bu cynnydd sylweddol yn eu haelodaeth - er enghraifft, soniodd un am gynnydd o 85% yn nifer yr aelodau ers 2010 i lefel gyfredol o tua 2,600 o aelodau gweithgar a bod nifer yr aelodau ifanc wedi cynyddu bedair gwaith drosodd dros yr un cyfnod i tua 650 erbyn 2013. Fodd bynnag, roedd un neu ddau eithriad - dywedodd un undeb credyd yn neilltuol fod twf aelodaeth (yn ogystal â mesurau eraill megis gwerth y llyfr benthyciadau) wedi aros yn ei unfan dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf.

### *5.7.3 Llywodraethiant*

Dynodwyd nifer o enghreifftiau yn ystod ein gwaith maes o welliannau cysylltiedig â llywodraethiant yn 2013 a weithredwyd gan undebau credyd - rhai ohonynt wedi eu cefnogi gan TSIB. Yn wir, nododd rhai undebau credyd iddynt fedru cynyddu ac ehangu profiad eu haelodau Bwrdd. Mewn un achos teimlid fod y Bwrdd wedi ei drawsnewid gyda phenodi cadeirydd a rheolwr newydd dros tua'r flwyddyn ddiwethaf a bod hynny i'w weld yn y ffordd yr oedd yr undeb credyd yn cael ei arwain a'i llywodraethu erbyn hyn. Eto gwelsom achosion lle credai'r undeb credyd iddynt gymryd cam yn ôl yn y cyswllt hwn - mewn un achos credid fod y Bwrdd wedi colli profiad busnes ardderchog oherwydd bod aelod wedi dadrithio gyda chyfyngiadau a diwylliant y sefydliad.

#### 5.7.4 Cydweithio rhwng undebau credyd

Nodwyd yn ein Hadroddiad Interim fod y berthynas rhwng undebau credyd Cymru yn gyffredinol dda er bod cwmpas clir ar gyfer mwy o gydweithio ar draws y sector gan adeiladu ar gynlluniau cydweithio peilot megis y rhai rhwng undebau credyd Smart Money, Gateway, Casnewydd a Merthyr Tudful oedd yn rhannu Swyddog Adennill Dyledion a Swyddog Cydgordio Ariannol (ac yn wir, greu Undeb Credyd Gogledd Cymru). Fe wnaethom hefyd dynnu sylw at y ffaith fod cyflwyno Gorchymyn Diwygio Deddfwriaethol, yn galluogi undebau credyd i ymestyn eu hardal cwlwm cyffredin, wedi arwain at ddiffyg ymddiriedaeth rhwng yr undebau credyd y canfuwyd eu bod yn gweithredu ac yn cystadlu yn yr un ardal.

Amlygodd ein gwaith maes yn ystod 2013 bedwar mater allweddol:

Yn gyntaf, byddai'n ymddangos i'r berthynas rhwng undebau credyd ddod dan bwysau cynyddol yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth Cymru y byddai cyllid ychwanegol ar gael i'r sector oherwydd yr angen i gytuno ymysg ei gilydd pa brosiectau a gyflwynid ar gyfer cymeradwyaeth cyllid. Mae adborth yn awgrymu fod yr angen i'r sector ddod i gytundeb ar y math o gynlluniau y dylid eu cynnwys o fewn cynnig TSIB i Lywodraeth Cymru am gyllid yn y dyfodol wedi achosi problemau. Credir y bu'r trafodaethau ymhell o fod yn broses lyfn a disgrifiodd rhai cyfweleion o undebau credyd y cyfarfodydd a alwyd i geisio cytuno ar yr opsiynau fel 'siop siafins llwyr' oedd wedi agor hen raniadau ar draws y mudiad undebau credyd.

Yn ail, roedd cyswllt parhaus undebau credyd un ai gyda ABCUL neu ACE wedi achosi peth ffraeo o fewn y sector (a waethygydd efallai oherwydd yr angen i gytuno ar sut y dylid defnyddio cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru). Dadleuodd rhai cynrychiolwyr rhai undebau credyd nad oedd cefnogaeth i un neu'r all o'r cymdeithasau masnach wedi bod yn ddefnyddiol iawn yn ystod y trafodaethau. Yn wir, disgrifiwyd y berthynas rhwng ABCUL, ACE a TSIB weithiau fel 'llanast' gyda thybiaeth fod mân ffraeo wedi cyfyngu ar ddatblygiad y mudiad yng Nghymru. Er y byddai'n well gan rai cyfranwyr i TSIB fod wedi gweithio drwy fudiadau presennol ABCUL ac ACE, roedd eraill

yn fwy hydeiml i sefyllfa TSIB o orfod cyflawni tasg anodd. Yn gysylltiedig gyda'r mater yma, roedd rhai cyfranwyr yn bryderus fod y ffaith fod rhai ond nid y cyfan o bell o undebau credyd Cymru yn cymryd rhan yn y Prosiect Ehangu dan arweiniad ABCUL yn ei gwneud yn anos byth i ddatblygu prosiectau penodol Cymru-gyfan drwy gyllid ychwanegol Llywodraeth Cymru.

Yn drydydd, dywedwyd fod tensiwn o fewn y sector wedi cynyddu dros tua'r flwyddyn ddiwethaf oherwydd rhai trafodaethau diweddar ar uno, yn arbennig rhwng undebau credyd Caerdydd a Smart Money a Haven a Gorllewin Cymru. Er bod rhai cyfweleion yn ystyried i'r trafodaethau hyn fod yn fuddiol, nid oedd y naill uniad na'r llall wedi mynd rhagddo.

Yn bedwerydd, bu rhai datblygiadau ar draws fforymau rhanbarthol undebau credyd. Er enghraifft roedd Cangen Gogledd Cymru fwy neu lai wedi dod i ben yn dilyn creu Undeb Credyd Gogledd Cymru ac roedd opsiwn fforwm undebau credyd Cymru-gyfan yn cael ei ymchwilio. Credid y gallai sefydlu fforwm Cymru-gyfan 'iachau'r briw' rhwng undebau credyd a ddaeth i'r amlwg yn ddiweddar. Ar y llaw arall, roedd fforwm gweithgor y Canolbarth, a sefydlwyd ers 2001, wedi parhau i gwrdd a bellach yn cynnwys pedwar undeb credyd Hafren, Red Kite, Aberhonddu a'r Cylch ac yn fwy diweddar Undeb Credyd Gorllewin Cymru. Mae'r pedwar undeb credyd rhyngddynt wedi ffurfio cwmni cyfyngedig gyda golwg ar ymchwilio sut y gellid symud ymlaen â rhannu swyddogaethau swyddfa gefn a marchnata. Roedd y datblygiadau hyn wedi ei gohirio tra bo Undeb Credyd Gorllewin Cymru yn dilyn uniad posibl gyda Undeb Credyd Haven o Sir Benfro ond roeddent wedi ailddechrau eto'n ddiweddar, gyda chefnogaeth cyngorydd TSIB, i ymchwilio sut y gallai'r cwmni cyfyngedig gyflenwi rhai o'r gwasanaethau a hyn a gaiff eu rhannu ar draws y pedwar undeb credyd.

Roedd yn parhau'n wir y cytunodd y rhan fwyaf o'r rhai yr ymgynghorwyd â hwy y gallai mwy o gydweithio rhwng sefydliadau ddigwydd o fewn y sector ac er yr ystyriwyd fod y cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru yn gyfrwng ar gyfer cyflawni hyn mewn egwyddor, mewn gwirionedd mae'r amserlen dyn ar

gyfer defnyddio'r cyllid wedi golygu na fydd y cynlluniau cydweithio wedi pwysu a'u mesur gystal ag y gallent fod.

#### *5.7.5 Undebau Credyd Cyffelyb: Negeseuon Allweddol*

Er i ni ddefnyddio data perfformiad ariannol o undebau credyd yng Nghymru na chafodd gefnogaeth yn yr adran flaenorol, sylweddolwn y gall data o'r fath fod wedi ei wro gan y byddai gan yr undebau credyd hynny na chymerodd ran yn y prosiect broffil gwahanol ac uchelgeisiau twf i rai a gefnogir e.e. gallant fod yn llai tebygol o fod eisiau tyfu neu fod yn well ganddynt ddatblygu'n organig heb ymyriad y llywodraeth, Felly cyflwynwn rai o'r prif ganfyddiadau o'n gwaith maes a gynhaliwyd yn ystod 2012 a 2013 gydag undebau credyd rheoli (dwy yn seiliedig y tu allan i Gymru) yn yr adran yma.

Newidiadau mewn Aelodaeth: Mae pob un o'r tri undeb credyd cyffelyb wedi gweld twf yn yr oedolion sy'n aelodau ohonynt mewn blynyddoedd diweddar. Bu twf cyflym yn y ddau undeb credyd yn Lloegr mewn blynyddoedd diweddar, gyda'r undeb credyd cyntaf wedi cynyddu ei aelodaeth bedair gwaith drosodd rhwng 2004 a 2012 (o 800 i 3,500) ond gyda thwf mwy cynnil mewn aelodaeth yn 2013. Mae'r ail undeb credyd wedi sicrhau 8,500 o aelodau oedolion (cynnydd o 13% dros y llynedd) a sylfaen asedau o £5.2 miliwn (cynnydd o 30% o'i sylfaen £4 miliwn yn ystod 2012).

Bu twf llai a mwy organig yn nifer aelodau'r undeb credyd cyffelyb o Gymru dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf ar tua 100-200 o aelodau ychwanegol y flwyddyn gyda'i aelodaeth gyfredol tua 3,000. Barnwyd bod tua'u hanner yn fenthycwyr ar hyn o bryd ac ychydig dros 400 yn aelodau ifanc. Roedd yr undeb credyd yma'n trin y twf mewn aelodaeth yn ofalus er mwyn sicrhau y gallai ymdopi gyda'r galw ychwanegol a ysgogwyd. Roedd hynny wedi digwydd i raddau helaeth ar ôl i'r undeb credyd ehangu ei ardal cwlwm cyffredin gydag aelodau newydd yn bennaf yn dod i glywed am yr undeb credyd drwy sianeli anffurfiol megis rhai llafar .

Priodolodd y ddau undeb credyd o Loegr lawer o'i dwf cyflym cynharach i Gronfa Twf yr Adran Gwaith a Phensiynau. Roedd hyn wedi creu problemau

i'r ddau ohonynt - dywedodd yr undeb credyd gyntaf fel canlyniad i'r Gronfa Twf fod mwyafrif eu haelodau bellach o gefndiroedd cymharol amddifadus a dywedodd y ddau undeb credyd mai eu hamcan allweddol wrth symud ymlaen oedd cael proffil aelodaeth fwy cytbwys. Yn fwy diweddar priodolodd yr ail undeb credyd (a welodd dwf sylweddol yn ystod 2013) lawer o hyn i gymryd rhan gyda'r arian breiniol lleol oedd newydd ei gyflwyno o fewn y ddinas lle'r oedd yn seiliedig. Roedd y cynllun hyd yma wedi cynnwys tua 400 o siopau a thua 900 o gyfrifon cwsmeriaid a'r arian breiniol mewn cylchrediad yn cael ei ddal gan yr undeb credyd. Gallai symud i safle newydd a mwy o le i ddarparu ar gyfer pump yn fwy o wirfoddolwyr wedi bod yn ffactor arall ar gyfer yr undeb credyd yma.

Hunangynaliadwyedd: Roedd y tri undeb credyd cyffelyb mewn sefyllfaoedd gwahanol yn nhermau hunangynaliadwyedd: roedd yr undeb credyd cyffelyb yng Nghymru yn parhau i fod yn hollol hunanddigonol gan yr ystyriai ei hunan yn bennaf fel sefydliad dan arweiniad gwirfoddolwyr gyda gorbenion a chostau staffio isel iawn. Yn wir roedd yr undeb credyd wedi adrodd elw ar gyfer blwyddyn ariannol 2012-13. Roedd y twf a brofwyd gan yr undeb credyd yn cael ei reoli'n ofalus gydag amcan clir o beidio bod eisiau gwanhau ei ethos creiddiol o ddarparu gwasanaeth i aelodau'r gymuned. Mewn gwirionedd roedd yr angen i gadw'r ethos yma ac amcanion cysylltiedig wedi golygu na ddymunai'r undebau credyd ddod yn ddibynnol ar gyllid grant refeniw gan Lywodraeth Cymru er adeg ein gwaith maes roedd yr undeb credyd yn trafod defnyddio buddsoddiad cyfalaf Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygiadau cysylltiedig â thechnoleg gwybodaeth.

Mynegodd y ddau undeb credyd cyffelyb o Loegr ddymuniad i ddod yn sefydliadau hunangynhaliol. Yn yr ail undeb credyd, roedd y bwrdd cyfarwyddwyr ag ymrwymiad neilltuol i ddatblygu'r sefydliad i fod yn hunangynhaliol a medrid dadlau eu bod yn nes at y pwynt yma na'r ail gan fod mwyafrif llethol ei incwm ar hyn o bryd yn dod o log benthyciadau a ffioedd. O gymharu, roedd yr undeb credyd gyntaf yn parhau i ddibynnu ar gefnogaeth uniongyrchol ac anuniongyrchol ei awdurdod lleol gan fod y Cyngor yn talu am gyflogau ac argostau dau aelod o staff yn ogystal â darparu safle di-rent a

gwasanaethau technoleg gwybodaeth am ddim. Yn y flwyddyn ddiwethaf roedd y Cyngor yn yr achos yma wedi darparu safle newydd i'r undeb credyd mewn lleoliad yng nghanol tref. Er y bu twf cynnil yn yr undeb credyd dros y flwyddyn ddiwethaf yn nhermau ei lyfr benthyciadau a chynilion a fuddsoddir, teimlid fod cwmpas yn dal i fod i gynyddu'r llyfr benthyciadau a sicrhau cynaliadwyedd ar sail twf cyson parhaus. Fodd bynnag gallai'r amserlen ar gyfer cyflawni'r amcan yma gymryd tair blynedd ond hyd yn oed fwy (efallai pump neu chwe blynedd) pe byddai'r Cyngor yn dileu'r holl gefnogaeth ariannol ar ffurf safle di-rent.

Roedd yn parhau i fod yn wir yn ystod ein gwaith maes yn 2013 fod yr undeb credyd cyntaf angen cynyddu ei gymhareb benthyciadau i asedau a chynyddu benthycia i 'safon well o fenthycwyr'. Yn yr achos yma roedd yr undeb credyd wedi penderfynu cymryd rhan ym Mhrosiect Ehangu'r Adran Gwaith a Phensiynau, er rhai amheuon dechreuol am wneud hynny oherwydd eu profiad negyddol blaenorol o Gronfa Twf yr Adran Gwaith a Phensiynau a arweinodd at iddynt gymryd mwy o gwsmeriaid Haen 3 heb ystyried eu cynaliadwyedd tymor hirach. Wrth gymryd rhan yn y Prosiect Ehangu bwriadai'r undeb credyd dyfu ei aelodaeth a thorri costau - i raddau helaeth drwy symud yn fwy tuag at wasanaethau ar-lein (a fyddai hefyd yn arwain at ddenu math newydd o gwsmeriaid fyddai yn gyfarwydd â defnyddio gwasanaethau ariannol ar-lein). Penderfynodd yr undeb credyd ymuno â Phrosiect Ehangu'r Adran Gwaith a Phensiynau - nid yn gymaint ar gyfer yr incwm ariannol - ond yn hytrach oherwydd bod y targedau a osodwyd yn rhai yr oedd angen i'r undeb credyd eu dilyn ar gyfer ei gynaliadwyedd ei hun ac ystyriwyd ei fod yn ffordd effeithlon o'u hannog i symud yn y cyfeiriad y dymunent fynd ynddo beth bynnag.

Cynnyrch a Gwasanaethau: Yn yr un modd â sefyllfa undebau credyd a gefnogwyd gyda SGEI, roedd gwahaniaeth sylweddol yn yr ystod o gynnyrch a gwasanaethau a gynigir ar draws y tri undeb credyd cyffelyb.

Gwelsom fod y cynnyrch oedd ar gael yn yr undeb credyd cyffelyb yng Nghymru yn dal i fod wedi'u cyfyngu i gynilion a benthyciadau

traddodiadol/cyffredin er bod yr undeb credyd wedi cyflwyno ychydig o newidiadau yn ddiweddar megis cyflwyno cynllun cerdyn man talu i alluogi aelodau i dalu i'w cyfrifon ar bwyntiau dynodedig a chynnig gwneud taliadau BACS i gwsmeriaid. Cafodd y cerdyn pwynt talu dderbyniad da ond roedd y defnydd o daliadau BACS yn is na'r disgwyl.

Yn yr undeb credyd cyntaf yn Lloegr, ni fu unrhyw newidiadau sylweddol i'r gwasanaethau a gynigiwyd dros y flwyddyn ddiwethaf. Yn y sefydliad yma cydnabuwyd fod diffyg unrhyw wasanaethau ar-lein i aelodau yn wendid gwirioneddol. Y prif fater i'r undeb credyd yma oedd ei ddibyniaeth ar wasanaethau technoleg gwybodaeth y Cyngor oedd yn ei letya gan na allent ddarparu ar gyfer y feddalwedd angenrheidiol ar gyfer gweinyddu gwasanaethau ar-lein.

Roedd yr ail undeb credyd yn cynnig ystod eang o wasanaethau yn cynnwys Cyfrif Cyfredol Undebau Credyd (CUCA), cyfrifon 'pot jam' ar gyfer neilltuo rent ar gyfer landlordiaid preifat a chyfrifon cynilion a benthycia sy'n debyg i'r darpariaethau sydd ar gael o fewn y rhai mwyaf datblygedig o'r undebau credyd sy'n derbyn cefnogaeth yng Nghymru. Dros y flwyddyn ddiwethaf mae'r undeb credyd yma hefyd wedi cyflwyno ISAs arian yn cynnig llog cymharol isel a dim ond ar gael i aelodau presennol - ac yn bwriadu lansio cyfrif benthyciad cyflogres ar gyfer staff y cyngor dinas lleol.

Cryfderau a Gwendidau: Dywedodd y ddau undeb credyd o Loegr mai eu prif gryfderau oedd eu haelodau Bwrdd ymroddedig a blaengar iawn yn ogystal â staff galluog a medrus. Yn ddiddorol, dywedodd un bod y diffyg ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd yn wendid a chyfeiriodd un arall at ddelwedd wael o undebau credyd gan y tybid eu bod yn 'fanc y tlodion'.

Yn ystod ein gwaith maes yn 2013 mae'n ddiddorol i un o'r undebau credyd yn Lloegr sefydlu paneli cynghori ad-hoc fel modd o ddefnyddio arbenigedd lleol heb ei gwneud yn ofynnol i unigolion roi'r ymrwymiad angenrheidiol i ddod yn aelodau Bwrdd. Dywedwyd fod hyn yn ddull defnyddiol i gynorthwyo'r

Bwrdd i drafod materion penodol megis proffidioldeb a systemau ar sail gorchwyl a gorffen.

Mae'n ddiddorol nad oedd y naill na'r llall o'r undebau credyd yng Nghymru wedi medru symud ymlaen â'u perthynas gyda chymdeithasau tai i ddatblygu cyfrifon cyllideb i raddau helaeth oherwydd diffyg brwdfrydedd ar ran darparwyr tai. Roedd un o'r undebau credyd hyn yn fwy optimistig am y dyfodol ar gyfer y cyfle hwn, gan gredu mai dim ond mater o amser oedd hi cyn y byddai darparwyr tai yn gorfod cytuno i ddefnyddio gwasanaethau contract ar gyfer neilltuo rhent.

### **5.8 Adborth gan gwsmeriaid undebau credyd**

Cyfwelwyd â chroestoriad o 36<sup>74</sup> o aelodau undebau credyd mewn saith undeb credyd yn ystod ein gwaith maes yn 2012 a 2013.

Gwelsom fod aelodau wedi clywed am eu hundeb credyd mewn amrywiaeth o ffyrdd ond y dull mwyaf poblogaidd oedd un llafar - mewn llawer o achosion roedd aelodau'n adnabod aelod arall, aelod o staff neu wirfoddolwyr cyn ymuno. Dywedodd nifer fach o'r rhai a gyfwelwyd eu bod wedi mynychu cyflwyniad am yr undeb credyd yn eu man gwaith neu mewn lleoliad cymunedol megis eglwys leol. Roedd y rhesymau am ddefnyddio'r undeb credyd hefyd yn gymysg gan fod tua hanner y rhai y gwnaethom siarad â nhw yn ystyried eu hunain yn gynilwyr tra mai prif ddiben yr aelodau eraill am ddefnyddio eu undeb credyd oedd benthyca. Gwnaethom hefyd siarad gyda un neu ddau o aelodau oedd yn holi am wasanaethau'r undeb credyd ar ran perthynas e.e. aelod a ddaeth i'r gangen y diwrnod hwnnw ar ran ei mab i gael ffurflen gais ar gyfer benthyciad.

Fel gyda'n gwaith maes yn ystod 2012, dywedodd aelodau mai un o gryfderau undebau credyd oedd staff a gwirfoddolwyr cyfeillgar a allai gynnig gwasanaeth personol, yn neilltuo o gymharu gyda banciau prif ffrwd: 'mae'r staff yn neisiach ... dydyn nhw ddim yn edrych i lawr eu trwyn arnoch chi' a

---

<sup>74</sup> 25 yn ystod 2012 ac 11 yn ystod 2013

'maent yn gwybod beth yw eich enw ... a'ch rhif [aelodaeth]'. Credid mai prif nerth arall yr undeb credyd oedd arferion benthycia moesegol a chyfraddau llog isel ar fenthyciadau o gymharu gyda'r dewisiadau eraill, er enghraifft dywedodd un aelod 'mae'r cyfraddau llog yn wych ... allech chi ddim ei gael yn rhatach unrhyw le ... ac mae'r benthyciadau cyflym ar y teledu yna yn dwyn oddi arnoch chi.'. Roedd rhai'n barod i gyfaddef fod y banciau prif ffrwd wedi eu gwrthod ar gyfer benthyciadau ond bod yr undebau credyd wedi bod yn barod i gynnig benthyciad iddynt.

Mae ychydig o astudiaethau achos yn darlunio'r pwyntiau hyn:

#### **Astudiaeth Achos Aelod A**

Roedd y fam ifanc yma, gyda dau o blant ifanc ac roedd yn derbyn budd-daliadau, wedi dod i gysylltiad gyda'r undeb credyd drwy ffrind oedd wedi gwirfoddoli yno yn y gorffennol. Roedd angen benthyciad bach ar y pryd ac wedi cael benthyciad o £500 gan yr undeb credyd ar y ddealltwriaeth ei bod yn agor cyfrif cynilo gyda hwy'r un pryd. Cytunodd i'w budd-dal plant gael ei dalu i'w chyfrif cynilo ac y gallai'r undeb credyd ddefnyddio hynny i ad-dalu'r benthyciad yn rheolaidd. Mae wedi ad-dalu'r benthyciad i gyd ond mae ei thaliadau budd-dal plant yn dal i gael eu talu i'w chyfrif undeb credyd a dywedodd ei bod yn ddefnyddiol cadw'r arian yma ar wahân i'r arian yn ei chyfrif banc.

#### **Astudiaeth Achos Aelod B**

Roedd y fenyw yma yn ei thridegau cynnar wedi clywed am yr undeb credyd drwy ffrind. Roedd angen cefnogaeth ariannol i helpu talu am gost angladd ei mam, oedd newydd farw. Roedd yr undeb credyd wedi gwneud eithriad i'r rheol yn yr achos yma ac wedi rhoi benthyciad ymlaen llaw iddi, heb fod angen iddi agor cyfrif cynilo a rhoi arian o'r neilltu yn gyntaf. Yn yr achos yma gallodd y cwsmer ad-dalu ei dyled mewn pryd ar gyfer y Nadolig, ac roedd wrth ei bodd gyda hyn. Roedd yn fodlon iawn gyda'i phrofiad o'r undeb credyd ac wedi gwerthfawrogi'r cysylltiad personol wyneb i wyneb gyda staff a gwirfoddolwyr.

Roedd mwyafrif helaeth yr aelodau y gwnaethom siarad â hwy yn ystod 2012 a 2013 yn fodlon gyda'r gwasanaethau a gynigiodd eu hundeb credyd a chyfeiriodd nifer at welliannau diweddar i un ai safle'r undeb credyd neu'r gwasanaethau a gynigir. Awgrymodd ychydig o aelodau y gellid gwneud mwy o welliannau, yn neilltuol am leoliad canghennau (e.e. diffyg cyfleusterau parcio gerllaw, agosatrwydd at y safle bws a siopau'r stryd fawr) yn ogystal ag ymestyn oriau agor undebau credyd a darparu gofod cyfweld preifat ar gyfer trafod materion ariannol personol.

#### **Astudiaeth Achos Aelod C**

Ymunodd y dyn yma â'i undeb credyd lleol flwyddyn neu ddwy yn ôl ar ôl cael ei gyflwyno i gysyniad cynllun didynnu cyflogres yn ei fan gwaith - cyflogwr mawr yn y sector preifat. Penderfynodd ymuno ac agor cyfrifon cynilo gyda'r undeb credyd am fod ei ffrindiau i gyd yn cymryd rhan 'roedd pawb yn gwneud'. Daliodd ati i gynilo'n fisol ac roedd wedi dechrau gwerthfawrogi'r ffaith fod ganddo gyfrif cynilo ar wahân i'w ddefnyddio fel y dymuna: 'mae'n braf cael ychydig o arian wedi'i osod o'r neilltu'. Mae'n tueddu i ddefnyddio'r cynilon ar gyfer 'penwythnosau i fwrdd' neu 'barti Nadolig y gwaith' heb i hynny effeithio ar ei gyllideb bob dydd. Roedd yr aelod yn hapus iawn gyda'r gwasanaeth gan ychwanegu fod ei brofiad o agor y cyfrif a chodi'r arian yn syml a didrafferth. Fodd bynnag, gan ei fod yn gweithio, byddai'n hoffi gweld yr undeb credyd yn agor am fwy o oriau - efallai ar agor tan ddiwedd y diwrnod gwaith ar 5 neu 5.30pm un neu ddau ddiwrnod yr wythnos.

#### **Astudiaeth Achos Aelod D**

Dyn yn ei 40au mewn gwaith llawn-amser a fu'n defnyddio'r undeb credyd fel banc. Fe'i denwyd at undebau credyd gan fod ei wraig yn Wyddeles a 'maen nhw gyd yn defnyddio undebau credyd yn lle banciau draw yno'. Roedd yn bwysig i'r aelod yma fod arian yn aros o fewn ei gymuned ac y gwneid defnydd da ohono. Nid yw'n ymddiried mewn banciau prif ffrwd ac yn ystyried undebau credyd yn fwy cadarnhaol. Teimlai y gellid gwneud gwelliannau i'w undeb credyd arbennig ef megis defnyddio mwy ar gardiau (yn hytrach na phaslyfrau traddodiadol) a phrosesau ar-lein ac electronig megis ceisiadau ar-lein am fenthyciadau a throsglwyddo arian yn electronig.

## **6 ASESU'R HYN A GYFLAWNWDYD**

### **6.1 Cyflwyniad**

Yn y bennod yma yn gyntaf trafodwn (yn Adran 6.2) i ba raddau y cafodd yr argymhellion a wnaed yn ein hadroddiad blwyddyn gyntaf eu rhoi ar waith cyn troi i ymchwilio i ba raddau y mae'r prosiect ar y llwybr i gyflawni'r targedau a osodwyd yng Nghynllun Gweithredu Undebau Credyd Cymru (Adran 6.3). Yn adran 6.4 trafodwn werth am arian y prosiect undebau credyd.

### **6.2 I ba raddau y gweithredwyd argymhellion yr Adroddiad Interim**

Gwnaeth ein Hadroddiad Interim gyfanswm o saith argymhelliad ac yn yr adran yma trafodwn i ba raddau y gweithredwyd pob un.

**Yn gyntaf**, fe wnaethom argymhell fod Llywodraeth Cymru yn egluro ei blaenoriaethau ar gyfer undebau credyd a darpariaeth gwasanaethau ariannol i unigolion sydd wedi eu hallgáu er mwyn gostwng y gwrthdaro cyfredol mewn gofynion ar y sector.

Yn ein barn ni, er bod Llywodraeth Cymru wedi parhau i ddangos ei chefnogaeth i'r sector ar lefel gyffredinol nid yw wedi egluro ei blaenoriaethau ar gyfer undebau credyd. Yn wir byddem yn dadlau fod angen brys am ddatganiad polisi clir gan Lywodraeth Cymru ar sut y mae'n dymuno gweld y sector undebau credyd yn esblygu yn y dyfodol.

**Yn ail** (yng ngoleuni'r argymhelliad cyntaf ac yn amodol ar bwysau ar y gyllideb) fe wnaethom argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i ddarparu cyllid parhaol ar gyfer darparu gwasanaethau ariannol i bobl sydd wedi eu hallgáu'n ariannol ond y dylai gynnal astudiaeth cwmpas i ymchwilio os y byddai sefydliadau eraill perthnasol (h.y. gyda thrwydded FSA) yn barod i dendro ar gyfer darparu gwasanaethau o'r fath ynghyd ag undebau credyd.

Gweithredodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad yma'n rhannol, gan y darparwyd cyllid hyd fis Mawrth 2017 i'r sector yn ôl am ddarparu gwasanaethau ariannol i bobl sydd wedi eu hallgáu. Fodd bynnag mae wedi parhau gyda'r model presennol o ddarpariaeth drwy'r mudiad undebau credyd heb ystyried os gallai dulliau eraill fod yn fwy effeithlon o ran cost.

Roedd ein **trydydd** argymhelliad yn ymwneud â datblygu rhwydwaith cynaliadwy yn ariannol o undebau credyd ar ôl 2013. Pe byddai Llywodraeth Cymru yn penderfynu bod hyn yn amcan polisi ynddo'i hun, credwn fod angen defnyddio dull mwy cadarn i sicrhau gwell gwerth am arian, gyda chyllid ar gyfer y diben hwn yn cael ei ddyrannu ar wahân i unrhyw gyllid ar gyfer gwasanaethau i bobl sydd wedi eu hallgáu'n ariannol ac yn cael ei ddarparu ar sail tapr llym.

Yn ein barn ni nid yw Llywodraeth Cymru wedi dangos yn bendant ei bod yn dymuno mabwysiadu'r amcan polisi yma eto mae darparu cyllid ychwanegol ar gyfer y sector yn awgrymu fod yr agenda yma'n cael ei ddilyn yn ddealliedig. Canfu ein gwaith maes mai'r cyfan a wnaeth Llywodraeth Cymru yw ymestyn y trefniadau ariannu blaenorol ar gyfer y cyfnod tymor byr hyd fis Mawrth 2014 er bod trefniadau llymach wedi eu rhoi ar waith gydag un undeb credyd oedd mewn anawsterau. Mae'n parhau'n wir felly fod angen mwy o eglurdeb polisi ar y mater hwn ac os mai'r nod yw sicrhau undebau credyd a all weithredu heb gymhorthdal yn y tymor hwy y dylai cyllid yn y dyfodol gael ei gysylltu'n well gyda pherfformiad effeithlon yn nhermau twf a sicrhau cynaliadwyedd ariannol dros y tymor canol.

**Yn bedwerydd**, fe wnaethom argymhell fod y prosiect, drwy TSIB y darparwyd a gafodd contract, yn parhau i roi cefnogaeth gyda llywodraethiant a chydymffurfiaeth i undebau credyd am weddill cyfnod y prosiect.

Gweithredwyd yr argymhelliad yma.

**Yn bumed**, fe wnaethom argymhell fod yr undebau credyd hynny oedd wedi cyflawni eu targedau cyllid SGEI contract yn cael mwy o hyblygrwydd gan

Llywodraeth Cymru i ddenu sylfaen aelodaeth ehangach a chynyddu eu portffolio benthyciadau e mwyn hybu eu gallu i sicrhau cynaliadwyedd hirdymor.

Mae adborth gan undebau credyd yn awgrymu y gwnaed hyn ac mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi mwy o ryddid i undebau credyd recriwtio aelodau o haen 1 a hefyd haen 2 - fodd bynnag mae'r graddau y bu gwelliant yng nghynaliadwyedd ariannol undebau credyd wedi amrywio rhwng un undeb credyd a'r llall.

Roedd ein **chweched** argymhelliad yn ymwneud â'r angen i ganolbwyntio marchnata prosiect ar gynyddu dealltwriaeth pobl o undebau credyd a denu sylfaen aelodaeth ehangach i'r mudiad undebau credyd yng Nghymru. Fe wnaethom hefyd argymhell y dylid rhoi ystyriaeth i gryfhau'r brand undeb credyd cyffredin ar gyfer Cymru.

Yn ein barn ni mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i wneud ymdrech gymedrol drwy'r prosiect i gynyddu ymwybyddiaeth o undebau credyd ond mewn gwirionedd ni wnaed unrhyw gynnydd sylweddol yng nghyswllt brand cyffredin: yn wir, ymddengys fod datblygiadau diweddar wedi cynyddu rhwygiadau rhwng gwahanol undebau credyd yng Nghymru.

Yn olaf roedd ein **seithfed** argymhelliad yn canolbwyntio ar yr angen i'r prosiect roi cefnogaeth i undebau credyd fynd i'r afael â gwendidau allweddol mewn perfformiad ariannol, yn neilltuol o amgylch dyledion drwg a gostwng costau gweithredu.

Credwn fod TSIB wedi rhoi cefnogaeth addas yn y cyswllt hwn, er bod nifer yr undebau credyd a fanteisiodd ar y gefnogaeth fanwl oedd ar gael yn weddol isel. Dengys ein dadansoddiad o ddata PEARLS y gostyngwyd lefelau dyledion drwg ac mae tystiolaeth yn awgrymu fod y rhan fwyaf o undebau credyd yn dangos arwyddion o welliant ariannol (er eu bod yn aml yn methu sicrhau cydbwysedd addas rhwng cynilion a benthycia).

### 6.3 I ba raddau y mae'r prosiect yn cyflawni targedau'r Cynllun Gweithredu Undebau Credyd

Dengys dadansoddiad o rifau aelodau undebau credyd yng Nghymru<sup>75</sup> y bu cynnydd o ychydig dan 19,000 aelod ers dechrau'r prosiect ym Medi 2010 - o 41,571 i 60,772 erbyn Medi 2012 (gweler Ffigur 7). Mae hyn yn cynrychioli cynnydd blynyddol o 10.8% ar gyfer 2010/11, 12.4% ar gyfer 2011/12 a 16.6% ar gyfer 2012/13. Wrth ystyried y data ar gyfer undebau credyd gyda chontract SGEI yn unig, roedd y cynnydd blynyddol yn 2010/11 ychydig yn uwch ar 12.8% tra bod y cynnydd ar gyfer 2011/12 a 2012/13 yn sylweddol uwch ar 19.0% a 18.2%. Mae cynnwys dau undeb credyd a ymunodd â'r prosiect rywbryd yn ystod y cyfnod yn gwyro rhywfaint ar y data - roedd gan Llynfi ac Islwyn ychydig dros 2,000 o aelodau ym Medi 2011 pan adroddwyd arnynt fel undebau credyd nad oedd yn derbyn cefnogaeth ac ychydig dros 2,100 o aelodau ym Medi 2012 pan adroddwyd arnynt fel undebau credyd yn derbyn cefnogaeth. Gellir priodoli'r holl ostyngiad yn nifer aelodau undebau credyd na dderbyniodd gefnogaeth yn ystod 2011/12 i'r newid yma.

*Ffigur 7: Newidiadau yn nifer yr oedolion sy'n aelodau o Undeb Credyd*

|                                                               | Medi 10 | Medi 11 | Medi 12 | Medi 12 |
|---------------------------------------------------------------|---------|---------|---------|---------|
| Cyfanswm nifer oedolion yng Nghymru sy'n aelodau undeb credyd | 41,572  | 46,062  | 51,752  | 60,344  |
| Ymdreiddiad marchnad undebau credyd <sup>76</sup>             | 1.69%   | 1.84%   | 2.08%   | 2.41%   |
| Aelodaeth undebau credyd gyda chontract SGEI                  | 34,970  | 39,437  | 46,945  | 55,494  |
| Aelodaeth undebau credyd heb gontract SGEI                    | 6,602   | 6,625   | 4,807   | 4,850   |


Yng ngoleuni cyfradd y cynnydd yn nifer aelodau undebau credyd dros y ddwy flynedd ddiwethaf ymysg undebau credyd a ariannwyd gan SGEI, nid yw'n ymddangos yn bosibl y medrid cyflawni targed Cynllun Gweithredu Undebau Credyd o recriwtio 142,000 o aelodau erbyn 2010 (ac felly ymdreiddiad o tua 6%). Fodd bynnag, bydd hyn yn dibynnu ar gynnydd blynyddol yn parhau ar gyfradd debyg i flynyddoedd diweddar (gan gynrychoili cynnydd blynyddol o rhwng 10,000 a 12,500 o aelodau - gweler Ffigur 8) ac

<sup>75</sup> Darparwyd gan TSIB

<sup>76</sup> Fel cyfran o'r holl boblogaeth 16+ a ddarparwyd gan ONS. Cyfanswm y boblogaeth 16+ yng Nghyfrifiad 2011 oedd 2.507 miliwn

nid yw'n glir os medrir cyflawni hyn os daw cyllid cyhoeddus i ben neu os caiff ei ostwng yn sylweddol. Mae hefyd yn tybio na fydd unrhyw ostyngiad yn nifer yr aelodau a gaiff eu denu i undebau credyd na chânt eu hariannu gan SGEI, wrth gwrs.

*Ffigur 8: Aelodaeth Undebau Credyd gyda Chontract SGEI - Targedau Gofynnol*



Nid yw Cynllun Gweithredu yr Undebau Credyd yn rhoi targed penodol ar gyfer cynyddu nifer aelodau ifanc undebau credyd yng Nghymru er mwyn mesur effeithlonrwydd y prosiect. Fodd bynnag mae'n werth nodi y bu cynnydd rhesymol yn nifer yr aelodau ifanc ers dechrau'r prosiect o 9,090 ym Medi 2010 i 11,218 erbyn Medi 2012 a 12,195 erbyn Medi 2013. Mae undebau credyd gyda chontract SGEI wedi perfformio'n well na'u cymheiriad yn ystod y cyfnod yma. Fel y dangosir yn Ffigur 9 bu twf amlwg yn nifer aelodau iau rhwng 2011 a 2012 ond bu cyflymder y twf rhwng 2012 a 2013 yn llawer arafach ac i raddau helaeth mae'n adlewyrchu'r ffocws is a roddodd nifer o undebau credyd ar waith mewn ysgolion.

*Ffigur 9: Newidiadau yn Nifer Aelodau Ifanc Undebau Credyd*

|                                                   | Medi 10 | Medi 11 | Medi 12 | Medi 13 |
|---------------------------------------------------|---------|---------|---------|---------|
| Cyfanswm nifer aelodau ifanc undebau credyd Cymru | 8,090   | 9,078   | 11,218  | 12,195  |
| Aelodau ifanc undebau credyd gyda chontract SGEI  | 6,582   | 7,361   | 10,100  | 11,228  |
| Aelodau ifanc undebau credyd heb gontract SGEI    | 1,508   | 1,717   | 1,118   | 967     |

Ail darged Cynllun Gweithredu yr Undebau Credyd oedd cynyddu sylfaen asedau undebau credyd Cymru o'i waelodlin o £21m i £75m erbyn 2020. Bu cynnydd blynyddol cyson yn sylfaen asedau undebau credyd Cymru ers 2010 o £23.8 miliwn i £35.0 miliwn, gyda'r twf ymysg undebau credyd gyda chontract SGEI yn cyfrif am y newid hwn (hyd yn oed pan anwybyddir y data ar gyfer y ddau undeb credyd a ymunodd â'r prosiect yn 2012, fel y dangosir yn Ffigur 9). Caiff y gostyngiad yn sylfaen asedau undebau contract heb gontract SGEI rhwng 2011 a 2012 ei esbonio drwy gynnwys data dau undeb credyd yn nata contract SGEI erbyn 2012.


*Ffigur 10: Newidiadau yn Sylfaen Asedau Undebau Credyd*

|                                                   | Medi 10 | Medi 11 | Medi 12              | Medi 13 |
|---------------------------------------------------|---------|---------|----------------------|---------|
| Cyfanswm Sylfaen Asedau Undebau Credyd Cymru      | £23.8m  | £27.5m  | £30.7m               | £35.0m  |
| Sylfaen Asedau Undebau Credyd gyda chontract SGEI | £19.1m  | £22.2m  | £26.3m <sup>77</sup> | £30.4m  |
| Sylfaen Asedau Undebau Credyd heb gontract SGEI   | £4.7m   | £5.2m   | £4.4m                | £4.6m   |

Er mwyn cyflawni targed y Cynllun Gweithredu Undebau Credyd o £75m (a thybio bod sylfaen asedau undebau credyd heb gontract SGEI yn parhau'n sefydlog), mae'n rhaid i'r prosiect sicrhau cynnydd blynyddol o 14% yn sylfaen asedau'r undebau credyd a gefnogir (fel y dangosir yn Ffigur 11). Credwn mai dim ond os oes cefnogaeth ariannol ar gael dros gyfnod y prosiect y medrir cyflawni'r gyfradd twf blynyddol yma - ac mae targed y Cynllun Gweithredu'n parhau'n afrealistig iawn os na cheir cyllid.

<sup>77</sup> Yn cynnwys Undebau Crefeddyd Islwyn a Llynfi a ymunodd â'r prosiect yn ddiweddarach. Heb y ddau undeb credyd yma, byddai'r ffigur tua £25.4 miliwn

*Ffigur 11: Sylfaen Asedau Undebau Credyd gyda Chontract SGEI - Targedau Gofynnol*



Trydydd targed allweddol Cynllun Gweithredu yr Undebau Credyd oedd cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o undebau credyd yng Nghymru erbyn Medi 2013. Gan nad oedd y Cynllun Gweithredu yn rhoi unrhyw ddata gwaelodlin ar ymwybyddiaeth o undebau credyd aeth Llywodraeth Cymru ati yn 2011 i fesur a monitro ymwybyddiaeth y cyhoedd drwy Arolwg Omnibws Cymru. Comisiynodd Llywodraeth Cymru gyfres o gwestiynau i'w gofyn i'r boblogaeth gyffredinol drwy Arolwg Omnibws Cymru a gynhaliwyd gan Beaufort Research Cyf ym mis Tachwedd 2011<sup>78</sup> ac eto ym mis Mehefin 2012<sup>79</sup>. Er mai bwriad Llywodraeth Cymru oedd parhau i ddefnyddio'r arolwg yma i olrhain newidiadau yn ymwybyddiaeth y cyhoedd, ni wnaethpwyd unrhyw waith pellach yn y cyswllt hwn gan ei gwneud yn anodd iawn asesu os cynyddodd lefelau ymwybyddiaeth dros gyfnod.

Canfu'r ymchwil fod lefelau ymwybyddiaeth ymysg y cyhoedd yn gyffredinol yn rhesymol dda - gyda dim ond hanner y rhai a arolygwyd yn ystod 2011 a 2012 yn dweud eu bod yn gwybod am undebau credyd (ar 52% a 51% yn yr un drefn). Ymddangosai fod yr ymwybyddiaeth uchaf yng Ngogledd Cymru, ymysg grwpiau hŷn a rhai o swyddi rheoli a phroffesiynol. Roedd

<sup>78</sup> Cynhaliwyd 1008 cyfweiliad gydag oedolion 16 oed a throsodd yn byw yng Nghymru

<sup>79</sup> Cynhaliwyd 1006 cyfweiliad gydag oedolion 16 oed a throsodd yn byw yng Nghymru

ymwybyddiaeth yn is yn y Cymoedd, ymysg pobl ifanc a gweithwyr llafuriol lled-grefftus a di-grefft. Canfu'r ymchwiliad nad yw ymwybyddiaeth o undebau credyd o reidrwydd yn trosi yn aelodaeth fodd bynnag gyda dim ond rhwng 6% a 7% o'r rhai a arolygwyd yn ystod 2011 a 2012 a wyddai am undebau credyd yn aelodau.

Yn nhermau cynyddu nifer gwirfoddolwyr gweithgar undebau credyd (o sylfaen o 754 yn 2009 i 1,000 erbyn Mawrth 2013), dangosodd data a gafwyd fod gan y prosiect 893 o wirfoddolwyr yn cymryd rhan ym Medi 2012 ond fod hyn wedi gostwng i 844 erbyn Medi 2013. Er bod y cynnydd cyffredinol yn gynydd iach ar y ffigur gwaelodlin, mae'n amhosibl gwybod yn bendant os cyflawnwyd targed 2013 heb gael data o'r pum undeb credyd nas cefnogwyd gan SGEI. Dangosodd ein gwaith maes, er enghraifft, fod gan un o'r undebau credyd nas cefnogwyd tua 22 o wirfoddolwyr a fyddai'n awgrymu ei bod yn annhebygol y byddai gan yr pedwar undeb credyd arall dros 100 o wirfoddolwyr.

Roedd y pumed targed (a'r olaf) yn y Cynllun Gweithredu Undebau Credyd yn ymwneud â darparu cefnogaeth i undebau credyd oedd yn derbyn cyllid Llywodraeth Cymru. Cyflawnwyd y targed yma i raddau helaeth drwy ddarparu cefnogaeth gan TSIB.

#### **6.4 Gwerth am Arian**

Gellir asesu'r gwerth am arian a gyflawnwyd gan y Prosiect Undebau Credyd drwy ymchwilio cost allbynnau a gyflawnwyd o gymharu â'r cyfanswm gwariant. Dangosir cyfanswm gwariant prosiect ar gyfer ail gyfnod y ddarpariaeth ers mis Hydref 2011 yn Ffigur 12 sy'n dangos fod y prosiect wedi gwario £3.9 miliwn erbyn diwedd Ionawr 2014, gan ddangos gorwariant bach o £154,481. Yn ôl y disgwyl, gwariwyd cyfran sylweddol o'r cyllid (86%) ar ddarparwyd ar gontract ac o'r gwariant hwn o £3.32 miliwn gallwn dybio y cafodd o leiaf 70% (£2.32 miliwn) ei ddyrannu'n uniongyrchol i'r undebau credyd sy'n cymryd rhan yn y prosiect. Rydym hefyd wedi tybio y byddai TSIB

wedi cadw £996,000 i weinyddu'r prosiect a darparu cefnogaeth uniongyrchol i undebau credyd.

*Ffigur 12: Incwm a Gwariant Prosiect Undebau Llafur*

|                                          |                   |
|------------------------------------------|-------------------|
| <b>Incwm</b>                             |                   |
| Llywodraeth Cymru                        | £2,193,418        |
| Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) | £1,520,128        |
| <b>Cyfanswm Incwm</b>                    | <b>£3,713,556</b> |
|                                          |                   |
| <b>Gwariant</b>                          |                   |
| Costau Staff Llywodraeth Cymru           | £452,184          |
| Costau T&S Llywodraeth Cymru             | £13,170           |
| Taliadau TSIB                            | £3,320,341        |
| Ymchwil a Gwerthuso                      | £61,264           |
| Archwilio                                | £21,079           |
| <b>Cyfanswm Gwariant</b>                 | <b>£3,868,037</b> |
|                                          |                   |
| <b>Balans incwm/gwariant</b>             | <b>-£154,481</b>  |

Gwnawn y sylwadau diweddar am y gwerth am arian a gyflawnwyd drwy'r prosiect:

- Gwariwyd dros draean gwariant y prosiect (h.y. bron £1.5 miliwn) ar reolaeth prosiect a chostau cysylltiedig â chymorth busnes rhwng yr adnoddau a ddefnyddiwyd yn Llywodraeth Cymru ac yn TSIB. Credwn yr ymddengys hyn yn gyfran weddol uchel ac y gallai dulliau eraill o ddarparu gwasanaethau ariannol i unigolion a gafodd eu hallgáu'n ariannol fod wedi rhoi datrysiad mwy effeithlon o ran cost;
- Bu cost cefnogi pob unigolyn ychwanegol a allgáuwyd yn ariannol a adroddwyd gan undebau credyd yn £168<sup>80</sup> yr un. Mae hyn yn cymharu'n ffafriol gyda'r gost wreiddiol o gefnogi pob unigolyn a allgáuwyd yn ariannol o £467<sup>81</sup> yr un a gymeradwywyd gan WEFO;
- Mae'n amhosibl mesur os yw'r £168 a wariwyd fesul unigolyn a allgáuwyd yn ariannol yn werth da am arian ai peidio gan na all y prosiect roi unrhyw ddata ar natur y gwasanaethau a ddefnyddiwyd gan yr unigolion hyn. Er enghraifft, ni wyddys ar lefel prosiect os defnyddiodd yr unigolion hyn wasanaethau cynilo a/neu fenthycu

<sup>80</sup> £3.868 miliwn o wariant yn erbyn allbwn a gyflawnwyd o 23,052 o unigolion ychwanegol wedi eu hallgáu'n ariannol

<sup>81</sup> £3.5 miliwn o gyllid yn erbyn targed gwreiddiol o 7,500 o unigolion ychwanegol wedi eu hallgáu'n ariannol

undebau credyd, ac os mai gwasanaethau benthycia a ddefnyddiwyd, beth oedd cyfanswm gwerth y benthyciadau. Dywedodd undebau credyd wrthym yn rheolaidd fod gwerth y benthyciadau a ddyfarnwyd i aelodau oedd wedi eu hallgáu'n ariannol yn isel, yn aml hyd at £300 neu £500 fan bellaf, ac ar y sail hon na fyddai'n anghywir tybio y gallai cost cefnogi pob unigolyn fod yn gyfartal â thua hanner gwerth benthyciad a ddyfarnwyd, sydd yn ein barn ni yn ymddangos yn ymyriad gymharol gostus;

- Gwelwyd canlyniadau a datblygiadau sylweddol eraill ar draws y sector undebau credyd dros gyfnod cyflenwi'r prosiect ac mae'n rhaid ystyried y cyflawniadau hyn wrth gyfrif gwerth am arian. Yn neilltuol cafodd gwelliannau i gynaliadwyedd ariannol undebau credyd a gafodd gefnogaeth, newid diwylliannol mewn agweddau, gwelliannau i lywodraethiant undebau credyd a'r cynnydd yn y cynnyrch a gwasanaethau a gynigiwyd eu cynorthwyo gan fuddsoddiad o fewn y sector - er ei bod yn amhosibl meintoli hynny mewn unrhyw gyfrifiad gwerth am arian.

Pe byddai data wedi bod ar gael, dull arall ar gyfer asesu y gwerth am arian a gafwyd o'r prosiect fyddai ystyried y llog ychwanegol ar fenthyciadau y byddai'n rhaid i unigolion wedi eu hallgáu'n ariannol fod wedi gorfod ei dalu pe byddent wedi cael benthyciad gan ddarparu ariannol arall gyda llog uwch. Gellid cynnal ymarferiad o'r fath pe byddai data lefel prosiect ar gael ar gyfanswm gwerth y benthyciadau a ddyfarnwyd dros oes y prosiect. Byddai tystiolaeth anecdotaidd gan un undeb credyd ar hyn yn awgrymu fod yr arbediad hwn yn £1.5 miliwn dros gyfnod o 18 mis pe byddai'r aelodau hynny a gafodd fenthyciad wedi cael hynny drwy ddarparu benthyciadau diwrnod cyflog fel Wonga. Mae tystiolaeth gan undeb credyd arall yn amcangyfrif y byddai'r arbediad yma yn isafswm o £227,000 dros gyfnod chwe mis (yn seiliedig ar ddarparu 154 benthyciad newydd i aelodau wedi eu hallgáu'n ariannol ac aelodau heb fod wedi eu hallgáu'n ariannol) a gallai'r arbediad hwn o bosibl gynyddu ymhellach pe ystyrid taliadau hwyr ar fenthyciadau diwrnod cyflog.

## 7. CASGLIADAU AC ARGYMHELLION

Yn yr adran yma, amlinellwn ein prif gasgliadau yn ogystal â gwneud argymhellion ar gyfer y dyfodol.

Ein casgliad yw y bu'r Prosiect Undebau Credyd yn gymharol lwyddiannus wrth gyflawni ei brif nodau ac amcanion, fel yr amlinellwyd yn ei gynllun busnes gwreiddiol. Dangosodd ein gwaith maes y gwnaethpwyd cynnydd rhesymol tuag at yr amcan o ddarparu 'gwasanaeth ariannol ansawdd uchel hygyrch, fforddiadwy a chyfartal a 'bod y cyllid a ddarparwyd wedi gwneud cyfraniad sylweddol i'r datblygiadau a fu.

Fodd bynnag mae'n dal i fod yn wir fod gwahaniaethau sylweddol yn y ffyrdd y ddarparwyd gwasanaethau ariannol i'r gynulleidfa darged drwy'r prosiect gan awgrymu na chafodd yr amcan ei gyflawni mewn modd cyson. Mae'n dal i fod yn wir hefyd fod undebau credyd yn sefydliadau unigryw ac yn wahanol iawn i'w gilydd yn nhermau eu cynnyrch, gwasanaethau a gweithrediadau.

Ni chawsom ein darbwylo fod y prosiect mewn gwirionedd wedi cyflawni'n llawn un o amcanion y prosiect sef datblygu 'mudiad undebau credyd cryf, cadarn ac effeithlon', o gofio am y dystiolaeth barhaus o raniadau o fewn y mudiad. Ar ôl dweud hyn, dangosodd ein gwerthusiad y gwnaed gwelliannau ar draws y sector undeb credyd dros gyfnod y prosiect ac mae adborth gan y rhai yr ymgynghorwyd â nhw yn awgrymu fod y cyllid a fuddsoddwyd wedi cyfrannu'n sylweddol at y datblygiadau hyn yn neilltuol yn nhermau newid agwedd tuag at fod yn hunan-gynaliadwy a gwelliannau i drefniadau llywodraethiant undebau credyd.

Yn ein barn ni mae'r Prosiect Undebau Credyd wedi perfformio'n dda ar y targedau a ariannwyd gan WEFO - yn neilltuol yn nhermau rhagori ar y targed a osodwyd ar gyfer y nifer o unigolion wedi eu hallgáu'n ariannol a gefnogwyd a gwnaed cynnydd rhesymol o ran diwallu'r targedau themâu trawsbynciol. Yn wir un o uchelbwyntiau allweddol y prosiect fu'r ffaith ei fod wedi cefnogi dros 23,000 o unigolion oedd wedi eu hallgáu'n ariannol. Ar lefel undeb credyd

unigol mae pob un heblaw tri o'r 17 undeb credyd a ariannwyd wedi cyflawni neu ragori ar eu targedau contract a gyda'i gilydd roedd yr allbwn a adroddwyd ar gyfer Cymru-gyfan yn dair gwaith y targed contract. Mae undebau credyd i'w canmol am eu hymdrechion, yn neilltuol dros y deunaw mis diwethaf, yn cynyddu eu haelodaeth ymysg y grŵp neilltuol yma.

Gwnaed cynnydd rhesymol ar dargedau Cynllun Gweithredu yr Undebau Credyd dros gyfnod cyflenwi'r prosiect. Cyn belled ag y medrir cadw aelodaeth a thwf asedau'r gorffennol i'r dyfodol yna mae'n bosibl y gellid sicrhau 142,000 o aelodau undeb credyd yng Nghymru a sylfaen asedau o £75 miliwn erbyn 2020, ond yn ein barn ni bydd y targedau hyn yn anodd iawn heb fwy o gymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru o leiaf yn y tymor canol.

Ein casgliad yw y bu TSIB yn effeithlon wrth weinyddu'r cytundebau cyllido ar gyfer undebau credyd a gefnogir. Bu natur eu cefnogaeth yn addas ac mae tystiolaeth o'r sector yn awgrymu y cafodd y gefnogaeth ei gwerthfawrogi - er mai ar nifer fechan o undebau credyd yr effeithiodd.

Ail-ategwn ein barn o'n Hadroddiad Interim fod gweithgaredd hyrwyddo a marchnata'r prosiect wedi dechrau rywfaint yn hwyr yn y dydd ond er hyn, bu'r gweithgareddau hyrwyddo yn addas a rhesymol effeithlon wrth godi proffil y mudiad yng Nghymru. Cynorthwywyd hyn wrth gwrs drwy fwy o ddiddordeb gwleidyddol a chyfryngau yn y sector dros y flwyddyn ddiwethaf - sydd yn sicr wedi codi proffil y sector ond sydd hefyd wedi arwain at ddisgwyliadau uwch gan aelodau posibl. Fodd bynnag credwn fod ymdrechion marchnata'r prosiect wedi eu llesteirio gan ddiffyg hunaniaeth gyffredin i undebau credyd a chynnyrch a gwasanaethau cyson ar draws Cymru - ac nid yw hynny wedi helpu i wrthsefyll cystadleuaeth o'r farchnad darpariaeth ariannol amgen lle bu cynnydd enfawr dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf.

Ein casgliad yw y bu'r twf mewn aelodaeth undebau credyd dros gyfnod y prosiect yn gadarnhaol iawn ac ar raddfa fwy nag a awgrymir gan ddata ABCUL ar gyfer undebau credyd y Deyrnas Unedig. Yn yr un modd bu twf rhesymol yn sylfaen asedau a phortffolios benthyciadau'r undebau credyd a

gefnogwyd. Mae adborth gan y sector yn awgrymu y gellir priodoli llawer o'r twf yma i gefnogaeth cyllid SGEI gan na fyddai undebau credyd wedi medru datblygu i'r un graddau heb yr adnoddau ychwanegol i gyflogi staff.

Fodd bynnag, mae dadansoddiad pellach o berfformiad ariannol undebau credyd yn parhau i ddangos eu bod yn dal yn gymharol wan o ran eu strwythurau ariannol (benthyciadau net i gyfanswm asedau), yn dal i fod â chostau gweithredu uchel iawn ac i ddal mwy o gronfeydd arian nag a ddymunir. Bu gwelliannau i gymarebau cyfalaf-asedau undebau credyd a gostyngiad yn eu darpariaeth ar gyfer dyledion drwg, ond yn gyffredinol mae'r darlun a gyflwynir gan ddata PEARLS yn un o gynnydd braidd yn gymysg.

Yn ystod y gwaith maes ar gyfer yr adroddiad terfynol hwn, roedd yn glir fod newid sylweddol mewn agweddau tuag at ddod yn sefydliadau ariannol gynaliadwy ymysg yr undebau credyd hynny sy'n derbyn cyllid SGEI ar hyn o bryd. Cafodd hyn ei helpu gan yr hyblygrwydd a gynigiwyd gan Lywodraeth Cymru i'r undebau credyd hynny oedd eisoes wedi cyflawni eu targedau ar gyfer recriwtio aelodau wedi eu hallgáu'n ariannol i amrywio eu sylfaen cwsmeriaid. Cafodd hefyd ei annog gan y ffocws a roddwyd gan TSIB i helpu undebau credyd i gynllunio tuag at yr amcan hwn. Fodd bynnag, daeth hyn braidd yn hwyr yn y dydd ac er i ni weld cynnydd tuag at yr amcan ar draws nifer o undebau credyd yr ymwelwyd â nhw, mae'n dal i fod yn wir y byddai llawer o undebau credyd yn gorfod cyfnerthu yn nhermau eu darpariaeth tra byddai eraill yn gorfod ymdrechu i barhau o gwbl oni bai am gyllid parhaus gan Lywodraeth Cymru.

Mae polisi Llywodraeth y Deyrnas Unedig a hefyd Lywodraeth Cymru wedi parhau'n gefnogol i'r sector undebau credyd, ac i ryw raddau mae'r gefnogaeth wleidyddol yma wedi cynyddu'n ddiweddar mewn ymateb i'r materion cynyddol yn gysylltiedig gyda benthyciadau diwrnod cyflog. Yn ein barn ni mae angen mwy o eglurder ar bolisi Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector gan ei fod ar y naill law wedi cynyddu'r hyblygrwydd a gynigiodd i undebau credyd a ariannwyd dros tua'r flwyddyn ddiwethaf i weithio gydag unigolion heb fod wedi eu hallgáu'n ariannol tra'n cadarnhau'r rôl sydd gan

undebau credyd wrth liniaru tlodi. Er ei bod yn sicr y croesawyd y cyllid ychwanegol a ddarparwyd i'r sector ar gyfer y cyfnod o Fedi 2013 i Fawrth 2014, mae gennym rai amheuan am allu'r sector i ddefnyddio hyn mewn ffordd strategol, o gofio am yr amserlen fer ar gyfer dosbarthu'r cyllid.

Yn nhermau gwerth am arian, mae cyfyngiadau difrifol ar y data sydd ar gael a fyddai'n ein galluogi i ffurfio barn bendant. Bu'n anodd asesu effaith economaidd gwariant y prosiect oherwydd diffyg data ar lefel prosiect ar werth y benthyciadau a ddyfarnwyd gan y prosiect ac mae hon yn her a ddylai gael ei thrin mewn unrhyw ddarpariaeth yn y dyfodol. Ymhellach, mae'r ffaith fod gan amcanion y cyllid ddwy nod wahanol - cynyddu twf ariannol undebau credyd yng Nghymru, er mwyn gostwng neu ddileu dibyniaeth hirdymor ar gyllid grant yn y dyfodol, a chynyddu gwasanaethau i'r rhai sydd wedi eu hallgáu'n ariannol - a brofwyd gan lawer o undebau credyd megis mewn tensiwn gyda'i gilydd, yn ychwanegu at yr anhawster o ffurfio barn o'r fath. Yn ein barn ni, mae'r prosiect wedi llwyddo i gynyddu nifer y bobl wedi eu hallgáu'n ariannol sy'n cyrchu gwasanaethau ariannol drwy undebau credyd ond cafodd ganlyniadau llawer mwy cymysg yn nhermau annog cynaliadwyedd ariannol (fel y dangosir gan PEARLS a data perfformiad arall). Oherwydd hyn, ni chredwn y bu'r prosiect yn llwyddiant diamod, er iddo gyflawni llawer o'i dargedau.

Fel y gwnaethom yn glir yn ein Hadroddiad Interim, credwn y gellid defnyddio model mwy effeithlon o ran cost (yn seiliedig ar wahanu ffrydiau cyllid yn gysylltiedig â'r ddwy nod o ddarparu gwasanaethau i bobl sydd wedi eu hallgáu'n ariannol ac adeiladu mudiad undebau credyd cynaliadwy) yn y dyfodol. Credwn hefyd y dylid bod wedi defnyddio fformiwla decach ar gyfer ariannu'r math yma o waith - fformiwla a fyddai wedi ei chysylltu'n uniongyrchol gyda nifer yr unigolion wedi eu hallgáu'n ariannol a gefnogwyd (er y derbyniwn y gellid bod angen defnyddio premiwm ar gyfer ffactorau megis natur wledig).

Cyflwynwn y gyfres ddilynol o argymhellion:

**Argymhelliad 1:** Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn egluro a chyhoeddi ei bwriadau ar gyfer y sector undebau credyd yng Nghymru drwy ddatganiad polisi a fyddai'n adeiladu ar ei gyfathrebiad i'r sector yn 2013, gan sicrhau fod y bwriadau hyn yn gydnaws gyda rhai'r Adran Gwaith a Phensiynau ar gyfer y sector undebau credyd. Fel rhan o'r datganiad polisi hwn credwn y dylai Llywodraeth Cymru roi ystyriaeth briodol i p'un ai dim ond undebau credyd a all, neu sydd fwyaf addas, ar gyfer mynd i'r afael â'i nod o gefnogi darpariaeth gwasanaethau ariannol ar gyfer unigolion sydd wedi eu hallgáu'n ariannol.

**Argymhelliad 2:** Os yw Llywodraeth Cymru'n dymuno parhau â'i amcan polisi o gefnogi darpariaeth gwasanaethau ariannol i unigolion sydd wedi eu hallgáu'n ariannol, yna argymhellwn ei bod yn adolygu'r ffordd y caiff y gwasanaethau hyn eu hariannu er mwyn sicrhau'r gwerth gorau am arian. I gyflawni hyn awgrymwn fod cyllid ar gael ar sail gystadleuol drwy gcontractau darparu gwasanaeth a bod cysylltiad agos rhwng gwerth pob contract a ddyfernir â nifer yr unigolion a gafodd eu hallgáu'n ariannol a gwerth y benthyciadau a ddarparwyd i'r grŵp yma. Argymhellwn ymhellach fod Llywodraeth Cymru yn cydnabod fod angen cyllid parhaus i gefnogi unigolion a gafodd eu hallgáu'n ariannol, yn neilltuo o fewn cyd-destun y cynnydd syfrdanol mewn dyledion a defnyddio benthyciadau diwrnod cyflog.

**Argymhelliad 3:** Argymhellwn ymhellach fod Llywodraeth Cymru yn gofyn i ddarparwyr gwasanaeth a gafodd contract i gyflwyno gwasanaethau i unigolion sydd wedi eu hallgáu'n ariannol roi adroddiad ar nifer yr unigolion sydd wedi eu hallgáu'n ariannol a gefnogwyd, nifer y benthyciadau a ddyfarnwyd i'r unigolion hyn yn ogystal â gwerth benthyciadau a roddwyd i'r grŵp er mwyn gallu adrodd yn well ar effaith economaidd ymyriad a'r gwerth am arian a gyflawnwyd.

**Argymhelliad 4:** Ni chredwn ei bod yn afrealistig i Lywodraeth Cymru ddisgwyl i ddarparwyr gwasanaeth gyflawni meini prawf gofynnol fel rhan o unrhyw ofynion contractio darpariaeth gwasanaeth yn y dyfodol. Byddai hyn

yn golygu er enghraifft y gallai Llywodraeth Cymru ddisgwyl i ddarparwyr gwasanaeth gynnig gwasanaethau hygyrch i gwsmeriaid bydded hynny ar wedd oriau agor hirach (e.e. rhwng 9am a 5.30pm ar o leiaf ddau ddiwrnod yr wythnos neu drwy blatfformau ar-lein (e.e. y gallu i gwsmeriaid wneud cais am fenthyciadau ar-lein a gweld cyfriflenni ar-lein ac ati).

**Argymhelliad 5:** Os yw Llywodraeth Cymru yn dymuno parhau ei ymrwymiad i ddatblygu undebau credyd ariannol gynaliadwy yna dylai roi cefnogaeth buddsoddi i undebau credyd yn unol â hynny ac ar wahân i gyllid ar gyfer darparu gwasanaethau i unigolion sydd wedi eu hallgáu'n ariannol. Dylai cyllid ar gyfer y diben hwn yn y dyfodol, yn gyfalaf a refeniw, fod yn ddibynnol ar fod undebau credyd yn cyflwyno cynlluniau busnes derbyniol sy'n amlinellu'n glir sut y bwriadant ddod yn weithrediadau cynaliadwy o fewn cyfnod penodol ac sy'n rhoi sicrwydd o lywodraethiant da. Awgrymwn y dylai'r cyllid hwn fod ar gael ar sail tapr am dair blynedd bellach, yn dibynnu ar dwf cyffredinol mewn aelodaeth undebau credyd, twf asedau a chynnydd o'r incwm a enillir o weithgaredd benthyca. Argymhellwn ymhellach fod Llywodraeth Cymru yn cymryd agwedd llawer mwy cadarn i sicrhau gwerth am arian o fuddsoddiad o'r fath a dileu cyllid o unrhyw undeb credyd sy'n methu cyflawni ar dargedau a gytunwyd.

**Argymhelliad 6:** Argymhellwn gynnal darpariaeth gwasanaethau cefnogaeth i undebau credyd (yn cynnwys yng nghyswllt cryfhau llywodraethiant) yn y dyfodol a bod hyn ar gael drwy gefnogaeth buddsoddi Llywodraeth Cymru a roddir i undebau credyd. Awgrymwn fod undebau credyd yn uniaethu drwy eu proses cynllunio busnes pa gefnogaeth meithrin gallu y byddent ei angen a threfnu cyllideb ar gyfer hynny o fewn y cynlluniau busnes a gyflwynant. Byddai hyn yn galluogi undebau credyd i ddefnyddio cefnogaeth i ddiwallu eu hanghenion penodol gan ystod o ddarparwyr.

## Atodiad 1: Rhestr cyfweleion (gwaith maes 2013)

| Enw                                                  | Sefydliad                                           |
|------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------|
| <b>Rhanddeiliaid</b>                                 |                                                     |
| Chris Gittins                                        | Llywodraeth Cymru                                   |
| Charlotte Anscombe                                   | Llywodraeth Cymru                                   |
| Michael Harmer                                       | Llywodraeth Cymru                                   |
| Bill Hudson                                          | TSIB                                                |
| Ceryse Fear                                          | TSIB                                                |
| John Chell                                           | TSIB                                                |
| Ian Rees                                             | TSIB                                                |
| Teej Dew                                             | Canolfan Cydweithredol Cymru                        |
| Jo Lovell                                            | Canolfan Cydweithredol Cymru                        |
| Lucia Galespi                                        | Canolfan Cydweithredol Cymru                        |
| Lee Phillips                                         | Gwasanaeth Cyngor Ariannol                          |
| Delyth Morgan                                        | Cyngor Ar Bopeth Cymru                              |
| Alun Taylor                                          | Cadeirydd Cangen De Cymru, ABCUL                    |
| Elizabeth Emmons                                     | Uned Benthycy Arian Anghyfreithlon, Safonau Masnach |
| Ryan Evans                                           | Uned Benthycy Arian Anghyfreithlon, Safonau Masnach |
| Russell Smith                                        | Prifysgol Fetropolitan Caerdydd                     |
| <b>Undebau Credyd Rheoli</b>                         |                                                     |
| Just (Undeb Credyd Swydd Amwythig, Telford a Wrekin) |                                                     |
| Undeb Credyd Bryste                                  |                                                     |
| BAG (Undeb Credyd Bargoed, Aberbargoed a Gilfach)    |                                                     |
| <b>Ymwelwyd â'r Undebau Credyd canlynol yn 2013:</b> |                                                     |
| LASA                                                 |                                                     |
| Undeb Credyd Aberhonddu a'r Cylch                    |                                                     |
| Undeb Credyd Caerdydd a'r Fro                        |                                                     |
| Undeb Credyd Casnewydd                               |                                                     |
| Undeb Credyd Castell-nedd Port Talbot                |                                                     |
| Undeb Credyd Gateway                                 |                                                     |
| Undeb Credyd Gogledd Cymru                           |                                                     |
| Undeb Credyd Gorllewin Cymru                         |                                                     |
| Undeb Credyd Hafren                                  |                                                     |
| Undeb Credyd Islwyn                                  |                                                     |
| Undeb Credyd Llynfi                                  |                                                     |
| Undeb Credyd Pen-y-bont ar Ogwr                      |                                                     |
| Undeb Credyd Smart Money Cymru                       |                                                     |